Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024

## Adroddiad

Hydref 2025

eunomia

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53083, ISBN digidol 978-1-80633-471-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Adroddiad y Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024

Awduron: Shai Kassirer, Clare Twigger-Ross, William Fitter, Isadora Jukes, Emily Perkins

Eunomia Research & Consulting Ltd.

Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/cronfa-sgyrsiau-am-yr-hinsawdd-2024-adroddiad

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mina Gedikoglu

Ymchwil Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ClimateAndEnvironmentResearch@gov.wales

# 1.Tabl cynnwys

Tabl cynnwys ........................................................................................................ 1

Geirfa ........................................................................................................ 3

1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 4

1.1 Cronfa Gweithgarwch Cymunedol Sgyrsiau am yr Hinsawdd ac Wythnos Hinsawdd Cymru ........................................................................................................ 4

1.2 Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024 – Addasu i'n hinsawdd sy'n newid .......................... 5

1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn ........................................................................................................ 6

1.3.1 Methodoleg ac ansawdd adrodd ........................................................................................................ 6

2. Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024 .......................................... 9

2.1 Trefnwyr digwyddiadau ........................................................................................................ 11

2.2 Data demograffig ........................................................................................................ 12

2.2.1 Oedran (o dan neu dros 18) ........................................................................................................ 12

2.2.2 Rhywedd ........................................................................................................ 13

2.2.3 Ethnigrwydd ........................................................................................................ 13

2.2.4 Preswylfan cyfranogwyr ........................................................................................................ 15

2.2.5 Statws Gwaith ........................................................................................................ 16

2.3 Gweithgareddau digwyddiadau ........................................................................................................ 16

3. Canfyddiadau ........................................................................................................ 18

3.1 Lefelau gwybodaeth a phryder ........................................................................................................ 18

3.1.1 Gwybodaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd ............................................. 18

3.1.2 Pryder ynghylch newid yn yr hinsawdd ........................................................ 19

3.2 Risgiau ac effeithiau hinsawdd ........................................................................................................ 21

3.2.1 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tywydd poeth eithafol? .......... 22

3.2.2 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau sychder? .............................. 23

3.2.3 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau stormydd garw a llifogydd? ... 24

3.2.4 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tarfu ar y cyflenwad bwyd? ... 25

3.2.5 Llifogydd ........................................................................................................ 26

3.2.6 Sychder a thanau gwyllt ........................................................................................................ 27

3.2.7 Effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant ............................................. 28

3.2.8 Effeithiau ar ddiogelwch bwyd ........................................................................................................ 29

3.2.9 Gwahanol effeithiau yn ôl grŵp demograffig ................................................. 29

3.3 Mesurau addasu i'r hinsawdd ........................................................................................................ 31

3.3.1 Pa mor barod ..... 31
3.3.2 Amddiffyn y cartref ..... 33
3.3.3 Gwella hunan-gynhaliaeth a gwydnwch rhag tarfu ar ynni a bwyd ..... 33
3.3.4 Mannau cymunedol a grwpiau cymunedol ..... 36
3.3.5 Darparu seilwaith addasu cyhoeddus i gymunedau ..... 36
3.3.6 Gwella cynllunio a bod yn fwy parod ar gyfer argyfwng ..... 37
3.3.7 Mynd ati mewn ffordd gynhwysol ..... 37
3.3.8 Mesurau addasu ar gyfer yr hinsawdd – casgliad cryno ..... 38
3.4 Strategaethau lliniaru newid hinsawdd ..... 40
3.5 Rhwystrau rhag gweithredu ar yr hinsawdd ..... 43
3.5.1 Rhwystrau a wynebir gan leiafrifoedd ethnig ..... 43
3.5.2 Ariannol ..... 43
3.5.3 Diffyg ymddiriedaeth mewn polisi hinsawdd ac arweinwyr ..... 44
3.5.4 Rheoliadau cynllunio a rhwystrau cyfreithiol ..... 44
3.6 Cyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd ..... 45
3.6.1 Twristiaeth a chynhyrchu bwyd ..... 45
3.6.2 Ynni ac arloesi ..... 46
3.6.3 Cydlyniant cymunedol ..... 46
3.7 Cyfathrebu a galluogedd ..... 47
3.7.1 Addysg ..... 47
3.7.2 Strategaethau cyfathrebu – negeseuon cadarnhaol a gobeithiol ..... 48
3.7.3 Priodoli bai a chyfrifoldeb ..... 48
3.7.4 Galluogedd: Grymuso a Chyfranogi ..... 49
4. Casgliad thematig – galwadau am Wydnwch Hinsawdd ..... 51
5. Adborth ar y digwyddiadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella ..... 53
5.1 Adborth ar y digwyddiadau ..... 53
5.1.1 Adborth cadarnhaol ..... 53
5.1.2 Cyfyngiadau a heriau’r sgyrsiau hinsawdd ..... 53
5.2 Argymhellion ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol ..... 54
Atodiad A: Rhestr o adroddiadau digwyddiadau er gwybodaeth ..... 55
Atodiad B: Cyfranogwyr fesul prif ardal ..... 61
Atodiad C: Methodoleg Fanwl ..... 62
Atodiad D: Pecyn Trefnwyr ..... 69

# 2. Rhestr ffigurau

# 3. Geirfa

**Y Gronfa**

Y Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd

**Addasu i'r Hinsawdd**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio camau a gymerir i fynd i'r afael â risgiau hinsawdd a pharatoi ar gyfer y newidiadau o'n blaenau, fel a ddisgrifir yn y Pecyn ar gyfer Trefnwyr.

**Lliniaru'r Newid yn yr Hinsawdd**

Mae'n cyfeirio at gamau a gymerir i gyfyngu ar gynhesu byd-eang pellach trwy ostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel a ddisgrifir yn y Pecyn ar gyfer Trefnwyr.

**Prif Ardal**

Ffurf o is-raniad llywodraeth leol yw'r prif ardaloedd yng Nghymru sy'n cynnwys 22 o siroedd a bwrdeistrefi sirol. Mae pob prif ardal yn ffurf un-haen o lywodraeth leol, gyda phob un yn cael ei lwyodraethu gan brif gyngor.

**Gwydnwch**

Gallu i baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd, ymateb iddynt ac adfer ohonynt, gan leihau effeithiau negyddol ar systemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**WHC**

Wythnos Hinsawdd Cymru

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cronfa Gweithgarwch Cymunedol Sgyrsiau am yr Hinsawdd ac Wythnos Hinsawdd Cymru

Trefnir Wythnos Hinsawdd Cymru (WHC) gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol ym mis Tachwedd, sy'n cyd-ddigwydd â chynhadledd newid hinsawdd COP y Cenhedloedd Unedig. Ei diben yw cynnwys pobl mewn trafodaeth ynghylch sut i gyflymu'r cynnydd tuag at nodau hinsawdd Cymru. Prif ddigwyddiad yr Wythnos yw cynhadledd rhanddeiliaid sy'n dwyn ynghyd gyrff a rhwydweithiau sector cyhoeddus, cyrff a busnesau diwydiant, sefydliadau amgylcheddol, sefydliadau academaidd a mwy, i archwilio atebion ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae Cronfa Gweithgarwch Cymunedol Sgyrsiau am yr Hinsawdd (y Gronfa), a gyflwynwyd yn 2022, wedi ehangu'r gweithgarwch y tu hwnt i'r gynhadledd i gynnwys deialog â chymunedau lleol ac aelodau o'r cyhoedd. Drwy'r gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth i sefydliadau sydd â chysylltiadau â chymunedau lleol i gynnal 111 o ddigwyddiadau lleol, gan gynnwys dros 6,000 o aelodau o'r cyhoedd.

Er mwyn bod yn gymwys i gael y cyllid grant, mae'n ofynnol i'r trefnwyr gynnal eu digwyddiad yn ystod yr Wythnos neu wedyn (dros gyfnod y cytunwyd arno), archwilio set o gwestiynau strwythuredig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a chyflwyno adroddiad gwerthuso ar ôl y digwyddiad gyda chanfyddiadau allweddol. Mae'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio i gyfrannu at benderfyniadau'r Llywodraeth yn y dyfodol ac i wella dealltwriaeth o'r materion hinsawdd sy'n bwysig i bobl*.* Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan Wythnos Hinsawdd Cymru.

Yn 2024, defnyddiwyd y gronfa i archwilio gwybodaeth, canfyddiadau a syniadau ynghylch thema Wythnos Hinsawdd Cymru 2024: *sut allwn ni addasu i'n hinsawdd sy'n newid?* Yn 2024, manylwyd ar y cwestiynau mewn pecyn trefnwyr, sy'n ddefnyddiol fel pwynt cyfeirio ar gyfer y sgyrsiau (

Atodiad D:  Trefnwyr).

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Eunomia Research & Consulting Ltd i ddadansoddi a chrynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ddigwyddiadau Cronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024 ar gyfer yr adroddiad hwn. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i ddyfnhau dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o farn pobl ar y risgiau hinsawdd, gan gynnwys a yw aelodau'r cyhoedd yn credu bod ganddynt y wybodaeth a'r adnoddau i amddiffyn eu hunain, eu cymunedau a'u teuluoedd rhag y risgiau hyn, ac i ystyried eu syniadau ynghylch cefnogi mentrau cymunedol.

## 1.2 Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024 – Addasu i'n hinsawdd sy'n newid

Ym mis Tachwedd 2024, roedd Wythnos Hinsawdd Cymru'n canolbwyntio ar y cwestiwn *'Sut allwn ni addasu i'n hinsawdd sy'n newid?'*, gan roi cyfle i grwpiau cymunedol drafod goblygiadau lleol risgiau hinsawdd, a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Cynhaliwyd y sgyrsiau rhwng dydd Llun 4 Tachwedd 2024 a dydd Gwener 10 Ionawr 2025. Derbyniodd y gronfa 81 o geisiadau i gynnal sgyrsiau, roedd 6 ohonynt nad oedd yn bodloni'r meini prawf, tynnwyd 1 cais yn ôl, ac roedd 10 digwyddiad nad aeth yn ei flaen. Ar gyfer y 64 o ddigwyddiadau'r Gronfa a gynhaliwyd, derbyniwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 62 adroddiad.

Nod digwyddiad y Gronfa yn 2024 oedd cynyddu dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o lefel pryder y cyhoedd am newid yn yr hinsawdd, ei effeithiau ar wahanol grwpiau, a chanfyddiadau cyfranogwyr o ba mor barod oedd cymunedau ar gyfer patrymau tywydd sy'n newid a chynnydd mewn achosion o lifogydd a thywydd poeth oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae'r Gronfa, yn arbennig, yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gefnogi grwpiau sy'n aml â llai o lais. Mae'r digwyddiadau yn un rhan o gyfres ehangach o ddulliau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i ddeall y themâu hyn. Yn ogystal, mae'r digwyddiadau yn cynnig cyfle i ddeall unrhyw gyfleoedd posibl sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd, y risgiau sy'n wynebu gwahanol grwpiau, ac i asesu a oes gan gymunedau'r wybodaeth, yr adnoddau a'r gefnogaeth i adeiladu ar fentrau lleol llwyddiannus. Mae'r digwyddiadau yn rhoi cyfle hefyd i gefnogi amrywiaeth o grwpiau a dysgu oddi wrthynt, ac i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o faterion hinsawdd ar lefel gymunedol.

Roedd y pecyn ar gyfer trefnwyr (

Atodiad D: ) yn cynnwys cais i'r trefnwyr ofyn cyfres o gwestiynau penagored i'r cyfranogwyr, a thri chwestiwn caeedig yr oedd angen eu gofyn ar ddechrau, neu o flaen, y digwyddiad. Nod y cwestiynau caeedig hyn oedd mesur: lefelau pryder am newid yn yr hinsawdd; gwybodaeth a hunan-adroddwyd am effaith newid yn yr hinsawdd; a'r terfynau amser y mae cyfranogwyr y sgwrs yn credu y byddant yn profi gwahanol effeithiau newid yn yr hinsawdd. Roedd y pecyn hefyd yn cynnwys rhestr o gwestiynau atodol i'w trafod yn ystod y digwyddiad.

## 1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad Eunomia o 62 o adroddiadau o ddigwyddiadau'r Gronfa a gyflwynwyd.

### 1.3.1 Methodoleg ac ansawdd adrodd

Nid ymchwilwyr proffesiynol yw trefnwyr y digwyddiad, ac mae'r Gronfa'r canolbwyntio ar hwyluso trafodaethau ymysg y cyhoedd[1] (sef nid ymchwil 'drylwyr'); yn ogystal, nid oedd disgwyl i'r digwyddiadau fod â chyfranogwyr sy'n gymesurol â'r boblogaeth leol neu genedlaethol. Felly, ni ellir cymryd canfyddiadau'r digwyddiadau i gynrychioli agweddau poblogaeth ehangach Cymru. Yn ogystal, nid oedd unrhyw fframwaith rhagnodedig ar gyfer trefnwyr y digwyddiad ar sut i adrodd, na sut i gasglu data yn systematig, a arweiniodd at amrywiaeth o arddulliau adrodd a graddau manylder ar draws y set ddata. Aeth pob trefnydd ati mewn ffordd wahanol i arwain y sgwrs a chynhyrchu'r adroddiad, gan arwain at amrediad amrywiol o ddata. Mae'r adroddiadau'n amrywio o ran hyd, ansawdd a maint y cynnwys, gyda rhai yn cadw'n agos at y strwythur adroddiadau a gynigir ac a argymhellir yn y pecyn trefnwyr, ac eraill yn darparu tystiolaeth fwy cyffredinol, gan fynd ar drywydd gwahanol yn aml i'r pwnc craidd a'r cwestiynau penagored a ddarparwyd.

Gweithredodd tîm Eunomia y dull canlynol ar gyfer dadansoddi (Cyflwynir y fethodoleg fanwl yn Atodiad C: Methodoleg Fanwl . Rhannwyd y wybodaeth o'r adroddiadau yn ddwy brif set ddata, un ar gyfer dadansoddiad meintiol ac un ar gyfer dadansoddiad ansoddol.

**Mae'r data meintiol** yn rhoi trosolwg o'r digwyddiadau a'r poblogaethau a gymerodd ran ynddynt. Mae tair prif ffynhonnell o wybodaeth feintiol: data digwyddiadau (e.e., lleoliad, trefnydd), data demograffig y cyfranogwyr (e.e., oedran, rhywedd), a data'r holiadur cyn y digwyddiad. Tynnwyd y wybodaeth hon o bob adroddiad a'i chasglu mewn cronfa ddata i'w dadansoddi.

Defnyddiodd trefnwyr y digwyddiadau amrywiol ddulliau i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr holiadur boed hynny cyn neu yn ystod y digwyddiad, ar-lein neu yn bersonol. Cyflwynwyd y data hefyd mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai trefnwyr yn darparu'r data crai, rhai yn cyflwyno'r canlyniadau mewn graffiau, ac eraill yn rhoi datganiadau cyffredinol. Oherwydd yr amrywiadau hyn mewn casglu ac adrodd data, roedd ansawdd y data yn amrywio'n sylweddol o gwestiwn i gwestiwn, a chafodd rhai adroddiadau eu hepgor mewn rhannau o'r

[1] Mae'r Gronfa'n dilyn yr argymhellion ar gyfer gweithredu fel y'u nodir yn yr Adolygiad o Ddulliau Ymgynghori â'r Cyhoedd ar ddatblygu polisi hinsawdd | LLYW.CYMRU

dadansoddiad meintiol. Er enghraifft, gall adroddiad nodi bod oedran y cyfranogwyr "yn amrywio o 16 i 72 oed", ond heb ddim manylion am nifer y bobl o wahanol oedrannau, ac felly ni ellid defnyddio'r adroddiad ar gyfer dadansoddi data oedran. Ar gyfer pob canfyddiad a gyflwynwyd, amlygir nifer yr adroddiadau digwyddiadau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad a nifer y cyfranogwyr yn y digwyddiadau hyn.

Oherwydd bod rhai adroddiadau wedi'u heithrio, mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau meintiol a gyflwynwyd yn cynrychioli*'r holl* gyfranogwyr ym *mhob* digwyddiad. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu nodweddion neu farn cyfranogwyr o ddigwyddiadau a ddarparodd ddata defnyddiol ar gyfer y cwestiwn hwnnw. Mewn rhai achosion, roedd yr un adroddiad yn cynnwys data o ansawdd da ar gyfer rhai cyfranogwyr, ond nid pob un. Mae'r cyfranogwyr hyn wedi'u cyfrif o fewn y categori 'data heb ei ddarparu'.

Cyflwynir canfyddiadau data digwyddiadau a data demograffig yn Adran 2. Cyflwynir canlyniadau'r holiadur cyn y digwyddiad gyda'r dadansoddiad thematig ansoddol yn

Adrannau 3.1 a 3.2.[2]

**Cafodd y data ansoddol** ei ddadansoddi'n thematig, gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddiad diddwythol (o'r brig i lawr) ac anwythol (o'r gwaelod i fyny). Cafodd yr adroddiadau eu codio mewn meddalwedd Dedoose, a oedd yn galluogi codio ac adolygu systematig. Ar ôl codio, dadansoddwyd yr elfennau yn thematig i ganfod naratifau, eu natur, eu hehangder a'u rhyng-gysylltiad.

Er mwyn sicrhau cysondeb, cynhaliodd y tîm ymarfer codio peilot a mireinio'r fframwaith dadansoddol trwy weithdy mewnol. Arweiniodd hyn at strwythur codio terfynol a roddwyd ar waith ar draws 62 adroddiad. Roedd 13 adroddiad yn cynnwys elfennau creadigol, fel delweddau a cherddi, a ddadansoddwyd ar wahân gan ddefnyddio elfennau o ddadansoddi disgwrs.

Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiadau yn cynnwys cymysgedd o safbwyntiau: dehongliadau'r trefnwyr, wedi'u cymysgu â barn y mynychwyr. Mae'r olaf yn cael ei gyfryngu'n drwm gan drefnwyr (sef crynodebau trefnwyr o safbwyntiau cyfranogwyr) gyda dim ond ychydig o ddyfyniadau uniongyrchol yn cynrychioli safbwyntiau'r cyfranogwyr. Felly, cyflawnwyd dadansoddiad Eunomia yn ofalus er mwyn osgoi gorfodi dehongliad pellach.

Wrth gyflwyno dyfyn

iadau, lle bo hynny'n bosibl, nodir gwahaniaethau rhwng safbwyntiau'r trefnydd a dyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr unigol trwy gynnwys *Sefydliad* neu *Unigolyn* mewn cyfeiriadau cromfachau wrth ymyl enw'r digwyddiad. Defnyddir *Sefydliad* wrth ddyfynnu darn fel y'i ysgrifennwyd gan y trefnydd, tra bod *Unigolyn* yn nodi dyfyniad clir ac annibynnol gan gyfranogwr. Mae'r rhestr o'r holl adroddiadau wedi'i chynnwys yn Atodiad A, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y digwyddiadau. Yn y drafodaeth ganlynol wrth gyfeirio at adroddiad,

[2] Mewn rhai achosion, mae'r data demograffig wedi cael ei gasglu ar gyfer grwp gwahanol o bobl i'r holiadur cyn y digwyddiad, oherwydd y dull a ddefnyddiodd trefnwyr y digwyddiad ar gyfer casglu'r data (ee anfon arolwg ar-lein cyn y digwyddiad).


cyfeirir at rif digwyddiad unigryw yn y cromfachau, Atodiad A: Rhestr o adroddiadau digwyddiadau er gwybodaeth.

Yn olaf, mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r dadansoddiad yn cyfeirio at amlder rhifiadol themâu. Oherwydd anghysondebau yn y broses casglu data, a'r rhyddid mynegiant mewn arddulliau adrodd, nid yw'r adroddiad yn ystyried cyfrif o ddarnau wedi eu codio fel mesur dibynadwy o arwyddocâd. Er ein bod yn cydnabod y themâu a drafodir yn fwy aml, byddai aseinio amlder rhifiadol yn dieithrio'r naratifau cyfoethog o fewn adroddiadau a rhyngddynt a'i gilydd. Fodd bynnag, gan fod codio yn gam pwysig o fewn methodoleg Eunomia, nodir nifer y darnau sydd wedi'u codio yn yn unol â'n fframwaith codio mewn methodoleg fanwl yn Atodiad C, y gellir ei ddefnyddio fel dull cyfeirio gan y darllenydd. Yn hytrach na rhifo amlder darnau wedi eu codio yn y prif adroddiad, rydym yn canolbwyntio ar natur, ehangder, dyfnder a rhyng-gysylltiad themâu, mewn ymgais i gynnig dealltwriaeth fwy ystyrlon o naratifau a fynegir ar draws y set ddata.

# 2. Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd 2024

Daeth cyfanswm o 3,787 i'r 62 o ddigwyddiadau ledled Cymru. Canfwyd lleoliad y digwyddiad o bob adroddiad ac fe'i cyflwynir ar y map uchaf yn Ffigur 1. Roedd dau ddigwyddiad ar-lein pwrpasol, a chwe digwyddiad lle na chrybwyllwyd yr union leoliad yn yr adroddiad. Mewn pedwar achos arall, ni chafodd lleoliad y digwyddiad ei roi, fodd bynnag nodwyd ei fod yn lleol i drefnwyr y digwyddiad ac felly defnyddiwyd cyfeiriad y sefydliad a oedd yn trefnu'r digwyddiad fel procsi. Cynhaliwyd nifer uwch o ddigwyddiadau yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin nag yn y Gogledd a'r Canolbarth.

**Ffigur 1: Map o Gymru'n dangos lleoliad digwyddiadau a nifer y cyfranogwyr**





Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r map cyntaf (uchaf) yn dangos lleoliad cod post lle cynhaliwyd pob digwyddiad. Mae'r dwysedd mwyaf o ddigwyddiadau yn rhanbarthau'r De-orllewin a'r De-ddwyrain. Mae rhanbarthau'r Gogledd-ddwyrain, Gogledd-orllewin a'r Canolbarth â llai o ddwysedd. Mae'r ail fap (gwaelod) yn dangos nifer y cyfranogwyr yn y digwyddiadau ym mhob prif ardal, gyda chylchoedd mwy yn dangos niferoedd mwy o gyfranogwyr yn yr ardal. Mae'r prif ardaloedd a gynhaliodd ddigwyddiadau gyda'r niferoedd mwyaf o gyfranogwyr yn bennaf yn ne Cymru. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Mae Ffigur 1 (map, uchaf) yn dangos presenoldeb yn ôl ardal gan ddefnyddio meintiau cylch: mae'r lleiaf yn nodi llai na 70 o gyfranogwyr, tra bod y mwyaf yn cynrychioli mwy na 350. Mae nifer y mynychwyr ym mhob prif ardal yn adlewyrchu nifer y digwyddiadau a gynheliwyd yno a nifer y cyfranogwyr yn y digwyddiadau hynny. O'r 3,787 o gyfranogwyr, fe wnaeth 10.2% ohonynt fynychu digwyddiadau yn Sir Gaerfyrddin, ac yna Caerffili (10.1%), Sir Benfro (10.0%), Caerdydd (9.1%), Wrecsam (9.1%), a Chasnewydd (8.7%). Ni chofnodwyd dim digwyddiadau yng Nghonwy, Sir Fynwy a Thorfaen.

## 2.1 Trefnwyr digwyddiadau

Nodwyd y mathau o sefydliadau a gynhaliodd ddigwyddiadau ar gyfer pob un o'r 62 o adroddiadau digwyddiadau. Cynhaliwyd 35 o ddigwyddiadau (56.5%) gan sefydliadau dielw a chymunedol fel elusennau a Chwmnïau Buddiant Cymunedol (CIC). Cynhaliwyd deg digwyddiad (16.1%) gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant, fel ysgolion cynradd ac uwchradd, a phrifysgolion. Cynhaliwyd naw digwyddiad (14.5%) gan sefydliadau gwasanaethau ymgynghori a phroffesiynol, a chynhaliwyd pum digwyddiad (8.1%) gan gyrff y llywodraeth a'r sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Arweiniwyd dau ddigwyddiad gan sefydliadau busnes a diwydiant, ac un gan grŵp eiriolaeth amgylcheddol a chymdeithasol.

**Ffigur 2: Mathau o sefydliadau a gynhaliodd ddigwyddiadau**




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r tabl a'r siart gron yn dangos y mathau o sefydliadau a gynhaliodd ddigwyddiad, a'r nifer a'r ganran gyfatebol o bob math. Sefydliadau dielw a


chymunedol sy'n cymryd y gyfran fwyaf o ddigon o'r siart gron. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.

## 2.2 Data demograffig

### 2.2.1 Oedran (o dan neu dros 18)

Roedd gwybodaeth fanwl am oedran y cyfranogwyr ar goll o sawl adroddiad. Mewn llawer o achosion eraill, darparwyd data mewn categorïau oedran (sef faint o bobl oedd rhwng 16 a 25 oed etc), ond roedd ffiniau categorïau yn amrywio'n sylweddol rhwng adroddiadau. Felly, dim ond y rhaniad o bobl dros ac o dan 18 oed sy'n cael ei adrodd.

**Ffigur 3: Dosbarthiad cyfranogwyr dros ac o dan 18 oed**





| | O dan 18 | Dros 18 | Gwell gen i beidio â dweud | Ni roddwyd data |
|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr | 1,183 | 1,279 | 11 | 284 |
| Canran | 42.9% | 46.4% | 0.4% | 10.3% |

Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'r ffigur hwn yn dangos siart gron a thabl sy'n rhoi gwybodaeth am oedran cyfranogwyr (o dan neu dros 18 oed). Cafodd 16 o adroddiadau eu heithrio o'r dadansoddiad, gan adael 2,757 o gyfranogwyr a ddadansoddwyd am oedran. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Roedd 46 o adroddiadau a ddarparodd ddata defnyddiol ar oedran (dros neu dan 18 oed). Yn y 46 digwyddiad hyn, roedd 2,757 o gyfranogwyr, gyda 42.9% ohonynt o dan 18 oed, 46.4% dros 18 oed, ac roedd yn well gan 0.4% beidio â datgelu eu hoedran. Ni ddarparwyd data oedran ar gyfer 10.3% o'r cyfranogwyr hyn. Mae'n bosibl bod y categori dan 18 oed yn cael ei orgynrychioli yma, gan y gellid casglu oedran y cyfranogwyr iau o wybodaeth arall hyd yn oed os oedd data oedran penodol ar goll, sef fod myfyrwyr ysgol gynradd ac uwchradd o dan 18 oed.

## 2.2.2 Rhywedd

**Ffigur 4: Dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl rhywedd**




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r ffigur hwn yn dangos siart gron a thabl sy'n rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad y digwyddiadau yn ôl rhywedd. Mae'r graff yn dangos nifer yr adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad am rywedd cyfranogwyr. Cafodd 29 o adroddiadau eu heithrio o'r dadansoddiad, gan adael 1,871 o gyfranogwyr i’w cynnwys yn y dadansoddiad. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Roedd 33 o adroddiadau a roddodd ddata defnyddiol ar rywedd, sy'n cyfrif am 1,871 o gyfranogwyr. O'r grŵp hwn, roedd cyfran uwch o fenywod (48.5%) o gymharu â dynion (31.7%). Roedd pobl anneuaidd a rhywedd cwiar yn cyfrif am 0.5% o'r grŵp hwn, 0.2% yn hunan-adnabod fel trawsryweddol, ac roedd yn well gan 0.9% beidio â datgelu eu rhywedd. Ni ddarparwyd data ar rywedd 18.2% o gyfranogwyr y grŵp hwn.

## 2.2.3 Ethnigrwydd

Roedd data ethnigrwydd ar goll mewn nifer sylweddol o adroddiadau digwyddiadau; o'r 62 adroddiad, dim ond 36 a grybwyllodd ethnigrwydd. O'r 36 hyn, roedd 10 adroddiad (27.8%) heb ddim amrywiaeth ethnig, gyda chyfranogwyr yn datgan eu bod yn "Brydeinwyr Gwyn" neu’n "Gymry Gwyn". Soniodd 26 adroddiad (72.2%) am o leiaf *rywfaint* o amrywiaeth ethnig, er na chafodd lefel yr amrywiaeth ei gofnodi oherwydd diffyg data manwl ar draws pob adroddiad.


O’r 36 o adroddiadau a wnaeth grybwyll ethnigrwydd, rhoddodd 23 ohonynt ddata manwl, gan gyfrif am 1,213 o gyfranogwyr a ddangosodd eu hethnigrwydd.[3] Roedd graddau’r manylder a'r math o ddata ethnigrwydd yn amrywio'n sylweddol rhwng adroddiadau ac fe'u dosbarthwyd mewn grwpiau er mwyn symleiddio'r canfyddiadau. Oherwydd bod y data

[3] Roedd hyn yn cynnwys y 10 adroddiad a oedd â chyfranogwyr Prydeinig neu Gymreig Gwyn yn unig, a 13 (allan o’r 26) a oedd ag o leiaf rywfaint o amrywiaeth ethnig.

wedi'i ddarparu mewn gwahanol fformatau, nid oedd yn bosibl cysoni'r grwpiau categori ag adroddiadau ethnigrwydd confensiynol, ac mae'r adroddiadau yn adlewyrchu'r mathau o ethnigrwydd fel y'u crybwyllwyd yn yr adroddiadau gwreiddiol.

O'r grŵp hwn o 1,213 o gyfranogwyr, roedd y mwyafrif yn Brydeinig Gwyn (55.4%). Y gynrychiolaeth uchaf wedyn oedd De Asia (13.0%) a Du – Affricanaidd / Caribïaidd (12.1%). Roedd cynrychiolaeth y Dwyrain Canol / Gogledd Affrica (MENA) yn cyfrif am 6.8% o'r grŵp hwn, ac roedd 4.2% yn Asiaidd a Dwyrain Asia. Roedd 2.3% o Grwpiau Ethnig Cymysg / Lluosog, 1.0% yn Ewropeaidd Gwyn, 0.8% yn Ganolbarth Asia, a 0.7% o'r gymuned Teithwyr. Roedd 3.6% o'r grŵp hwn na ddarparwyd data ar eu cyfer.


**Ffigur 5: Dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl ethnigrwydd**




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r ffigur hwn yn dangos siart bar a thabl sy'n rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad y digwyddiadau yn ôl ethnigrwydd. Mae'r ffigur yn dangos nifer yr adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Cynhwyswyd 23 o adroddiadau, ac eithrwyd 39 o adroddiadau. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

### 2.2.4 Preswylfan cyfranogwyr

**Ffigur 6: Dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl preswylfan**





Disgrifiad o Ffigur 6: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n dangos lle'r oedd cyfranogwyr digwyddiadau yn byw. Cynhwyswyd 40 o adroddiadau yn y dadansoddiad a 22 wedi'u heithrio o'r dadansoddiad. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Roedd 40 o adroddiadau a ddarparodd ddata defnyddiol ar le'r oedd cyfranogwyr yn byw. Yn y 40 digwyddiad hyn, roedd 2,321 o gyfranogwyr gyda'r mwyafrif ohonynt (36.4%) yn byw yn y De-ddwyrain. Mae 21.4% o'r grŵp hwn yn byw yn y De-orllewin, 20.6% yn y Gogledd, a 15.7% yn byw yn y Canolbarth. Roedd 1.6% o bobl yn byw y tu allan i Gymru ac roedd yn well gan 1.1% beidio â datgelu preswylfan. Roedd 3.2% o'r grŵp hwn na ddarparwyd data ar eu preswylfannau.

### 2.2.5 Statws Gwaith

**Ffigur 7: Dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl statws gwaith**




Disgrifiad o Ffigur 7: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad y digwyddiadau yn ôl eu statws gwaith. Mae'r graff yn dangos nifer yr adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o statws gwaith y cyfranogwyr. Cafodd 27 o adroddiadau eu heithrio o'r dadansoddiad, gan adael 2,194 o gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Roedd 35 o adroddiadau a roddodd ddata defnyddiol ar statws gwaith, sy'n cyfrif am 2,194 o gyfranogwyr. O'r grŵp hwn, roedd y mwyafrif yn fyfyrwyr ysgol gynradd ac ysgol uwchradd (42.0%). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y categori hwn yn cael ei orgynrychioli yma, gan fod cyfranogwyr iau (dan 18) yn cael eu cyfrif fel myfyrwyr ysgol gynradd/uwchradd hyd yn oed os nad oedd eu statws gwaith wedi'i grybwyll yn benodol yn yr adroddiad. Roedd 17.4% o bobl mewn cyflogaeth, sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio amser llawn, rhan-amser a hunangyflogedig. Roedd 16.5% o'r grŵp hwn yn fyfyrwyr coleg neu brifysgol, 4.7% wedi ymddeol, a 3.5% yn ddi-waith. Mae 1.1% wedi'u dosbarth fel 'arall'.[4] Roedd 14.9% o'r grŵp hwn heb ddata wedi'i ddarparu ar eu cyfer.

## 2.3 Gweithgareddau digwyddiadau

Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau yn ymwneud ag un digwyddiad gan un trefnydd, gyda llawer ohonynt yn digwydd ar safle'r sefydliad. Mae hyn yn arbennig o wir gyda sefydliadau

[4] Mae categorïau statws gwaith ymatebion a gynhwyswyd yn y grŵp 'arall' yn cynnwys 6 a gafodd eu disgrifio gan drefnwyr fel gwragedd tŷ, 6 yn cael eu disgrifio fel rhai â chyfrifoldebau gofalu, a 12 fel pobl ag anableddau. Nid yw'r categori hwn yn cynrychioli ond nifer bach iawn o adroddiadau. O ganlyniad, mae'n dal yn aneglur a oedd rhai o'r rhai a adroddwyd fel pobl ddi-waith allan o waith oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu anableddau, gan fod categorïau'r ymatebion yn amrywio rhwng adroddiadau a'i gilydd.

addysg, fel colegau a phrifysgolion. Gall "digwyddiad" (yn adroddiadau trefnwyr ac yn yr adroddiad hwn) fod yn gyfarfodydd lluosog ar wahanol leoliadau neu ddyddiadau; adroddodd mwy na deg trefnydd ar sawl cyfarfod. Mae'n bosibl fod y cyfarfodydd hyn wedi digwydd ar draws gwahanol leoliadau neu ddyddiadau. Ymhlith y rhain: Cynulliad Ynni'r Gelli, Fferm Gofal Clynfyw, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful, a KidCare4U. Rhoddodd o leiaf un trefnydd (Ton Fawr; 5) yr opsiwn i gyfranogwyr ymuno ar-lein, ac roedd un arall yn cynnwys sgwrs tîm fel rhan o'r digwyddiad (SwanseaCAN, 47).

Roedd i’r rhan fwyaf o'r digwyddiadau strwythur tebyg o sgyrsiau wedi’u hwyluso o amgylch y pynciau a'r cwestiynau a awgrymwyd, gan gynnwys cyflwyniad i rai cysyniadau allweddol. Gallai hyn gynnwys trafodaethau a gweithgareddau grŵp llai, fel yr adroddwyd gan Ysgol yr Holl Saint, Coleg Sir Gâr, Outside Lives ac M-Sparc, ymhlith eraill. Adroddodd llawer o drefnwyr eu bod wedi agor eu digwyddiadau gyda sgyrsiau gan arbenigwyr ar bynciau hinsawdd. Mae'n bosibl bod hyn wedi bod gan rywun mewnol i'r sefydliad oedd yn eu cynnal neu gan siaradwr allanol, e.e. o Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB a Phrifysgol De Montfort. Roedd y sgyrsiau arbenigol weithiau'n cynnwys dangos fideos neu ddefnyddio sleidiau cyflwyniad.

Roedd rhai o weithgareddau'r digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau ymarferol fel plannu coed/llysiau, arbed hadau, a chompostio, er mwyn annog cyfranogwyr i ymwneud â systemau bwyd cynaliadwy, e.e. Sazani Associates a Hwb Cymunedol Twynyrodyn. Roedd rhai digwyddiadau yn cynnwys hyrwyddo mentrau plannu coed fel Trees4Goals (e.e. SwanseaCAN). Yn yr un modd, roedd rhai digwyddiadau yn cynnwys arddangosiadau o weithgareddau neu dechnolegau eraill sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd fel toeau gwyrdd a chynaeafu dŵr glaw (e.e. Down to Earth). Roedd rhai, fel Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Down to Earth, yn cynnwys gwibdeithiau allanol i arsylwi effaith hinsawdd, yn y dyfodol neu'r gorffennol, ar natur neu'r amgylchedd adeiledig.

Er mwyn caniatáu i gyfranogwyr fynegi eu syniadau mewn ffyrdd amrywiol, roedd amryw o ddigwyddiadau yn cynnwys gweithgareddau creadigol fel gwneud collages, darlunio, modelu gyda deunyddiau wedi'u hailgylchu, a defnyddio blociau adeiladu neu blastisin. Roedd rhai digwyddiadau yn cynnwys gweithdy gweithgarwch creadigol lle’r oedd cyfranogwyr yn gwneud baneri a phosteri fel dull o gasglu negeseuon i'r llywodraeth. Roedd 13 o adroddiadau yn cynnwys lluniau o'r gweithgareddau creadigol hyn, sydd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn yn yr adrannau perthnasol. Roedd gan Gelfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer artist yn dogfennu'r sgwrs trwy recordio graffig.

*"Credwn fod celf yn rhoi'r lle meddyliol i bobl feddwl a'r diogelwch i fynegi eu barn mewn amgylchedd croesawgar. […] Cawsom artist gwadd a ddaeth â chyfle i wneud inc naturiol i weithdy’r Ganolfan Celfyddydau a bu’n helpu yn y gweithdy oriel" (Sefydliad: Ton Fawr; 5)*

*"Roedd defnyddio'r dulliau gwneud modelau yn galluogi'r grwpiau i ystyried syniadau ac atebion, a bron â dod yn 'ddyfeiswyr." (Sefydliad: Partneriaeth PMP; 31)*


# 3. Canfyddiadau

## 3.1 Lefelau gwybodaeth a phryder

### 3.1.1 Gwybodaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd

Mae’n ymddangos bod cyfranogwyr yn awgrymu bod ganddynt raddau rhesymol o wybodaeth am effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn yr holiadur cyn digwyddiadau, gofynnwyd i gyfranogwyr ‘Faint wyddoch chi am effaith newid yn yr hinsawdd?’. Roedd 52 o adroddiadau gyda data y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y cwestiwn hwn, gan gyfrif am 2,144 o gyfranogwyr digwyddiadau.

**Ffigur 8: Ymatebion i’r arolwg o wybodaeth cyfranogwyr o effeithiau newid hinsawdd**




Disgrifiad o Ffigur 8: Siart bar a thabl yw’r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'faint wyddoch chi am effaith newid yn yr hinsawdd?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 52 o adroddiadau , a oedd yn cynnwys ymatebion gan 2,144 o gyfranogwyr digwyddiadau. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Dywedodd 42.1% o bobl eu bod yn gwybod "cryn dipyn” am effeithiau newid yn yr hinsawdd, a dywedodd 18.2% eu bod yn gwybod "llawer". Dywedodd 29.2% o'r grŵp nad oedden nhw ond yn gwybod "ychydig" am yr effaith, a dim ond 3.5% a ddywedodd nad oedden nhw’n gwybod "dim". Ymatebodd 4.1% arall "ansicr neu ddim yn gwybod", a dywedodd 2.8% fod yn well ganddynt beidio â dweud, neu roedd yr ymateb yn anhysbys.

Mewn digwyddiadau, ymddengys bod cyfranogwyr yn arddangos amrywiaeth mewn lefelau ymwybyddiaeth, neu roeddent eu hunain yn awgrymu y gallai gwahanol grwpiau o bobl y tu allan i'r gweithdai fod â lefelau gwahanol o ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd. Gan

ddibynnu ar y gweithdy dan sylw, gallai hyn amrywio yn ôl categorïau fel grŵp oedran, ethnigrwydd neu gwrs astudio coleg a thueddiad tuag at ymgyrchu.

*Cafodd diffyg ymwybyddiaeth o faterion... ei godi gan sawl person o'r genhedlaeth hŷn (65 a throsodd), a oedd naill ai wedi'u heithrio'n ddigidol neu nad oeddent yn siŵr ble i ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth gywir. (Sefydliad: Caffi Trwsio Llanelli; 58)*

*"Mae llawer o bobl o grwpiau ethnig neu grwpiau agored i niwed wedi dod o lefydd nad ydynt yn wynebu'r un problemau sy'n cael eu hwynebu yma. Efallai eu bod wedi ffoi, o ryfel neu am wahanol resymau, gwahanol wledydd a doedd newid yn yr hinsawdd ddim yn flaenoriaeth na hyd yn oed yn ystyriaeth iddyn nhw." (Unigolyn: Sustainability Sphere - Lleiafrifoedd Ethnig; 44)*

Yn ôl rhai trefnwyr gweithdai, er bod dealltwriaeth gyffredinol o hanfodion newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau, roedd llawer o gyfranogwyr fel pe baent yn cael trafferth gyda'r cysyniad o addasu. Roedd addasu yn aml yn cael ei gymysgu â lliniaru, er enghraifft. Esboniodd un trefnydd cymunedol nad oedd, er gwaethaf esbonio dro ar ôl tro, yn gallu gwneud cynnydd wrth gael cyfranogwyr i ddeall y gwahaniaeth.

*"Er gwaethaf nifer o esboniadau gan sawl hwyluswyr a gweithgareddau drwy gydol y dydd... Waeth beth wnaethon ni geisio, nid oeddem yn gallu helpu pobl i ddeall y gwahaniaeth." (Sefydliad: F.A.N. Community Alliance; 17)*

Roedd diffyg cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o’r hinsawdd hefyd yn cael ei weld fel rhwystr rhag newid. Yn ôl rhai cyfranogwyr, roedd llawer o bobl y tu allan i'r digwyddiadau nad oedd yn cysylltu digwyddiadau lleol fel llifogydd neu dywydd poeth â newid yn yr hinsawdd, gan leihau'r teimlad o frys i weithredu. Galwai cyfranogwyr am well addysg, ennyn diddordeb cyfryngau lleol, ac, mewn rhai achosion, newid diwylliannol ehangach oddi wrth brynwriaeth:

*"Mae'n rhaid i ni newid ein holl "ddiwylliant defnyddwyr" tuag at gymdeithas sy'n cael ei gyrru’n fwy gan anghenion. Mae agwedd cyfalafol yn ymwneud yn gyfan gwbl â gwneud elw ond nid yw'n cydnabod mai dim ond un blaned sydd gennym." (Unigolyn: XR Wrecsam; 55)*

Fodd bynnag, awgrymai rhai trefnwyr fod ymwybyddiaeth am newid yn yr hinsawdd wedi tyfu yn ystod y digwyddiad ei hun, er enghraifft, gan adrodd y gallai cysyniadau fod wedi bod yn newydd i lawer yno, ond bod y sgyrsiau yn eu galluogi i’w deall.


*"Dangosodd adborth fod y gynulleidfa wedi gadael ymwybyddiaeth gryfach o'r materion hanfodol hyn ac wedi cael eu hysbrydoli i fabwysiadu newidiadau ymarferol yn eu bywydau a'u cymunedau."  (Sefydliad: M-Sparc; 61)*

### 3.1.2 Pryder ynghylch newid yn yr hinsawdd

Roedd data’r arolwg yn awgrymu bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn bryderus ynghylch newid yn yr hinsawdd. Yn yr holiadur cyn digwyddiadau, gofynnwyd i gyfranogwyr ‘Pa mor

bryderus ydych chi’n bersonol ynghylch newid yn yr hinsawdd?’. Roedd 51 o adroddiadau gyda data y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y cwestiwn hwn, gan gyfrif am 2,143 o gyfranogwyr digwyddiadau.

**Ffigur 9: Ymatebion i’r arolwg o raddau pryder cyfranogwyr ynghylch newid yn yr hinsawdd**




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart bar a thabl yw’r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid yn yr hinsawdd?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 51 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 2,143 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

Dywedodd 37.7% o'r grŵp hwn eu bod yn "bryderus iawn" am newid yn yr hinsawdd, dywedodd 34.9% eu bod yn "eithaf pryderus", tra bod dim ond 13.4% yn dweud eu bod "ddim yn bryderus iawn" a 5.5% "ddim yn bryderus o gwbl". Ymatebodd 4.8% arall "ansicr neu ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn, a dywedodd 3.8% eu bod yn well ganddynt beidio â dweud, neu roedd yr ymateb yn anhysbys.

Roedd datganiadau a wnaed gan gyfranogwyr yn cefnogi data'r arolwg. Roedd rhai cyfranogwyr yn cyflwyno newid yn yr hinsawdd fel rhywbeth trychinebus yn fyd-eang, fel y dangosir gan y dyfyniadau canlynol.

*"Mae yna lawer o sôn am Armagedon." (Unigolyn: Omidaze; 29)*

*"Rwy'n poeni am chwalfa systemau byd-eang" (Unigolyn: Ton Fawr; 5)*

*"Rydyn ni eisoes wedi cael prinder bwyd, toriadau ynni a phobl wedi'u torri i ffwrdd trwy lifogydd, pam na ddylem ni baratoi ar gyfer hyn?" (Unigolyn: Cwmni Buddiant Cymunedol Gweithredu Powys Action ar yr Argyfwng Hinsawdd; 32)*

Roedd awgrymiadau bod y cyfryngau, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol, yn gwaethygu pryderon trwy negeseuon yn darogan gwae.

*"Roedd y pryder mwyaf mewn gwirionedd yn ymwneud â gorbryder a sut y gallai gweld a chlywed y pethau hyn ar y newyddion neu ar y cyfryngau cymdeithasol achosi pobl i boeni" (Unigolyn: Coleg Pen-y-bont ar Ogwr; 6)*

Weithiau roedd hyn yn gysylltiedig â chanfyddiad bod gan y cyfryngau prif ffrwd 'agenda' ac nad oeddent yn ddiduedd yn eu hadrodd. Fodd bynnag, tynnwyd sylw hefyd at beryglon dewisiadau amgen yn lle cyfryngau prif ffrwd (sianeli cyfryngau cymdeithasol) sydd hefyd yn gwaethygu pryderon trwy negeseuon yn darogan gwae.

Portreadwyd amrywiaeth o emosiynau yn yr adroddiadau, gan gynnwys gobaith, straen a dicter; roedd y rhain yn cael eu mynegi naill gan gyfranogwyr neu'n cael eu cyflwyno fel arsylwadau gan y trefnwyr. Mynegwyd ofn am y dyfodol mewn gweithdai hefyd.

*"Rwy'n meddwl am newid yn yr hinsawdd trwy'r amser, rwy'n poeni am lifogydd a phrinder bwyd"* (Unigolyn: Ton Fawr, #)

*'Mae pryder am yr hinsawdd yn thema barhaus, gyda llawer o bobl ifanc yn mynegi pryderon am y dyfodol a'u gallu i ddylanwadu ar newid'* (Sefydliad: Youth Cymru, #)

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth fod y sesiwn ei hun yn lleihau teimladau o bryder a phryder am newid yn yr hinsawdd, yn bennaf oherwydd mwy o ymdeimlad o rymuso ac optimistiaeth, ar ôl cymryd rhan mewn deialog ystyrlon a thrafod atebion posibl. Caiff barn y cyfranogwyr ar sut arweiniodd y gweithdai at fwy o ymdeimlad o allu a rhagolygon cadarnhaol tuag at newid yn yr hinsawdd ei archwilio ymhellach yn y

Cyfathrebu a galluogeddthrafod yn Adran 0.

Serch hynny, datgelodd y data ansoddol dystiolaeth hefyd sy'n cefnogi'r lleiafrif o gyfranogwyr nad ydynt, yn ôl yr arolwg, yn arbennig o bryderus am newid yn yr hinsawdd. Weithiau roedd y persbectif hwn yn gysylltiedig â gwrthod cyfrifoldeb personol, gyda chyfranogwyr mewn gwahanol weithdai yn mynegi teimladau fel, "Nid fy bai i yw newid yn yr hinsawdd," neu, "Nid yw hynny'n rhywbeth i mi boeni amdano."

## 3.2 Risgiau ac effeithiau hinsawdd

Mae'n bwysig nodi bod holiadur y pecyn ar gyfer trefnwyr yn cynnwys cais i gyfranogwyr raddio "pryd fyddwn ni'n cychwyn teimlo effeithiau gwres eithafol / sychder a chyfyngiadau i'r cyflenwad dŵr / stormydd garw a llifogydd / tarfu ar gyflenwad bwyd". Roedd hyn yn golygu bod y cwestiynau yn debygol o arwain y sgwrs i ganolbwyntio ar yr effeithiau hyn, yn hytrach nag effeithiau eraill megis erydiad arfordirol, neu golli bioamrywiaeth a difodiant rhywogaethau. Yn ogystal, roedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar darfu ar bobl yn hytrach

na'r amgylchedd a byd natur yn ehangach, gan ddylanwadu ymhellach ar natur yr ymatebion.


Mae dadansoddiad ansoddol o'r adroddiadau sgyrsiau yn dangos mai am effeithiau penodol ar yr hinsawdd yng Nghymru y mae unigolion yn poeni fwyaf. Daeth llifogydd i'r amlwg fel yr effaith a drafodwyd yn y sgyrsiau, sef yr effaith unigol a gafodd ei godio amlaf. Roedd effeithiau cysylltiedig cynnydd mewn stormydd a gwyntoedd uchel hefyd yn bryder.[5] Crybwyllwyd sychder a risg o danau gwyllt yn llai aml fel pryder mawr gan gyfranogwyr ond roeddent yn dal i fod yn destun trafod gan rai ac yn cael eu hystyried fel materion y byddai iddynt fwy o arwyddocâd yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd effaith newid yn yr hinsawdd ar ddiogelwch bwyd hefyd yn un o'r themâu a drafodwyd fwyaf, yn ogystal â difrod i seilwaith cyhoeddus trwy gynnydd yn amlder a dwysedd llifogydd a stormydd.

### 3.2.1 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tywydd poeth eithafol?

Roedd 48 o adroddiadau gyda data defnyddiol, sy'n cyfrif am 1,925 o gyfranogwyr. Dywedodd 42.0% o'r grŵp hwn ein bod "eisoes yn teimlo effeithiau" gwres eithafol, dywedodd 31.5% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo "yn y 10 mlynedd nesaf", ac ymatebodd 10.8% "yn y 25 mlynedd nesaf". Dim ond 5.3% a ymatebodd y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo yn y "50 mlynedd nesaf" a 3.0% yn y "100 mlynedd nesaf". Atebodd 3.4% na fyddai'r effeithiau "byth" yn cael eu teimlo. Roedd 3.9% o'r grŵp hwn na ddarparwyd data ar eu cyfer.

[5] Gall fod yn werth nodi bod amseru'r gweithdy yn cyd-ddigwydd â Storm Darragh, a gafodd effeithiau helaeth gan gynnwys llifogydd a cholli pŵer yn sgil gwyntoedd uchel, a allai fod wedi dylanwadu ar y pynciau a drafodwyd.

**Ffigur 10: Ymatebion i'r arolwg ynghylch pa bryd y teimlir effeithiau gwres eithafol**




Disgrifiad o Ffigur 10: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'pryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tywydd poeth eithafol?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 48 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 1,925 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

### 3.2.2 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau sychder?


Roedd 48 o adroddiadau gyda data y gellid ei ddefnyddio, sy'n cyfrif am 1,925 o gyfranogwyr. Dywedodd 32.1% o'r grŵp hwn ein bod "eisoes yn teimlo effeithiau" sychder a chyfyngiadau i'r cyflenwad dŵr, dywedodd 34.1% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo "yn y 10 mlynedd nesaf", ac ymatebodd 13.4% "yn y 25 mlynedd nesaf". Ymatebodd 7.2% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo yn y "50 mlynedd nesaf" a 3.0% yn y "100 mlynedd nesaf". Atebodd 4.7% na fyddai'r effeithiau "byth" yn cael eu teimlo, ac ni ddarparwyd data ar gyfer 5.7% o'r grŵp hwn.

**Ffigur 11: Ymatebion i’r arolwg ynghylch pa bryd y bydd effeithiau sychder yn cael eu teimlo**

**Pa bryd yn eich barn chi y bydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau sychder / cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr?**

| | |
|---|---|
| 48 | Adroddiadau |
| 1,925 | Cyfranogwyr |

| | Rydym eisoes yn teimlo’r effeithiau | 10 mlynedd nesaf | 25 mlynedd nesaf | 50 mlynedd nesaf | 100 mlynedd nesaf | Byth | Ni roddwyd data |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr | 617 | 657 | 257 | 138 | 57 | 90 | 109 |
| Canran | 32.1% | 34.1% | 13.4% | 7.2% | 3.0% | 4.7% | 5.7% |





Disgrifiad o Ffigur 11: Siart bar a thabl yw’r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau sychder a chyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 48 o adroddiadau , a oedd yn cynnwys ymatebion gan 1,925 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

### 3.2.3 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau stormydd garw a llifogydd?

Roedd 48 o adroddiadau gyda data y gellid ei ddefnyddio, sy'n cyfrif am 1,925 o gyfranogwyr. Dywedodd 68.4% o'r grŵp hwn ein bod "eisoes yn teimlo effeithiau" stormydd garw a llifogydd, dywedodd 15.7% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo "yn y 10 mlynedd nesaf", ac ymatebodd 5.1% "yn y 25 mlynedd nesaf". Ymatebodd 3.0% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo yn y "50 mlynedd nesaf" ac 1.0% yn y "100 mlynedd nesaf". Dim ond 1.7% a atebodd na fyddai'r effeithiau "byth" yn cael eu teimlo.

**Ffigur 12: Ymatebion i’r arolwg ynghylch pa bryd y bydd effeithiau stormydd garw a llifogydd yn cael eu teimlo**





Disgrifiad o Ffigur 12: Siart bar a thabl yw’r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr arolwg cyn y digwyddiad 'pryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau stormydd garw a llifogydd?'.  Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 48 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 1,925 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

### 3.2.4 Pa bryd fydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tarfu ar y cyflenwad bwyd?

Roedd 49 o adroddiadau gyda data y gellid ei ddefnyddio, sy'n cyfrif am 1,946 o gyfranogwyr. Dywedodd 32.9% o'r grŵp hwn ein bod "eisoes yn teimlo effeithiau" tarfu ar y cyflenwad bwyd, dywedodd 34.0% y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo "yn y 10 mlynedd nesaf", ac ymatebodd 14.1% "yn y 25 mlynedd nesaf". Dim ond 6.5% a ymatebodd y byddai'r effeithiau'n cael eu teimlo yn y "50 mlynedd nesaf", 3.5% yn y "100 mlynedd nesaf" ac atebodd 4.1% na fyddai'r effeithiau "byth" yn cael eu teimlo.

**Ffigur 13: Ymatebion i'r arolwg ynghylch pa bryd y bydd effeithiau tarfu ar y cyflenwad bwyd yn cael eu teimlo**




Disgrifiad o Ffigur 13: Siart bar a thabl yw'r ffigur hwn sy'n dangos cyfansoddiad yr ymatebion i'r cwestiwn arolwg cyn y digwyddiad 'pa bryd y bydd pobl yn cychwyn teimlo effeithiau tarfu ar gyflenwad bwyd?'. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata o 49 o adroddiadau, a oedd yn cynnwys ymatebion gan 1,946 o gyfranogwyr. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

### 3.2.5 Llifogydd

Disgrifiwyd llifogydd fel mater cymhleth iawn gydag amrediad eang o ganlyniadau, gan gynnwys difrod i seilwaith, cartrefi, iechyd a llesiant dynol, a bioamrywiaeth. Roedd llifogydd yn aml yn gysylltiedig â phryderon am yswiriant a goblygiadau ariannol, er bod effeithiau ar iechyd a llesiant hefyd yn cael eu pwysleisio (fel yr archwilir ymhellach yn Adran 3.2.7). Cafwyd trafodaethau ynghylch effeithiau sydd ac a fyddai ar gartrefi, yn llwydni a mathau eraill o ddifrod, yn ogystal â'r effaith ar seilwaith hanfodol fel llinellau pŵer.

*"Ymhlith y mynychwyr roedd unigolion y mae eu cartrefi wedi dioddef difrod llifogydd sylweddol o'r blaen, gan ychwanegu dimensiwn hynod bersonol ac argyfyngus i'r trafodaethau." (Sefydliad: Outside Lives Ltd; 30)*

*"[Wrth gyfeirio at lifogydd a chynnydd mewn glawiad] Mae ein tŷ yn llawn llwydni afiach ... roedd y plant yn sâl yn gyson gyda heintiau ar y frest" (Unigolyn: Sustainability Sphere - Lleiafrifoedd Ethnig; 44)*

**Ffigur 14: Detholiad o elfen greadigol yn pwysleisio effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd a chanlyniadau cysylltiedig[6]**

*Business as usual is not an option.*

flooding, power cuts, extreme weather, unsafe water
panic buying, isolation, climate anxiety

generally: unprepared

Disgrifiad o Ffigur 14: Mae'r datganiad "nid yw busnes fel arfer yn opsiwn" yn amlwg yn y detholiad uchod. O dan hyn, mae rhestr o wahanol ganlyniadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a diffyg parodrwydd, gan gynnwys: llifogydd, toriadau pŵer, tywydd eithafol, dŵr anniogel, prynu mewn panig, ynysu a phryder am yr hinsawdd. Mae'r negeseuon yn gorffen wrth dynnu sylw at y diffyg parodrwydd ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn wyneb heriau amgylcheddol. (Unigolion a Sefydliad: Prosiect Gerddi Byd-eang; 19)

### 3.2.6 Sychder a thanau gwyllt

Roedd cyfranogwyr llawer o wahanol sgyrsiau yn disgrifio sychder fel pryder cynyddol sydd eisoes yn effeithio ar eu bywydau. Roedd adroddiadau'n cyfeirio at drafodaethau am brinder dŵr, llai o gynnyrch cnydau, ac afonydd sych, gydag effeithiau ar amaethyddiaeth a bywyd bob dydd. Roedd sychder yn gysylltiedig â chyfnodau sych hirach a phatrymau tywydd annibynadwy. Nododd rhai nad yw nodweddion tymhorol traddodiadol yn berthnasol mwyach, a ffermwyr yn arbennig yn teimlo'r pwysau.

Awgrymai rhai cyfranogwyr y gallai digwyddiadau eithafol fel tanau gwyllt gael effeithiau economaidd ac achosi tarfu sylweddol (er enghraifft, roedd cyfranogwyr yng ngweithdy Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn trafod hyn yng nghyd-destun risg i werthu tocynnau). Roedd tanau gwyllt yn gysylltiedig â hafau poethach, sychach a'r farn oedd eu bod yn debygol o waethygu.

Roedd mwy o gyfranogwyr yn meddwl bod llifogydd a stormydd difrifol yn effeithio arnynt ar hyn o bryd nag sy'n meddwl yr un peth am dywydd poeth a sychder.[7] Yn yr arolwg, roedd 42% o'r cyfranogwyr yn canfod tywydd poeth a 32% yn canfod sychder fel effeithiau newid yn yr hinsawdd maent eisoes yn eu profi - y ddau yn is na'r gyfran a ddisgrifodd lifogydd fel effaith yr oeddent eisoes yn ei brofi.

Roedd rhai cyfranogwyr yn trafod yn y gweithdai sut roedd risgiau cysylltiedig sychder, fel tanau gwyllt, yn llai o risg ar hyn o bryd, gan gadarnhau data'r arolwg.

*"Mae tanau bob amser yn digwydd yn Awstralia ac America, nes ei fod yn digwydd yma does dim siawns y bydd pobl yn deall" (Unigolyn: Omidaze Productions Ltd; 29)*

[6] Dyw busnes fel arfer ddim yn opsiwn. / Llifogydd, toriadau pwer, tywydd eithafol, dwr anniogel, prynu mewn panig, ynysu, pryder am yr hinsawdd / Yn gyffredinol: amharod

[7] Mae'n werth nodi i'r digwyddiadau gael eu cynnal yn y gaeaf, a allai fod wedi dylanwadu ar drafodaeth cyfranogwyr y diwyddiadau.

**Ffigur 15: Y ddeuoliaeth rhwng effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Ddaear fel y dangosir mewn elfen greadigol**



Disgrifiad o Ffigur 15: Mae'r elfen greadigol yn darlunio cyferbyniad gweledol rhwng dau senario amgylcheddol, gan gyfleu canlyniadau diffyg gweithredu. Dangosir hanner ochr chwith y Ddaear mewn goleuni cadarnhaol, gydag addurniadau yn symbol o blaned iach a ffyniannus gyda choed, blodau, goleuni’r haul a pherson sy'n rhyngweithio â natur. Mae'r hanner ochr dde ar y llaw arall, wedi'i ddarlunio mewn lliwiau wedi pylu, sy'n cynrychioli diraddiad amgylcheddol, gyda delweddau o lygredd, smog, tân a thywydd eithafol. Mae'r Ddaear wedi'i phersonoli ag wyneb yn gwenu ar yr ochr iach sydd wedi addasu, ac wyneb yn gwgu ar yr ochr arall. (Unigolyn: WAN Cymru; 62)

Dywedodd cyfranogwr arall, o weithdy Partneriaeth PMP, yn yr un modd fod "*tanau a sychder yn teimlo'n haniaethol iawn*." Gall y canfyddiad bod gwres eithafol, diffyg glaw a thanau gwyllt yn llai cyffredin nag effeithiau llifogydd a thywydd gwlyb deillio o'r ffaith nad yw'r Deyrnas Unedig yn wlad boeth yn ôl safonau rhyngwladol, yn ogystal â'r ffaith nad yw'r digwyddiadau hyn ar hyn o bryd, er eu bod yn cynyddu, yn achosi'r un lefel o ddifrod gweladwy neu ariannol â llifogydd a stormydd.

*"Mae tanau bob amser yn digwydd yn Awstralia ac America, nes ei fod yn digwydd yma does dim siawns y bydd pobl yn deall" (Unigolyn: Omidaze Productions Ltd; 29)*

### 3.2.7 Effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant

Roedd llawer o ddigwyddiadau’n adrodd am drafodaethau ynghylch goblygiadau'r effeithiau ar eu hiechyd a'u lles, ac mae hyn yn dod i'r amlwg fel un o'r themâu a gafodd ei godio fwyaf. Soniodd cyfranogwyr dro ar ôl tro fod, neu y byddai, newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n negyddol ar eu lles corfforol trwy, er enghraifft, trawiad gwres oherwydd tymheredd uwch, problemau anadlol / ysgyfaint (o fwg tanau gwyllt, llwydni), a salwch (e.e. o dywydd eithafol). O ran sychder yn benodol, fodd bynnag, nid oedd llawer o sôn am argyfyngau prinder dŵr fel bygythiad mawr i iechyd, sy'n awgrymu nad yw cyfranogwyr yn

gyffredinol yn gweld sychder yn debygol o gyrraedd lefelau eithafol neu argyfyngus. Soniwyd y byddai'r rhai sydd â chyflyrau iechyd ar hyn o bryd yn dioddef yn arbennig:

*"Pobl hŷn, pobl agored i niwed, y rhai sydd â phroblemau iechyd – [mae ganddynt] risg uwch o farwolaethau damweiniol neu gynharach, wedi eu hynysu, [ac maent] yn cael eu taro'n benodol gan darfu ar wasanaethau ac ar eu hygyrchedd - sydd eisoes yn fregus - yn ein hardal" (Unigolyn: EcoDewi; 16)*

Trafododd cyfranogwyr hefyd sut y gall ansicrwydd bwyd effeithio ar iechyd a lles trwy fod llai o fwydydd maethlon ar gael, yn enwedig os yw nwyddau yn cael eu prisio'n rhy uchel oherwydd prinder domestig.

Awgrymwyd hefyd y gallai newid yn yr hinsawdd arwain at ganlyniadau iechyd meddwl a llesiant negyddol, yn bersonol ac ar lefel cymdeithas. Dywedwyd bod hyn yn digwydd oherwydd mwy o straen a phryder yn sgil effeithiau uniongyrchol newid hinsawdd, yn ogystal â phryder am ei fygythiad cynyddol.

*"[Roedd yna] bryder yn enwedig am ddifrod stormydd parhaus a chynyddol yn ein hardal a'r effaith ar fywoliaethau – stormydd lluosog yn tarfu'n sylweddol dro ar ôl tro." (Sefydliad: Eco Dewi; 16)*

*"Gellir priodoli'r pryder sy'n bodoli am newid yn yr hinsawdd i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i effeithiau diriaethol" (Sefydliad: BioHYB Prifysgol Abertawe; 49)*

### 3.2.8 Effeithiau ar ddiogelwch bwyd

Trafodwyd effeithiau newid yn yr hinsawdd, trwy amlder a dwysedd cynyddol llifogydd, digwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â sychder, fel rhai sy'n cael effeithiau dilynol ar ddiogelwch bwyd trwy ddifrodi cnydau a tharfu cyffredinol ar gadwyni cyflenwi bwyd. Roedd rhai grwpiau yn ystyried y prinder bwyd a ddaeth yn amlwg yn ystod cyfnod Covid-19, fel potensial o'r hyn a allai ddod yn y dyfodol oherwydd newid yn yr hinsawdd. Dangosodd data'r arolwg fod 33% o'r cyfranogwyr yn meddwl bod newid yn yr hinsawdd eisoes yn tarfu ar y cyflenwad bwyd, tra bod 34% yn meddwl y byddai'n digwydd dros y deng mlynedd nesaf.

*"Mae anwadalwch tywydd eithafol yn tarfu ar ffermio, yn niweidio cnydau, ac yn cynyddu'r straen ar systemau cyflenwi bwyd, gan effeithio'n anghymesur ar ardaloedd incwm is ac ardaloedd gwledig." (Sefydliad: M-Sparc; 61)*

### 3.2.9 Gwahanol effeithiau yn ôl grŵp demograffig

Yn y pecynnau i drefnwyr, awgrymwyd bod trefnwyr yn gofyn i gyfranogwyr a ydynt yn meddwl bod rhai grwpiau neu gymunedau yn cael eu taro yn fwy nag eraill gan newid yn yr hinsawdd, ac ym mha ffyrdd. Yn dilyn y cais hwn, roedd y trafodaethau yn aml yn tynnu sylw at effaith wahaniaethol ar gymunedau a grwpiau, gan nodi'n benodol bod grwpiau incwm is yn cael eu taro'n anghymesur. Ymhlith y rhesymau roedd diffyg mynediad at

atebion ac adnoddau (gan gynnwys bwyd a glanweithdra), a diffyg arian i roi mesurau amddiffyn ar waith.

*"Mae rhai cymunedau yn cael eu taro'n anghymesur gan newid yn yr hinsawdd. Mae'r consensws diamwys hwn yn taflu goleuni ar ddosbarthiad anghyfartal effeithiau newid yn yr hinsawdd" (Sefydliad: BioHYB Cynhyrchion Naturiol – Prifysgol Abertawe; 49)*

*"Mae unigolion incwm isel a digartref yn cael eu taro'n anghymesur, gan wynebu problemau gyda fforddiadwyedd, iechyd a glanweithdra. Yn aml, nid yw pobl ag incwm is yn gallu fforddio prynu digon hanfodion wrth gefn a... hefyd â llai o adnoddau i atgyweirio difrod, a phan fydd stormydd yn digwydd yn olynol, gall y straen ariannol ddod yn llethol yn gyflym iawn." (Unigolyn: M-SParc; 61)*

Y farn oedd bod effeithiau anghymesur ar gymunedau gwledig ac anghysbell hefyd, sy'n dioddef yn llym o darfu ar gyflenwad bwyd. Awgrymwyd eu bod hefyd yn dioddef mwy o darfu gan stormydd a llifogydd oherwydd oedi mewn ymateb brys ac effaith gwaeth tarfu ar seilwaith critigol fel llinellau pŵer. Risg arall a drafodwyd oedd signal gwael ffonau symudol, a allai atal preswylwyr rhag derbyn rhybuddion amserol am ddigwyddiadau eithafol, a thrwy hynny gynyddu eu bregusrwydd i effeithiau'r digwyddiadau.

Disgrifiwyd cymunedau gwledig hefyd fel rhai sy'n dioddef oddi wrth darfu ar drafnidiaeth ac addysg yn ystod digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd megis llifogydd. Er enghraifft, yng ngweithdy M-Sparc, nododd cyfranogwyr fod angen yn aml i bobl wneud trefniadau amgen i gyrraedd y gwaith neu'r ysgol. Fe wnaethant hefyd adrodd problemau gyda chyflenwad bwyd, gan fod cadwyni cyflenwi mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn fwy bregus.  O ran derbyn cymorth sefydliadau ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon am anghydraddoldebau rhanbarthol, gan awgrymu bod ardaloedd gwledig neu arfordirol yn cael llai o flaenoriaeth o'i gymharu â rhanbarthau mwy trefol. Roeddent yn cyfeirio at enghreifftiau fel yr ymateb arafach i ddifrod storm yng Nghaergybi, o'i gymharu â'r hyn a oedd yn eu golwg nhw mewn ardaloedd mwy amlwg yn wleidyddol fel Dover.

Cafodd yr effeithiau penodol ar blant a phobl ifanc hefyd eu trafod yn aml – gall hyn yn rhannol fod yn adlewyrchiad o ddigwyddiadau gyda phlant ysgol. Roedd effeithiau perthnasol a oedd yn ymddangos yn arbennig o bwysig i bobl ifanc a phlant yn cynnwys colli cyfleoedd addysg, yn ogystal ag iechyd a llesiant oherwydd llai o fynediad i gaeau chwaraeon a mannau gwyrdd. Er enghraifft, yng ngweithdy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tynnwyd sylw at ganslo gemau pêl-droed a rygbi dros gyfnodau hir oherwydd amodau gwael a diffyg cyfleusterau hyfforddi mewnol fel mater o bryder allweddol o ran llesiant i'r gynulleidfa ifanc.

Soniwyd hefyd am effeithiau anghymesur ar leiafrifoedd ethnig, oherwydd rhwystrau iaith, ynysu posibl oddi wrth gymunedau, diffyg ymwybyddiaeth o ble i gael gafael ar wybodaeth. Roedd y sgyrsiau yn ystyried effeithiau ar grwpiau eraill yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur hefyd. Er enghraifft, effeithiau ar bobl ag ableddau gwahanol – y cafodd eu hanghenion eu hanwybyddu a'u hesgeuluso i raddau helaeth, er enghraifft hygyrchedd at wasanaethau cymorth a cholli cyswllt. Yn ogystal, soniwyd bod y boblogaeth ddigartref yn dioddef o fwy o

fregusrwydd yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, ac o ddiffyg gwasanaethau cymorth. Grŵp arall a grybwyllwyd oedd yr henoed, gan eu bod yn cael eu taro'n anghymesur gan risgiau ac effeithiau hinsawdd sy'n gwaethygu cyflyrau iechyd presennol. Ar ben hynny, mae'r boblogaeth oedrannus yn dioddef ynysu, a llai o ymwybyddiaeth o ddigwyddiad eithafol neu wybodaeth diogelwch oherwydd sianeli cyfathrebu mwy cyfyngedig.

*"Gall fod yr henoed neu'r rhai heb ffonau neu fynediad i'r rhyngrwyd neu'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu heithrio o'r wybodaeth ddiogelwch ddiweddaraf. (Unigolyn: Prosiect Gerddi Byd-eang; 19)*

## 3.3 Mesurau addasu i'r hinsawdd

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno themâu allweddol ynghylch mesurau ar gyfer addasu i'r hinsawdd a drafodwyd yn y sgyrsiau. Mae'r themâu allweddol a gyflwynir isod o ran mesurau yn cadw at ganfyddiad cyffredin o newid yn yr hinsawdd fel rhywbeth sy'n arwain at newid a fydd yn tarfu'n sylweddol iawn ac ar raddfa fawr yn y dyfodol, ac fel argyfwng hirhoedlog. Y rhain yw: diogelu'r cartref; lleihau tarfu ar gyflenwad ynni a bwyd; defnyddio lleoedd cymunedol; darparu seilwaith addasu; cynllunio ar gyfer argyfwng; a lleihau'r effaith ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas.

Roedd y dadansoddiad yn gwahaniaethu rhwng addasu i'r hinsawdd (sy'n ymwneud ag addasu i effeithiau hinsawdd presennol neu ddisgwyliedig er mwyn lleihau niwed neu fanteisio ar gyfleoedd) a lliniaru newid hinsawdd (sy'n ymwneud â lleihau neu atal allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn arafu neu atal newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, wrth godio ymatebion). Er bod cwestiynau'r pecyn i drefnwyr yn canolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd, yn hytrach na lliniaru newid hinsawdd, mynegodd y trefnwyr fod cyfranogwyr yn cael trafferth wrth ymdrin â'r cysyniad o addasu i'r hinsawdd, ar wahân i liniaru neu wydnwch, gyda rhai cyfranogwyr yn trafod mesurau lliniaru mewn ymateb i gwestiwn addasu. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, addasu i'r hinsawdd, fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i ddiffinio, yw'r hyn a ddaeth i'r amlwg fel y thema a drafodwyd fwyaf.

### 3.3.1 Pa mor barod

Mae'r is-adran gyntaf hon o dan fesurau ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn cyflwyno'r thema gyda thrafodaeth am y lefel bresennol o barodrwydd i newid yn yr hinsawdd. Roedd adroddiadau eang ar draws y gweithdai o gyfranogwyr a'u cymunedau nad oedd yn barod ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Daeth diffyg parodrwydd mewn perthynas â llifogydd i'r amlwg fel thema arbennig o gryf, er bod rhai cyfranogwyr yn adrodd bod gan eu rhanbarth brofiad helaeth ohono. Roedd llawer yn mynegi barn nad ydyn nhw wedi cymryd dim, neu fawr ddim, camau i baratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol, gyda rhai yn dweud nad oes ganddynt "ddim syniad beth i'w wneud".

*"Er bod gwahanol safbwyntiau yn cael eu rhannu, roedd consensws cyffredinol nad oedd unigolion, aelwydydd a chymunedau mewn gwirionedd yn barod o gwbl ar gyfer canlyniadau negyddol newid yn yr hinsawdd na'n gwybod sut i gymryd camau effeithiol i ddoiogelu eu hunain." (Sefydliad: Cymuned Longwood; 40)*

Cafwyd trafodaethau hefyd am ddiffyg parodrwydd gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod, pe bai digwyddiad tywydd eithafol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, na fyddai gwasanaethau hanfodol yn gallu dygymod â'r galw a achosir gan effeithiau negyddol. Roedd lefel parodrwydd gwasanaethau hanfodol - y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, trafnidiaeth gyhoeddus a systemau gofal cymdeithasol – yn cael ei weld fel risg i les cymunedol. Yn benodol, nododd cyfranogwyr fod gwasanaethau hanfodol eisoes o dan bwysau gyda'r lefelau presennol o alw, heb fod yng nghyd-destun digwyddiad trychineb hinsawdd, gydag ychydig o gyfranogwyr yn awgrymu "byddai angen buddsoddiad cyfalaf enfawr cyn hyd yn oed ystyried addasu ar gyfer y dyfodol" (Sefydliad ac Unigolyn: Down to Earth; 14). Roedd digwyddiadau diweddar - fel Storm Daragh, neu dywydd poeth - hefyd wedi dangos y graddau y mae'r cyhoedd yn dibynnu ar wasanaethau o'r fath i'w cefnogi pan fo angen ymateb ac adfer a pha mor amharod oedd pobl pan amharwyd ar y gwasanaethau hyn. Trafodwyd cryn dipyn ar hyn yng ngweithdy M-Sparc, er enghraifft.

Er gwaethaf hyn, daeth ffactorau penodol i'r amlwg fel dangosyddion o lefelau uwch o barodrwydd. Yn un peth, awgrymwyd bod cymunedau a oedd yn fwy gwledig ac ynysig yn fwy hunangynhaliol a gwydn - efallai oherwydd angen yn sgil pellter oddi wrth wasanaethau hanfodol - yn wyneb effeithiau a thrychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae’n werth nodi bod y canfyddiad hwn yn ddiddorol yng nghyd-destun y canfyddiad a drafodwyd o'r blaen bod cymunedau gwledig yn wynebu mwy o risgiau o newid yn yr hinsawdd. Mae'r dyfyniadau isod o dair cymuned o'r fath mewn gwahanol weithdai yn crynhoi canfyddiadau o wydnwch uwch ymhlith cymunedau gwledig.

*"Unwaith eto, y teimlad oedd eu bod fel cymuned leol wedi addasu'n weddol dda oherwydd eu bod yn byw mewn ardaloedd anghysbell ac ynysig." (Sefydliad: Cellan a Llanfair Clydogau; 39)*

*"Yn byw ar fferm, rwy'n teimlo'n fwy parod na phe bawn i'n byw mewn dinas. Rydym yn lwcus o gael generaduron, er mai ateb tymor byr yw hynny wrth gwrs” (Unigolyn: Mind on Music; 26)*

*"Roedd teimlad bod rhai aelodau gwledig o'r gynulleidfa yn teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn fwy parod ar gyfer yr effeithiau" (Sefydliad: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; 4)*

Roedd rhai adroddiadau yn disgrifio mesurau penodol a oedd yn awgrymu gradd uwch o barodrwydd ar gyfer effeithiau hinsawdd, fel llifogydd. Mae'r rhain yn awgrymu lefel uwch o barodrwydd ar gyfer argyfyngau yn y cymunedau hyn, gan grybwyll enghreifftiau o bentyrru adnoddau, paratoi bagiau argyfwng, a chael storfeydd bagiau tywod.

*"Mae rhai wedi cymryd mesurau rhagweithiol, fel gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd neu greu pecynnau brys a chreu storfeydd bagiau tywod" (Sefydliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; 59)*

### 3.3.2 Amddiffyn y cartref

O ran camau a gymerwyd i amddiffyn y cartref rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar gyfyngu ar effeithiau llifogydd. Trafodwyd defnyddio bagiau tywod fel mesur amddiffynnol, gyda rhai yn dadlau dros eu dosbarthu'n well trwy gynlluniau cymunedol, tra bod eraill yn amau eu heffeithiolrwydd. Roedd teimlad cryf bod mesurau o'r fath yn aml yn rhy fach, yn rhy hwyr, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos hyn:

*"Mae Pontypridd bob amser yn cael ei daro ac mae bob amser yn hwyr i atal hynny. Ble mae'r bagiau tywod yn cael eu rhoi i dai pobl?" (Unigolyn: Omidaze Productions Ltd; 29)*

*"Ie. Nid yw bagiau tywod yn gweithio. Os yw'r dŵr hwnnw'n dod i mewn, mae'n dod i mewn." (Unigolyn: Coop a HZ Consulting; 12)*

Cafodd addasiadau cartref sy'n cynyddu gwydnwch unwaith y bydd dŵr wedi mynd i mewn i'r cartref, fel gosod socedi trydanol yn uwch, eu crybwyll yn amlach na mesurau Gwydnwch Eiddo rhag Llifogydd (PFR) ar gyfer cadw'r dŵr allan.[8] Mynegwyd rhywfaint o feirniadaeth hefyd o bolisïau adeiladu'r llywodraeth ynghylch parhau i adeiladu ar orlifdiroedd a safonau adeiladu gwan ar gyfer tai cymdeithasol. Galwai cyfranogwyr am fwy o gefnogaeth ar ffurf grantiau i helpu i weithredu mesurau amddiffyn cartrefi gan bwysleisio'r angen am becynnau argyfwng cartref a chynlluniau gwacáu. Awgrymwyd y gellid darparu mwy o gymorth ariannol i gefnogi mesurau gwydnwch rhag llifogydd, er na soniwyd am gynlluniau a noddir gan y llywodraeth sydd ar gael i rai unigolion, fel y Cynllun Grant PFR, neu'r fenter Build Back Better a lansiwyd gan Flood Re. Esboniodd un cyfranogwr yr angen canfyddedig am gyllid fel hyn:

*""Grantiau bach neu rywbeth i wella'ch tŷ, felly os ydych chi mewn ardal llifogydd, efallai y gallant roi'r pethau bach hyn yn eu lle ar eu cyfer" (Unigolyn: TEEMA; 50)*


### 3.3.3 Gwella hunan-gynhaliaeth a gwydnwch rhag tarfu ar ynni a bwyd

Cafodd tarfu ar gyflenwad ynni a'r grid cenedlaethol ei ddisgrifio fel canlyniad posibl i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Felly, trafodwyd cynhyrchu ynni lleol, yn enwedig trwy baneli solar ar eiddo a thai preifat, nid yn unig fel strategaeth liniaru, ond hefyd fel cyfrwng addasu mewn argyfyngau. Roedd y cyfranogwyr yn cefnogi grantiau, gosodiadau gorfodol ar gyfer adeiladau newydd, a mentrau ynni cymunedol (megis Dyfodol Di-Garbon Llanidloes, cynllun solar ym mherchnogaeth i'r gymuned sy'n cyflenwi'n lleol). Mae'r dyfyniad isod yn enghraifft o farn o'r fath.

[8] Fel y'i diffinir yn nhrosolwg Asiantaeth yr Amgylchedd o Wydnwch Eiddo rhag Llifogydd (Property Flood Resilience). Fframwaith yw'r PFR o ymyraethau ar lefel adeilad ac iddynt y nod o reoli risg llifogydd trwy leihau'r dŵr sy'n mynd i mewn i adeiladau a chyfyngu ar ganlyniadau llifogydd pan maent yn digwydd. Caiff ei gydnabod ym mholisi rheoli risg llifogydd y DU fel mesur sy'n ategu amddiffynfeydd traddodiadol ar raddfa cymuned neu ddalgylch.

*"Byddai cefnogaeth i greu ynni lleol yn dda. Felly nid ffermydd solar mawr lle mae'r trydan yn mynd i rywle arall, ond cymorth i bob adeilad / cerbyd fferm gael eu pweru gan solar" (Unigolyn: Cwmni Buddiant Cymunedol Mind on Music; 26)*

**Ffigur 16: Menter gymunedol yn eirioli cynhyrchu ynni yn lleol**




Disgrifiad o Ffigur 16: Mae’r llun yn dangos poster Menter Gwydnwch Ynni y Gelli sy'n hyrwyddo system ar gyfer ynni cymunedol lleol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwydnwch gyda'r slogan "Let's Generate Our Own Energy!". Mae'n tynnu sylw at atebion ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt a phaneli solar, sy'n cyfleu cynhyrchu ynni cymunedol. Mae'n tynnu sylw at nodau'r fenter o fforddiadwyedd, grymuso cymunedol a chynaliadwyedd. Mae'n pwysleisio meithrin gwydnwch cymunedol trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy, dewisiadau ffordd o fyw a chysylltiad â natur. (Sefydliad: Menter Gwydnwch Cymunedol y Gelli; 21)

Cafodd rhwystrau rhag gosod ynni solar eu nodi hefyd mewn sgyrsiau, megis gwahaniaethau rhwng math o dai, a rhwng tenantiaeth a pherchnogaeth cartrefi. Gyda rhai sgyrsiau ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig, awgrymwyd y gallai'r heriau hyn fod yn arbennig o gyffredin, gyda grwpiau o'r fath â chyfraddau is o berchnogaeth cartrefi yn llai galluog i wneud addasiadau o'r fath. Roedd awgrymiadau hefyd i ailgyflwyno systemau traddodiadol wrth gefn, fel llosgi coed tân, i wella hunangynhaliaeth yn ystod toriadau pŵer, hyd yn oed os yw'r rhain yn rhwystro lliniaru hinsawdd, fel y trafodwyd yng ngweithdy Gwydnwch GWRP.


Trafododd mynychwyr hefyd sut mae newid yn yr hinsawdd yn tarfu ar y cyflenwad bwyd ac yn effeithio ar ffermwyr, ac roeddent yn awgrymu ffyrdd posibl o addasu i'r heriau hyn. Pwysleisiwyd ymdrechion i ddatganoli systemau bwyd ac annog cynhyrchu bwyd cymunedol neu gan unigolion yn arbennig ar gyfer cymunedau gwledig. Roedd rhai awgrymiadau yn cynnwys hyfforddiant ac addysg ynghylch sgiliau tyfu, yn ogystal â darparu mwy o leoedd a grantiau ar gyfer rhandiroedd a gerddi cymunedol, er enghraifft. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos safbwyntiau o'r fath.

*"Anogwch bobl i dyfu eu bwyd eu hunain... darparu compost am ddim, darparu lleoedd ar gyfer mwy o randiroedd ." (Unigolyn: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; 27)*

*"Mae angen mwy o leoedd garddio cymunedol - ar gyfer addysgu a chyflenwi bwyd." (Unigolyn: Cynghrair Gymunedol F.A.N; 17)*

*"Roedd cyfleoedd yn cynnwys... sefydlu mannau gwyrdd cymunedol neu erddi ffrwythau... trafodwyd syniadau ymarferol fel llyfrau ryseitiau newid hinsawdd hefyd" (Sefydliad: M-Sparc; 61)*

**Ffigur 17: Gweithgarwch creadigol yn defnyddio blociau, cerrig, ffigurynnau a phensiliau lliw i ddarlunio gwydnwch a hunan-gynhaliaeth**




Disgrifiad o Ffigur 17: Mae'r elfen greadigol hon dangos gweithgaredd creadigol bwrdd gan ddefnyddio "rhannau rhydd ar ffurf LEGO, DUPLO, blociau a phlastisîn i helpu i ateb y cwestiynau o'r pecyn adnoddau". Mae'r ffigurynnau a ddangosir yn tyfu llystyfiant (coed, glaswellt, mwsogl) ac yn gosod bagiau tywod mewn ymateb i lifogydd. Mae nodiadau llawysgrifen cysylltiedig yn tynnu sylw at themâu fel hygyrchedd i unigolion ag anghenion ychwanegol, sefydlu rhandiroedd, a chydweithredu cymunedol. (Sefydliad ac Unigolion: Partneriaeth PMP; 31)

Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio’r angen hefyd i amddiffyn incwm ffermwyr a diwygio arferion amaethyddol er mwyn cefnogi systemau bwyd cynaliadwy, gan hefyd awgrymu dulliau haws o brynu'n uniongyrchol gan ffermwyr. Roedd awgrymiadau hefyd ymhlith ffermwyr a chymunedau gwledig ar gyfer gwell cymorth ariannol i ffermwyr drwy grantiau, ynghyd ag awgrymiadau bod ffermwyr eisoes yn wynebu heriau mawr iawn i ddal dau ben llinyn ynghyd, ac un unigolyn yng ngweithdy Eco-Dewi yn eu disgrifio fel rhai "ar ymyl y dibyn". Yng Ngholeg Sir Gâr ymddengys y byddai gwrthwynebiad cryf pe bai’n ofynnol i ffermwyr "dalu am hyn eu hunain".

Roedd y themâu cynhyrchu ynni a chyflenwi bwyd yn lleol yn ennyn brwdfrydedd mawr ymysg rhai cyfranogwyr, yn enwedig y rhai mewn cymunedau gwledig, gan ysgogi syniadau o hunangynhaliaeth a ‘chadw tyddyn’. Mae hyn yn awgrymu bod rhai yn rhagweld dyfodol wedi'i ffurfio gan senario hinsawdd sydd wedi tarfu’n llym ar fodelau modern o ddarparu gwasanaethau a chymorth sefydliadol, a hyn yn amlygu’r angen canfyddedig i ddibynnu

mwy ar adnoddau personol neu gymunedol. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r adroddiadau o fewn pa amserlenni y mae'r cyfranogwyr hyn yn meddwl y gallai angen o'r fath ddigwydd.

### 3.3.4 Mannau cymunedol a grwpiau cymunedol

Roedd cyfranogwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd creu mannau cymunedol dynodedig i gefnogi pobl yn ystod digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel llifogydd, tywydd poeth, a thoriadau pŵer. Awgrymwyd y dylai'r canolfannau hyn sy'n barod ar gyfer argyfwng fod yn gyhoeddus, yn hygyrch, ac yn meddu ar hanfodion fel bwyd, dŵr, cynhesrwydd a phŵer. Roedd canolfannau cynnes ar gyfer y gaeaf a mannau oer ar gyfer yr haf yn cael eu hystyried yn arbennig o hanfodol i grwpiau agored i niwed. Disgrifiodd un cyfranogwr yr angen fel:

*"[Dylai fod] mannau diogel dynodedig os bydd digwyddiad hinsawdd, gyda ble i fynd yn cael ei gyhoeddi'n eang ac yn hygyrch. Byddai gan y rhain generaduron, bwyd, dŵr a chynhesrwydd. A 'lloches bom hinsawdd' (Unigolyn: Prosiect Gerddi Byd-eang; 19)*

Y tu hwnt i argyfyngau, pwysleisiodd cyfranogwyr hefyd werth ehangach canolfannau cymunedol wrth gryfhau cysylltiadau cymdeithasol, meithrin cynhwysiant, a chefnogi gwydnwch hinsawdd yn anuniongyrchol trwy adeiladu rhwydweithiau lleol ac ymdeimlad cryfach o gymuned.

**Ffigur 18: Elfen greadigol yn darlunio pwysigrwydd mannau cymunedol[9]**

prepare

community hubs
places of safety
generators, food, clothing, water and warmth
a ‘climate bomb shelter’

Disgrifiad o Ffigur 18: Mae'r ddelwedd yn cyflwyno detholiad o elfen greadigol fwy. Mae'n cyflwyno sawl elfen i baratoi ar gyfer addasu. Mae'n pwysleisio'r angen am ganolfannau cymunedol sy'n gwasanaethu fel mannau diogel, wedi'u harfogi ag adnoddau fel generaduron, bwyd, dillad, dŵr a chynhesrwydd. Mae'r cysyniad yn adlewyrchu dull rhagweithiol o ddiogelu'r gymuned a sicrhau cefnogaeth. (Prosiect Gerddi Byd-eang; 19).

### 3.3.5 Darparu seilwaith addasu cyhoeddus i gymunedau

Yn ogystal â chamau a gymerwyd i amddiffyn y cartref, roedd cyfranogwyr yn awgrymu hefyd beth yn eu barn nhw y dylai'r llywodraeth fod yn ei wneud o ran gwella seilwaith sy'n amddiffyn cymunedau cyfan rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn benodol, trafododd cyfranogwyr yr angen am fwy a gwell asedau amddiffyn rhag llifogydd ar lefel gymunedol,

[9] “Paratoi / canolfannau cymunedol / lleoedd diogel / generaduron, bwyd, dillad, dwr a chynhesrwydd/ ‘lloches bom hinsawdd’”

gan adlewyrchu pryder bod llawer ohonynt yn hen neu'n annigonol i ymdrin â'r risgiau llifogydd cynyddol yn y dyfodol. Y tu hwnt i lifogydd, awgrymodd cyfranogwyr hefyd fod y grid cenedlaethol yn "hen ffasiwn" neu'n "hynafol" (fel y mynegwyd yng ngweithdai Cymru Gynaliadwy a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr) a bod angen ei ailddatblygu gyda gwelliannau mewn gwydnwch i ddygymod â risgiau newid yn yr hinsawdd. O ran seilwaith gwyrdd, trafododd y cyfranogwyr yr angen hefyd am fwy o blannu coed, a hynny ar raddfa fawr, gyda rhai hefyd yn eiriol dros stiwardiaeth gymunedol fel rhan o reoli coedwigaeth.

*"Adfer stiwardiaeth gymunedol rheoli coedwigoedd i gadw dŵr yn well. Hefyd, plannu mwy o goed." (Sefydliad: Geospatial Environmental Solutions; 48)*

### 3.3.6 Gwella cynllunio a bod yn fwy parod ar gyfer argyfwng

Cododd cyfranogwyr bryderon cryf ynghylch pa mor ddigonol yw gwydnwch hinsawdd ar hyn o bryd a chynllunio ar gyfer addasu, yn enwedig o ran ymateb i lifogydd a bod yn barod am argyfwng ehangach. Dywedwyd nad yw cymdeithas wedi paratoi ar gyfer effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd, gyda diffyg gwybodaeth o beth i'w wneud pe bai digwyddiad llifogydd, er enghraifft.

*"Rydyn ni wedi cael llifogydd yn ein stryd dros y blynyddoedd. Mae llawer o rwystrau wedi bod allan ar waith. Dydyn ni ddim yn barod iawn gartref ar gyfer y digwyddiadau hyn." (Unigolyn: Adnewyddu Sir Ddinbych; 34)*

*"Does gen i ddim syniad beth i'w wneud!" (Unigolyn: Ton Fawr; 5)*

Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys creu ardaloedd diogel a datblygu cynlluniau ymateb brys cynhwysfawr sy'n cwmpasu bwyd, tanwydd, dewisiadau amgen cyfathrebu, yn ogystal â chefnogaeth i unigolion agored i niwed.

Roedd cefnogaeth i ddulliau lleol, o dan arweiniad y gymuned, fel systemau gwydnwch cymdogaeth a grwpiau llywio lleol sy'n cynnwys preswylwyr, gwasanaethau allweddol, a rhanddeiliaid. Byddai'r grwpiau hyn yn rhannu gwybodaeth, cydlynu adnoddau, ac ymateb i anghenion lleol yn fwy effeithiol. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y gallai cyfathrebu a grwpiau WhatsApp ffurfio ffordd o rannu gwybodaeth a chefnogi ei gilydd. Roedd rhai yn ystyried enghreifftiau o grwpiau lleol a sefydlwyd yn ystod y cyfnodau clo Covid-19.

*"Mae ar bob ardal angen ei thîm, canolfan, rhwydwaith gwybodaeth a chydlynydd ei hun. Gwybod pwy all gynnig beth, a ble mae'r anghenion gan gynnwys pobl agored i niwed" (Unigolyn: Grŵp Resilience; 20)*

### 3.3.7 Mynd ati mewn ffordd gynhwysol

Roedd y trafod mewn gweithdai yn tynnu sylw at yr effeithiau gwahanol ar wahanol garfannau o’r boblogaeth, ynghyd ag amryw o awgrymiadau ar gyfer gwella. Mewn gweithdai a oedd yn cynnwys yn Llyfrgell Gymunedol y Gelli, Youth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Razbio, cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau mewn gwneud penderfyniadau ar y cyd drwy gynnwys mwy o unigolion sydd wedi’u hymylu, gan

gynnwys y rhai ag anableddau, aelwydydd incwm is yn ogystal â lleiafrifoedd ethnig a allai gael trafferth gyda rhwystrau iaith, er enghraifft.

Roedd awgrymiadau hefyd ar gyfer prosiectau ynni sy'n eiddo i'r gymuned i ddarparu buddion gweladwy a swyddi lleol, yn ogystal â galwadau am well allgymorth cymunedol i leihau ynysu a normaleiddio cymorth. Ymhlith rhai, roedd galw hefyd am fwy o weithwyr cymorth lleol a mynd ati'n unswydd i ennyn diddordeb cymunedau lleiafrifol. O fewn y cyd-destun hwn, trafodwyd yr angen am gyfathrebu priodol, allgymorth diwylliannol sensitif, a chynlluniau gwydnwch hinsawdd sy'n cydnabod anghenion penodol gwahanol grwpiau a sicrhau mynediad teg iddynt. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos hyn:

*"Mae cynghorau yn tueddu i ddarparu gwasanaethau a chyngor "un maint i bawb", nad yw bob amser yn ddefnyddiol nac yn briodol. Bydd angen atebion gwahanol ar bobl ag anableddau yn ôl eu hanghenion." (Unigolyn: XR Wrecsam; 55)*


*"[Dylem] Newid ein cymdeithas i addasu i'r hyn sydd ei angen ar bobl, gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at gymorth a gwasanaethau os oes eu hangen arnynt" (Unigolyn: Omidaze Productions Ltd; 29)*

### 3.3.8 Mesurau addasu ar gyfer yr hinsawdd – casgliad cryno

I gloi, roedd newid yn yr hinsawdd yn cael ei weld fel argyfwng hirdymor sy'n gofyn am addasu ymarferol yn ddi-oed. Adroddodd cyfranogwyr am raddau isel o barodrwydd ar aelwydydd ac mewn sefydliadau, gyda llifogydd yn risg amlwg, er bod rhai cymunedau gwledig yn teimlo'n gymharol hunan-ddibynnol. Roedd pwyslais cryf ar wella gwytnwch a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau allanol. Roedd mesurau arfaethedig yn canolbwyntio ar y canlynol: gwneud cartrefi yn wydn rhag llifogydd; datganoli ynni a bwyd trwy gynhyrchu ynni solar yn lleol, gerddi a rhandiroedd; creu canolfannau cymunedol gyda chyfarpar da ynddynt; uwchraddio seilwaith cyhoeddus - amddiffynfeydd rhag llifogydd, grid mwy gwydn, a phlannu coed ar raddfa fawr; a chryfhau cynllunio ar gyfer argyfwng trwy dimau cymdogaeth a chyfathrebu clir. Roedd rhwystrau i denantiaid sy'n rhentu tai, grwpiau incwm isel a lleiafrifoedd, a phwysau ar wasanaethau hanfodol, yn amlygu galwadau am grantiau a chymorth cynhwysol a phenodol. Er gwaethaf drysu gyda lliniaru, daeth addasu i'r amlwg fel y flaenoriaeth gymunedol ac iddi fwyaf o frys am gefnogaeth.

Mae'r dudalen ganlynol yn cynnwys darluniau sy'n dangos y casgliadau hyn mewn fformat darluniadol, gan arddangos strategaethau lleol ar gyfer addasu i'r hinsawdd. Mae pob delwedd yn tynnu sylw at ymyriadau addasu allweddol fel cynhyrchu ynni adnewyddadwy, amddiffyn rhag llifogydd, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a seilwaith cymunedol sydd, gyda'i gilydd, yn meithrin gwydnwch hinsawdd cymunedol.

**Ffigur 19: Gweledigaeth o gymuned sy’n wydn ac wedi addasu**




Disgrifiad o Ffigur 19: Mae'r ddau ffeithlun yn darlunio gweledigaeth ar gyfer cymuned sydd wedi addasu i newid yn yr hinsawdd, o safbwynt cymuned wledig a chymuned drefol. Yn y lleoliad gwledig, mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys cynhyrchu ynni cymunedol trwy dyrbinau gwynt a phaneli solar, plannu coed i helpu i reoli llifogydd, mesurau gwydnwch leiddo rhag llifogydd, a menter tyfu bwyd gartref. Mae'r lleoliad trefol yn darlunio canolfan sy'n wydn i'r hinsawdd, sy'n gwasanaethu fel canolbwynt i ddod â'r gymuned at ei gilydd, paneli solar ar gyfer cynhyrchu ynni lleol, palmant lled-hydraidd a mesurau gwydnwch eraill

rhag llifogydd ar gyfer adeiladau, a phrosiect tyfu cymunedol. (Ffynhonnell: Eunomia Research & Consulting Ltd.)

## 3.4 Strategaethau lliniaru newid hinsawdd

Er nad ar strategaethau a gweithredu lliniaru newid hinsawdd roedd y digwyddiadau’n canolbwyntio, fel y trafodwyd eisoes, roedd llawer o gyfranogwyr nad oedd yn gwahaniaethu hyn yn ymarferol oddi wrth addasu ac, felly, yn awgrymu camau gweithredu a allai fod yn ymwneud mwy â lliniaru newid hinsawdd.

Un pwnc trafod o bwys oedd gwell opsiynau a dewisiadau trafnidiaeth, gyda chyfranogwyr yn dadlau dros ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu ceir, beicio, neu gerdded yn hytrach na gyrru. Mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus, galwodd cyfranogwyr am weithredu gan lywodraeth leol a chenedlaethol i helpu i ddatblygu trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel a'i wneud yn fwy hygyrch i wahanol grwpiau, gyda hygyrchedd ariannol i bobl ifanc yn cael ei drafod yn benodol. Roedd galwadau hefyd am symudiad mwy cyffredinol tuag at drydaneiddio cerbydau.

*"Mae opsiynau trafnidiaeth yn gyfyngedig i ni, gan ei gwneud hi'n anodd bod yn gynaliadwy [...] Gwella trafnidiaeth gyhoeddus, gan ei gwneud yn fwy fforddiadwy a hygyrch i bobl ifanc er mwyn annog teithio gwyrddach" (Unigolyn: Youth Cymru; 56)*

*"Mae angen gwella darpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy - amseroedd, teithiau, a hygyrchedd." (Unigolyn: Prifysgol Metropolitan Caerdydd; 7)*

Roedd cyfranogwyr yn awgrymu mesurau hefyd i helpu i leihau'r defnydd cyffredinol o ynni. Yn nigwyddiadau KIDCARE4U, Menter Môn, a Llyfrgell Gymunedol y Gelli, er enghraifft, trafododd cyfranogwyr bwysigrwydd gwell inswleiddio cartrefi a gwydr ffenestri i leihau’r gwres a gollir yn y gaeaf.

Roedd lleihau llygredd plastig yn bwnc trafod allweddol arall, yn ogystal â gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o blastig. Ymddengys fod hyn yn arbennig o amlwg ymhlith plant ysgol a phobl ifanc.

*"Mae plastig yn y cefnforoedd yn niweidio’r pysgod ac mae'n mynd yn ein bwyd. Dydw i ddim yn hoffi bwyta pysgod nawr. Dydw i ddim eisiau bwyta plastig, ach a fi!" (Unigolyn: Sustainability Sphere (Hinsawdd Plant); 45)*

*"Gall lleihau faint o blastig rydych chi'n ei ddefnyddio neu fod yn fwy ymwybodol o'r defnydd o ddŵr wneud gwahaniaeth. Newidiadau bach bob dydd sy'n gallu cronni i greu effaith." (Unigolyn: Coleg Pen-y-bont ar Ogwr; 6)*

Roedd sgyrsiau’n pwysleisio pwysigrwydd gwella arferion ailgylchu hefyd. Trafodwyd addysg ailgylchu mewn rhai sgyrsiau, gydag unigolion yn rhannu straeon o ddryswch ar reolau sirol neu anawsterau wrth gaffael bagiau ailgylchu, tra bod cyfranogwyr eraill yn galw am well seilwaith ailgylchu.

*"Roedd gan rai ddiddordeb am yr effeithiau llai y gallent eu gwneud o amgylch eu cartrefi, ac mae rhai eisoes yn dda iawn ac o gwmpas eu pethau gydag ailgylchu bob dydd o amgylch y cartref." (Sefydliad: Partneriaeth PMP; 31)*

*"Mae rhai o'r rheolau ailgylchu newydd yng Nghaerdydd yn gallu digalonni rhywun ac yn creu llawer o waith, mae'n fwy llafur-ddwys.  Mae angen ei symleiddio gan ei fod yn gallu troi pobl yn erbyn gweithredu." (Unigolyn: WAN Cymru; 62)*

**Ffigur 20: Addurniadau siâp calon gyda galwadau i weithredu**




Disgrifiad o Ffigur 20: Mae'r llun yn dangos dau addurn siâp calon wedi'u gwneud mewn gweithdy 'crefftau ymgyrchu'. Maen nhw'n dangos themâu'n ymwneud ag economi gylchol. Mae'r galon gyntaf yn dangos neges i'w hailddefnyddio a'i hailgylchu, wedi'i ysgrifennu mewn inc glas ac wedi'i amgylchynu gan acenion addurnol. Mae'r ail galon yn cynnwys galwad i weithredu i achub y Ddaear. Mae'r delweddau gweledol yn cyfleu neges gref o ofalaeth amgylcheddol a phwysigrwydd camau lliniaru trwy ddylunio creadigol. (Unigolyn: WAN Cymru; 62).

**Ffigur 21: Llun o arwr ailgylchu**




Disgrifiad o Ffigur 21: Mae'n dangos darlun gan gyfranogwr, a gymerodd ran mewn gweithgaredd creadigol a oedd yn cynnwys darlunio arwr yn mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder. Mae'r llun hwn o arwr ailgylchu – un o lawer – sy'n pwysleisio pwysigrwydd ailgylchu a/neu gasglu sbwriel.  Dangosir yr arwr (o'r enw Bob) yn ailgylchu poteli a gwellt,

gyda'r disgrifiad oddi tano yn dweud bod yr arwr yn ailgylchu sbwriel yn gyflym iawn. (Unigolyn: Clwb Rotari Llanelli; 35).


Trafodwyd plannu coed a chamau gweithredu i atal datgoedwigo gan gyfranogwyr, gan ddangos gorgyffwrdd pellach rhwng gweithredu addasu a lliniaru newid hinsawdd. Trafodwyd plannu coed hefyd mewn perthynas â diraddiad amgylcheddol ehangach a cholli bioamrywiaeth. Roedd y rhain yn fater craidd i grwpiau ieuenctid, a ddangosodd bryder am anifeiliaid a'u lles fel yr effeithir arnynt gan ddatgoedwigo.

*"Maen nhw'n torri'r coed oherwydd eu bod nhw'n gwneud arian iddyn nhw eu hunain, a dydyn nhw ddim yn meddwl am yr anifeiliaid a phethau." Mae hyn yn dangos pryder am fywyd gwyllt ac mae'n arbennig o ingol yng nghyd-destun y gyfradd ddifodiant gynyddol bresennol." (Unigolyn a Sefydliad: Maes Cynaliadwyedd – Hinsawdd Plant; 45)*

Awgrymwyd mentrau plannu a choedwigoedd dan arweiniad y gymuned hefyd i rymuso cymunedau. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys rheoli coedwigoedd lleol trwy berchnogaeth gymunedol a threfnu mentrau plannu coed gwirfoddol.

*"Mae angen i ni blannu mwy o goed, gallem wneud hyn gydag arian fel prosiect cymunedol'" (Unigolyn: Ton Fawr; 5)*

**Ffigur 22: Llun o arwr plannu coed**




Disgrifiad o Ffigur 22: Mae'r llun yn cynnwys dyluniad ar gyfer drôn plannu coed o'r enw Reggie, gyda nodiadau a diagramau mewn llawysgrifen. Mae gan y drôn bropelor, camera / llygaid, bar synhwyro a lle i ddal eginblanhigion. Mae'r llun yn esbonio bod proses Reggie yn cynnwys canfod twll i ollwng hadau ynddo, ac mae’n ei ddyfrio. Mae nodyn oddi tano yn pwysleisio gallu plannu Reggie. Mae'r llun yn adlewyrchu meddwl arloesol ynghylch ailgoedwigo, gan ddangos dealltwriaeth y plant o adfer natur, a'r gydberthynas rhwng technoleg ac addasu i'r hinsawdd. (Unigolyn: Clwb Rotari Llanelli; 35).

## 3.5 Rhwystrau rhag gweithredu ar yr hinsawdd

Er bod cyfranogwyr yn trafod amryw o gamau posibl i gefnogi camau addasu a lliniaru newid hinsawdd, maent hefyd yn tynnu sylw at nifer o rwystrau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithredu ar hyn o bryd. Mae'r rhain wedi'u dosbarthu'n themâu allweddol: bod yn rhan o grŵp lleiafrifoedd ethnig, rhwystrau ariannol (sy'n arbennig o berthnasol i aelwydydd incwm isel), gwrthwynebiad i newid, a materion sy'n ymwneud â rheoliadau cynllunio a rhwystrau cyfreithiol. Er bod rhai rhwystrau yn gysylltiedig â demograffeg benodol, mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn canolbwyntio ar heriau addasu yn hytrach na'r risg uwch o effeithiau hinsawdd i grwpiau demograffig o'r fath, fel y trafodwyd eisoes yn yr Adran 3.2.

### 3.5.1 Rhwystrau a wynebir gan leiafrifoedd ethnig

Adroddodd cymunedau lleiafrifoedd ethnig eu bod yn wynebu rhwystrau penodol rhag addasu i'r hinsawdd, megis cyfraddau is o berchnogaeth cartrefi, sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gwelliannau ynni-effeithlon. Mae llai o integreiddio cymunedol hefyd yn tynnu sylw at yr angen am weithgarwch mwy cynhwysol gan awdurdodau lleol. Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys gwahaniaethu canfyddedig yn y farchnad swyddi, ymwybyddiaeth gyfyngedig o fanteision addasu, a chredoau crefyddol a allai gyfyngu ar fynediad at gymorth confensiynol fel yswiriant. O ran yr olaf, esboniodd un cyfranogwr:

*"Mae rhai pobl o'r gymuned Fwslimaidd 'nad ydyn nhw'n cymryd yswiriant oherwydd eu bod yn meddwl ei fod yn erbyn eu crefydd'... efallai y gall fod dewis arall... os ydyn nhw'n talu i'r mosg neu rywbeth, ac yna os bydd rhywbeth yn digwydd, maen nhw'n cael iawndal wedyn." (Unigolyn: TEEMA: 50)*

### 3.5.2 Ariannol

Roedd y costau uchel ymlaen llaw ar gyfer technolegau gwyrdd, fel paneli solar, cerbydau trydan, a phympiau gwres, yn cael eu gweld fel rhwystrau mawr, yn enwedig i aelwydydd incwm isel a busnesau bach. Roedd awgrymiadau hefyd y gallai baich ariannol gweithredu yn yr hinsawdd arwain at wrthwynebiad i bolisïau hinsawdd:

*"Mae arferion gwyrdd yn aml yn ddrud, gan ddieithrio aelodau economaidd-ddifreintiedig o'r gymuned. Gall heriau economaidd arwain at wrthwynebiad i'r agenda werdd." (Unigolyn: Cow Face Coaching Ltd; 13)*

Roedd diffyg cyllid y llywodraeth a chyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu gor-ymestyn yn bryder rheolaidd arall. Galwodd cyfranogwyr am fwy o fuddsoddiad seilwaith, cymhellion sector preifat, a gwell mynediad at gyllid gwyrdd. Roedd llawer yn mynegi safbwynt bod gan y llywodraeth ddyletswydd i wneud technolegau adnewyddadwy yn fwy fforddiadwy, fel y cyflwynir yn yr Adran 3.4. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, roedd rhai'n cefnogi modelau adeiladu cyfoeth cymunedol fel cwmnïau cydweithredol ynni, gan anelu at gyfranogiad ehangach, tecach:

*"[Dylem fod yn] sefydlu modelau perchnogaeth gymunedol sy'n caniatáu cyfranogiad eang waeth beth fo'r dulliau ariannol." (Sefydliad: Llyfrgell Gyhoeddus y Gelli; 21)*

### 3.5.3 Diffyg ymddiriedaeth mewn polisi hinsawdd ac arweinwyr

Dywedodd cyfranogwyr fod gwrthwynebiad i newid o fewn sefydliadau ac ymhlith y cyhoedd. Roedd rhai o’r cyfranogwyr eu hunain yn awgrymu’n agored eu bod yn ddrwgdybus o bolisïau ac iddynt y nod o addasu neu liniaru wrth ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Roedd rhai yn amau addasrwydd y polisi ynni presennol. Yng ngweithdy Coleg Cambria, er enghraifft, awgrymwyd y gallai polisïau Sero Net arwain at gynnydd mewn toriadau pŵer, gyda'r awgrym bod newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy yn ffurf llai dibynadwy o ddarparu ynni. Roedd eraill yn anghytuno â'r naratif ynghylch newid yn yr hinsawdd o ran faint o effaith negyddol y bydd yn ei chael ar yr amgylchedd a chymdeithas, gan awgrymu bod rhethreg yn aml yn gor-ddweud, neu eu bod yn anghytuno â'r graddau y mae gweithredu dynol yn achosi newid yn yr hinsawdd. Mewn rhai gweithdai, er enghraifft, mynegodd pobl ifanc yn arbennig sinigiaeth a diffyg ymddiriedaeth mewn negeseuon llywodraeth, a oedd weithiau'n cael eu hystyried yn unochrog. Roedd adroddiadau’n awgrymu bod newid yn yr hinsawdd ymhlith rhai cyfranogwyr wedi dod yn rhan o 'ryfeloedd diwylliant' (dadleuon cyhoeddus llosg ynghylch amrywiaeth o faterion – sy’n aml yn cael eu fframio fel gwrthdaro rhwng safbwyntiau "traddodiadol" a "blaengar") gan greu rhaniad yn hytrach nag undod.

*"Ar y cyfan, roedd pobl ifanc yn dangos sinigiaeth, diffyg ymddiriedaeth ac anobaith am negeseuon newid hinsawdd sy'n dod gan y llywodraeth a'r cyfryngau. Mae newid yn yr hinsawdd wedi dod yn rhan o'r 'rhyfeloedd diwylliant'." (Sefydliad: Coleg Sir Gâr; 11)*

Mewn rhai gweithdai, roedd pryder yn llai am newid yn yr hinsawdd ac yn ymwneud yn fwy ag effeithiau negyddol canfyddedig polisi sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yng ngweithdy Cellan a Llanfair Clydogau, er enghraifft, roedd cyfranogwyr yn trafod pryderon ynghylch ffermydd gwynt ucheldirol sy'n effeithio ar amwynderau gweledol a bioamrywiaeth.

Er hynny, mynegodd cyfranogwyr rwystredigaeth hefyd gydag arweinyddiaeth wleidyddol ar hyn o bryd, gan nodi meddwl tymor byr, diffyg tryloywder, ac aneffeithiolrwydd wrth wneud penderfyniadau. Galwai rhai hefyd am arweinyddiaeth gryfach, fwy cyson i ymdrin yn onest â natur hirdymor yr argyfwng hinsawdd.

### 3.5.4 Rheoliadau cynllunio a rhwystrau cyfreithiol

Roedd deddfau cynllunio yn cael eu gweld yn helaeth fel rhwystrau i ymdrechion lleol i addasu i’r hinsawdd, gan gynnwys cyfyngiadau ar addasiadau cartrefi fel paneli solar. Galwodd cyfranogwyr am ddulliau cynllunio mwy hyblyg a llai o fiwrocratiaeth i alluogi gweithredu yn gyflymach yn yr hinsawdd, yn enwedig o fewn y maes ceisiadau ar gyfer gosod ynni solar ond hefyd prosiectau tyfu cymunedol.

Roedd newidiadau cyfreithiol hefyd yn peri pryder i berchnogion busnes, yn enwedig y rhai sy'n poeni am gostau posibl sy'n gysylltiedig â newidiadau polisi – megis y bydd yn ofynnol un diwrnod i dai bwyta newid o LPG i systemau coginio trydan.

## 3.6 Cyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd

Er bod newid yn yr hinsawdd yn amlwg yn golygu risg sylweddol i gymdeithas yng Nghymru, anogwyd trefnwyr y digwyddiadau i gynnwys trafodaeth ar y cyfleoedd a allai godi o newid yn yr hinsawdd neu weithredu ar yr hinsawdd. Yn yr holl ddigwyddiadau, nododd hwyluswyr fod yn rhaid annog cyfranogwyr i drafod cyfleoedd a allai godi o newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, nododd hwyluswyr fod cyfranogwyr yn gyffredinol yn ei chael yn anodd ymdrin â'r agwedd hon ar y sgwrs. Roedd cyfranogwyr yn tueddu i fod o’r farn fod effeithiau negyddol newid hinsawdd yng Nghymru yn gwrthbwyso unrhyw fanteision neu gyfleoedd a allai godi. Yn ogystal, gwnaeth rhai cyfranogwyr awgrymiadau na fyddai newid yn yr hinsawdd ond o fudd i grwpiau sydd eisoes yn gyfoethog yn ariannol dda eu byd. Roedd canfyddiadau y gallai rhai busnesau fanteisio ar y sefyllfa er mwyn elw, gan godi prisiau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel ynni, adeiladu a nwyddau fferyllol. Mae'r dyfyniad canlynol yn crynhoi'r teimladau cymhleth hyn:

*"Mae'r cyfoethog sy'n elwa ohono yn achosi newid yn yr hinsawdd trwy lenwi eu pocedi â mwy o arian ar draul y byd a mwy o bobl." (Unigolyn: Menter Môn; 24)*

*"[Dw i’n] credu y bydd unrhyw enillion tymor byr i rai grwpiau yn debygol o gael eu gwrthbwyso gan ganlyniadau hirdymor newid hinsawdd i bawb " (Unigolyn: Coleg Cambria; 10)*

Er hynny, mae'r is-adrannau canlynol yn amlygu’r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn a drafodwyd gan gyfranogwyr.

### 3.6.1 Twristiaeth a chynhyrchu bwyd

I'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, awgrymwyd y gallai newid yn yr hinsawdd olygu niferoedd mwy o ymwelwyr oherwydd tymheredd uwch, a thrwy hynny fod o fudd i'r economi leol. Awgrymwyd y gallai hyn ddigwydd oherwydd mwy o ddiddordeb gan ymwelwyr rhyngwladol yn ogystal â niferoedd uwch o ymwelwyr mewnol o Brydain. Er y gellid gweld mwy o dwristiaeth fel budd, nododd cyfranogwyr hefyd yr effeithiau negyddol y gallai fod yn gysylltiedig â nhw, er enghraifft codi prisiau tai neu niferoedd gormodol o ymwelwyr ac aflonyddwch cymunedol.

*"Cynnydd mewn twristiaeth = cynnydd mewn ffrydiau refeniw, cryfhau’r economi leol, cyfleoedd i gynhyrchion lleol a chynnydd mewn cyflogaeth o ansawdd uchel " (Unigolyn: EcoDewi; 16)*

Awgrymai cyfranogwr arall y budd posibl o dywydd poethach, a godwyd yn nigwyddiad CETMA, o safbwynt tymhorau tyfu hirach a'r cyfle i dyfu gwahanol rywogaethau o gnydau gyda gwanwyn cynharach a hafau hirach. Yn yr un modd, er y gall prosiectau tyfu bwyd fod

yn addasiad angenrheidiol i darfu posibl yn y cyflenwad bwyd, gallai addasu trwy fentrau lleol fel prosiectau tyfu bwyd – fel y rhai yn ystod cyfnod clo COVID-19 – wella cydlyniant cymunedol, sgiliau, parodrwydd, a hyrwyddo bwyta bwyd tymhorol a 'iachach'.

*"Mewn rhai ardaloedd gallai ffermwyr elwa o wanwyn cynharach a thymhorau cynnes hirach." (Sefydliad: CETMA; 8)*

### 3.6.2 Ynni ac arloesi

Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod prosiectau ynni ar lefel gymunedol yn nodweddiadol arloesol eu natur fel budd, gan gysylltu â thema ehangach a drafodwyd ymhlith rhai arloesiadau (ar lefel systemig, ymarferol neu dechnolegol) sydd wedi'u datblygu fel ymateb i newid yn yr hinsawdd.

*"Mae'r cysyniad mai angen yw tarddiad dyfeisio wedi ysgogi ymatebion creadigol a dyfeisgar i heriau hinsawdd mewn llawer o gymunedau." (Unigol: Cow Face Coaching; 13)*

Awgrymai rhai hefyd y gallai fod cynnydd mewn gweithgarwch economaidd mewn rhai sectorau, gyda chynnydd cysylltiedig mewn cyfleoedd swyddi. Awgrymwyd hefyd y gallai modelau perchnogaeth gymunedol a chadwyni cyflenwi lleol arwain at ddosbarthiad tecach o adnoddau a chyfoeth.

*"Trawsnewid i ffynonellau ynni adnewyddadwy, megis ynni gwynt, solar a llanw, sy'n creu swyddi newydd a hybu economïau lleol" (Unigolyn: Cymdeithas Chwaraeon Cymru; 54)*

*"Crybwyllwyd prosiect Ynysoedd Orkney fel enghraifft lle’r oedd manteision cymunedol yn cael eu dangos yn glir ac yn cael eu dosbarthu'n gyfartal." (Sefydliad: Llyfrgell Gyhoeddus y Gelli; 21)*

*"Ailadeiladu cymdeithas wrth ddatganoli cyflenwad ynni a dŵr, cynhyrchu bwyd yn fwy lleol, a chyflogaeth ar gael mewn cymunedau (yn lle’i fod wedi’i ganoli mewn dinasoedd mwy)" (Unigolyn: Down to Earth; 14).*

### 3.6.3 Cydlyniant cymunedol

Er bod newid yn yr hinsawdd yn dod â heriau sylweddol yn ei sgil, roedd sgyrsiau’n awgrymu y gallai hefyd feithrin mwy o gydlyniant cymunedol. Soniodd cyfranogwyr am sut y gall profiadau ar y cyd o galedi, megis yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, ennyn clymau lleol cryfach, yn enwedig pan fydd pobl yn troi at ei gilydd am gefnogaeth ac yn datblygu strategaethau a mentrau dan arweiniad y gymuned.

*"Mae newid yn yr hinsawdd wedi dod â chymunedau at ei gilydd, gan greu clymau cryfach yn wyneb heriau ar y cyd." (Unigolyn: Cow Face Coaching; 13).*

Fel yr amlinellwyd eisoes, awgrymodd cyfranogwyr y gallai prosiectau cymunedol megis rhai ar gyfer tyfu bwyd, fod yn addasiadau angenrheidiol mewn ymateb i effeithiau negyddol, fel tarfu ar gadwyni cyflenwi. Nododd y trefnwyr fod cyfranogwyr yn gweld cydlyniant cymunedol fel sgil-gynnyrch cadarnhaol o addasu i newid yn yr hinsawdd. Daeth

y thema hon i'r amlwg hefyd mewn trafodaethau ynghylch strategaethau lliniaru, megis cynhyrchu ynni lleol. Mae'r dyfyniad isod yn enghraifft o'r teimladau hyn o wahanol ddigwyddiadau.

*"[Gallai olygu] ailadeiladu cymuned... Wrth ddatganoli cyflenwad ynni a dŵr, cynhyrchu bwyd yn fwy lleol, a chyflogaeth ar gael mewn cymunedau ac nid wedi'i ganoli mewn dinasoedd mwy" (Unigolyn: Down to Earth; 14)*


## 3.7 Cyfathrebu a galluogedd

Mae'r adran hon yn crynhoi amryw o wahanol themâu a nodwyd yn yr adroddiadau sy'n berthnasol i strategaethau cyfathrebu rhwng sefydliadau a chymunedau lleol, gan gynnwys dulliau penodol i wella ymdeimlad o alluogedd a grymuso, a ddisgrifir yn aml fel rhywbeth sydd ar goll mewn cymunedau ac sy'n berthnasol i addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o drafodaeth ar sut mae'r bai am newid yn yr hinsawdd wedi'i briodoli ymhlith rhai grwpiau demograffig neu sefydliadau.

### 3.7.1 Addysg

Roedd sefydliadau yn awgrymu'n aml fod addysg hinsawdd yn gyfrwng pwysig i wella addasu yn y dyfodol. Roedd galw arbennig o gryf ac eang am addysg hinsawdd ymysg pob grŵp oedran, ac yn enwedig mewn digwyddiadau a drefnwyd gan ysgolion a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg. Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar addysg fel ateb allweddol yn ymestyn y tu hwnt i'r sector addysg ac fe'i hamlygwyd yn gyson mewn digwyddiadau dan arweiniad awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ymgynghorwyr a hwyluswyr, gan ddangos ei bwysigrwydd trawsbynciol.

**Ffigur 23: Llythyr at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau**




Disgrifiad o Ffigur 23: Mae'r llun yn cynnwys neges llawysgrifen wedi'i chyfeirio at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, sy'n mynegi cyfres o geisiadau gweithredu hinsawdd gan bobl ifanc. Mae'r nodyn yn eirioli dros blannu mwy o goed, lleihau prisiau bysiau i annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, ehangu mabwysiadu ynni adnewyddadwy, a chynyddu addysg hinsawdd. Mae'r negeseuon hyn yn adlewyrchu pryderon ieuenctid ac awydd am newid,

gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys lleisiau iau. (Unigolyn: Sustainability Sphere (Hinsawdd Plant); 45).

Yn ogystal ag addysg ffurfiol, roedd galwadau am ddysgu ymarferol a rhannu sgiliau, megis garddio, tyfu bwyd, a bod yn barod ar gyfer argyfwng. Roedd llawer o gymunedau wedi mynegi teimlad nad oedden nhw’n barod ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol ac maent yn chwilio am arweiniad clir, dealladwy. Yn gyffredinol, y farn oedd bod addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ffordd hanfodol o rymuso cymunedau a chefnogi gwydnwch hinsawdd ar lawr gwlad.

### 3.7.2 Strategaethau cyfathrebu – negeseuon cadarnhaol a gobeithiol

Roedd rhai cyfranogwyr yn mynegi pryder bod ardull negeseuon cyson am newid yn yr hinsawdd yn cynyddu pryder ac ofn, heb o reidrwydd hyrwyddo gweithredu cadarnhaol nac adeiladu gwydnwch. Awgrymwyd y dylid gwella’r ffordd o hyrwyddo atebion, straeon llwyddiant a chyfleoedd, ac y dylai ymgyrchoedd ddathlu gweithredu lleol a normaleiddio ymddygiadau cynaliadwy. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr o un digwyddiad yn galw am:

*"Sefydlu negeseuon optimistaidd ac adeiladol yn y cyfryngau ... ar gyfer dulliau marchnata creadigol ac effeithiol sy'n cysoni gwerthoedd diwylliannol â byw'n gynaliadwy a fydd yn helpu i normaleiddio arferion cynaliadwy" (Unigolyn: Cow Face Coaching; 13)*

### 3.7.3 Priodoli bai a chyfrifoldeb

Mewn rhai o'r gweithdai gyda chymunedau mwy gwledig, awgrymwyd bod ffermwyr yn derbyn bai annheg ac anghymesur am newid yn yr hinsawdd tra hefyd yn cael eu hystyried fel rhwystrau i weithredu yn yr hinsawdd. Er enghraifft, awgrymodd ffermwyr yng ngweithdy Doc Abergwaun fod amaethyddiaeth yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwleidyddol a bod y naratif ynghylch cynhyrchu bwyd yn cael ei ystumio, ar draul lles ffermwyr. Mynegwyd teimladau tebyg yng ngweithdy Coleg Sir Gâr:

*"Mae ffermio yn cael llawer o fai am hyn" (Unigolyn: Coleg Sir Gâr; 11)*

Yn yr un modd, bu rhai gweithdai yn trafod sut roedd lleiafrifoedd ethnig wedi cael eu beio'n annheg yn ystod argyfyngau yn fwy cyffredinol ac yn mynegi pryder am driniaeth anghyfiawn debyg yn ystod yr argyfwng hinsawdd. Er enghraifft, yn adroddiadau TEEMA a Sustainability Sphere, roedd cyfranogwyr yn amlygu sut roedd cymunedau lleiafrifol yn cael eu beio yn ystod argyfyngau (ee, yn ystod COVID-19) a'u heithrio o systemau cymorth. Roedd galwad gysylltiedig am gynllunio gwrth-hiliol a chyfathrebu cynhwysol i atal ymylu pellach yn ystod argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Roedd cyfranogwyr mewn sawl adroddiad hefyd yn mynegi dicter a bai tuag at sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys: tuag at y llywodraeth am ddiffyg gweithredu, rhagrith (e.e., hedfan wrth hyrwyddo gweithredu yn yr hinsawdd), a defnyddio newid yn yr hinsawdd fel "tacteg ddychryn" i reoli dinasyddion; tuag at gorfforaethau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â ffasiwn gyflym a thanwydd ffosil, am flaenoriaethu elw dros gynaliadwyedd; a thuag at y

cyfryngau am ganolbwyntio ar gyfrifoldeb unigol yn hytrach na phriodoli ehangach yn ogystal â lledaenu teimladau o ofn a phryder.

**Ffigur 24: Ffigurau adnabyddus a diraddio amgylcheddol**

On the twelfth day of Christmas my true foe gave to me...

Twelve Donald Trumps, Eleven Elon Musks, Ten tons of carbon,

Disgrifiad o Ffigur 24: Detholiad o elfen greadigol ysgrifenedig o'r enw True Foe sydd wedi'i hysbrydoli gan y *The Twelve Days of Christmas*, lle maent yn meddwl am ddeuddeg ffordd o barhau i fod yn angharedig. Mae'r gwaith ysgrifenedig yn beirniadu diffyg gweithredu amgylcheddol a rolau canfyddedig unigolion adnabyddus (gwir elynion) mewn disgwrs hinsawdd, gan groestorri diwylliant, gwleidyddiaeth a galluogedd. (Unigolyn a Sefydliad: Cyswllt Celf; 3).

### 3.7.4 Galluogedd: Grymuso a Chyfranogi

Bu rhai cyfranogwyr yn trafod ymdeimlad o ddiffyg grym a galluogedd, gan adrodd ymdeimlad o rwystredigaeth a theimlo'n ddiymadferth i weithredu newid go iawn. O ganlyniad, trafodwyd awydd cryf i rymuso gweithredu ar lawr gwlad a phroses fwy cynhwysol o wneud penderfyniadau. Roedd pobl yn sôn am fod eisiau bod yn rhan o lunio atebion, nid dim ond bod yn dderbynwyr ohonynt.

*"Mae angen atebion creadigol arnom nid cyfarwyddiadau o'r brig i lawr... Mae angen sgyrsiau sy'n dod o'r cymunedau yn hytrach na chwestiynau caeedig."*
*(Unigolyn: Celfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer; 23)*

*"Mae angen arnom – am arian; llais, grym lleol, gwybodaeth ac arbenigedd technegol, profiad o drefnu cymunedol ... Rhoi mwy o lais i bobl leol."*
*(Unigolyn: EcoDewi; 16)*

Ymddengys fod teimladau o'r fath yn arbennig o gryf ymhlith pobl ifanc, a oedd yn amlygu eu hunain mewn galwadau am chwarae mwy o ran mewn addasu, megis trwy fyrddau cynghori ieuenctid, dadleuon, ac ymgyrchu yn yr ysgol.

*"Mae creu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu teimlad o rym ac effeithiolrwydd gwleidyddol yn hanfodol... Byddai dadleuon, cynulliadau cymunedol, a thrafodaethau bord gron mewn ysgolion a cholegau yn helpu."*
*(Unigolyn: Coleg Sir Gâr; 11)*

Fodd bynnag, dywedodd grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac incwm isel eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu hallgáu o benderfyniadau a mynediad at wybodaeth. Wrth gael eu heithrio, mae lleiafrifoedd ethnig ac incwm isel yn cael eu dadrymuso,

*"Nid yw pob aelod o'r gymuned yn mynd i'r Llyfrgell Ganolog i weld y pethau hyn... Mae yna grwpiau bregus o hyd nad ydynt yn cael mynediad at wybodaeth gyfoes."*
*(Unigolyn: Sustainability Sphere - Lleiafrifoedd Ethnig; 44)*

Fe wnaeth y cyfranogwyr gyfleu negeseuon craidd i Lywodraeth Cymru drwy ddarlunio teimladau ymgyrchwyr. Dadleuai gweithdy Celfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer fod celf yn ganolbwynt newid oherwydd ei fod yn dangos profiadau bywyd, gan alw am ystyried celf fel cyfalaf cymdeithasol a'i gynnwys mewn gweithredu ac addasu i’r hinsawdd. Daeth enghraifft arall o'r fath gan yr Urdd (Gwersyll Pentre Ifan), lle mae'r cyfranogwyr yn annog y gwyliwr i gofio mai 1.5°C yw'r terfyn, gan ddefnyddio lliwiau a llythrennau bras

**Ffigur 25: Llun yn dangos ymgyrchu dros yr hinsawdd**




Disgrifiad o Ffigur 25: Darlun llawn patrymau a siapiau haniaethol yn amgylchynu neges ganolog sy'n galw am weithredu yn erbyn cynhesu byd-eang. Mae'r cyflwyniad artistig yn tanlinellu brys a phwysigrwydd y trothwy, gan gyfuno mynegiant creadigol ac eiriolaeth. (Unigolyn: Yr Urdd (Gwersyll Pentre Ifan; 57).

# 4. Casgliad thematig – galwadau am Wydnwch Hinsawdd

Mae'r adroddiad hwn yn datgelu darlun cymhleth o sut mae cymunedau ledled Cymru yn gweld newid yn yr hinsawdd a sut maen nhw'n meddwl y dylen nhw, eu cymunedau, a'r llywodraeth ymateb. Gan fod y trafodaethau wedi canolbwyntio ar y ffordd orau y gall cymunedau fynd ati i addasu i newid yn yr hinsawdd, dyma oedd un o'r meysydd trafod cryfaf. Mynegodd cyfranogwyr eu pryderon am risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, stormydd ac amharu ar gyflenwadau bwyd. Soniwyd am dywydd poeth a sychder hefyd, ond roeddent yn llawer llai amlwg. Er bod pryderon yn eang, datgelodd trafodaethau mai cyfyngedig o hyd oedd y parodrwydd am y peryglon ar lefel bersonol a chymunedol, gyda llawer o unigolion yn teimlo'n ddiymadferth ac yn ansicr ynghylch y ffordd orau o fynd ati i amddiffyn eu hunain. Roedd yr ymdeimlad hwn o fregusrwydd yn mynd law yn llaw yn aml â rhwystredigaeth ynghylch annigonolrwydd cynllunio gan sefydliadau.

Mae thema amlwg yn y sgwrs yn cyflwyno newid yn yr hinsawdd fel argyfwng cyson (lled-drychinebus). Felly, roedd pobl yn mynegi angen i amddiffyn eu cartrefi a'u cymunedau rhag risgiau hinsawdd. Roedd hyn yn cynnwys mesurau i ddiogelu eu heiddo rhag llifogydd, tra bod cyfranogwyr yn archwilio hefyd sut y gallai cymunedau leihau dibyniaeth ar systemau canolog bregus trwy fynd ati i gynhyrchu bwyd ac ynni lleol. Roedd gerddi cymunedol, rhandiroedd, a phrosiectau tyfu ar raddfa fach yn cael eu hystyried fel ffyrdd o adeiladu diogelwch bwyd a sgiliau, tra bod systemau ynni datganoledig fel gosodiadau solar ar ffermydd a chynlluniau sy'n eiddo i'r gymuned yn cael eu disgrifio fel rhai hanfodol ar gyfer gwydnwch a grymuso. Mae'r thema hon o hunangynhaliaeth sy’n dod i’r amlwg yn deillio o weledigaeth ymhlith rhai o senario hinsawdd yn y dyfodol sy’n effeithio’n ddifrifol ar gymdeithas lle na ellir dibynnu ar nwyddau a gwasanaethau allanol yn yr un modd ag y mae pobl wedi arfer â nhw. Hefyd yn gysylltiedig â hyn, dylid nodi nad oedd yr adroddiad yn gwahaniaethu rhwng yr ymateb brys i ddigwyddiadau ar y naill law ac addasu ar y llaw arall, a allai adlewyrchu cyfranogwyr yn gweld yr agweddau hyn fel rhan o addasu.

Fel y soniwyd gan ychydig o drefnwyr, roedd sgyrsiau addasu yn aml yn cynnwys trafodaethau am ddulliau o liniaru newid hinsawdd. Roedd y diffyg gwahaniaethu rhwng y ddau yn amlwg yn y math o weithredu a awgrymwyd, sy'n cynnwys mesurau addasu i'r hinsawdd a mesurau lliniaru. Felly, er bod sefydliadau yn cael eu harwain i ganolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd, roedd cyfranogwyr yn cyfleu awydd i ganfod ffyrdd o gyflawni gwydnwch hinsawdd trwy gryfhau eu gwydnwch unigol a chymunedol i ddygymod â'r amrywiaeth o risgiau newid yn yr hinsawdd. Er bod llawer o gyfranogwyr fe pe baen nhw’n gweld addasu yr un peth â lliniaru, datgelodd y canfyddiadau hefyd y gall y cydgyfeirio hwn o bosibl ddangos awydd am ddulliau cyfannol sy'n lleihau allyriadau a bregusrwydd.

Roedd elfen arall o fesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a drafodwyd yn ymwneud â chreu mannau cymunedol a allai weithredu fel hafanau diogel yn ystod digwyddiadau eithafol. Roedd y lleoedd hyn yn cael eu gweld fel canolfannau hygyrch, addas a chynhwysol sy'n cynnig cynhesrwydd, bwyd, dŵr a chymorth cymdeithasol. Yn fwy eang,

tynnodd cyfranogwyr sylw at werth cryfhau rhwydweithiau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol fel rhan o wydnwch hinsawdd. Ar yr un pryd, nodwyd yr angen am well cynllunio argyfwng ar lefel aelwydydd a chymunedol, gan gynnwys pentyrru nwyddau wrth gefn, cynlluniau gwacáu, a grwpiau cydlynu lleol.

Cafodd rhwystrau rhag gweithredu ar yr hinsawdd, yn benodol lliniaru newid hinsawdd, eu trafod yn helaeth hefyd, gydag anghydraddoldeb ariannol, rheoliadau cynllunio cyfyngol, a diffyg gweithgarwch cynhwysol yn cael eu hamlygu fel rhwystrau mawr. Roedd y materion hyn yn cael eu teimlo fwyaf gan grwpiau ymylol. Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu diwylliannol-sensitif, cymorth hawdd ei gael, a darparu adnoddau mewn ffordd decach i sicrhau nad yw mesurau addasu yn atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol. Yn ogystal, mynegodd rhai cyfranogwyr amheuaeth neu wrthwynebiad i agweddau ar bolisi hinsawdd presennol, gan gynnwys pryderon ynghylch dibynadwyedd systemau ynni adnewyddadwy, a sinigiaeth ymhlith rhai mewn perthynas â negeseuon y llywodraeth.

Er bod y sgyrsiau yn canolbwyntio i raddau helaeth ar risgiau a heriau, roedd y pecyn ar gyfer trefnwyr yn cynnwys cwestiwn ar gyfleoedd posibl a allai godi oherwydd newid yn yr hinsawdd. Er bod rhai cyfranogwyr yn ei chael yn anodd i nodi unrhyw gyfleoedd, roedd eraill yn tynnu sylw at nifer gyfyngedig, gan gynnwys tymhorau tyfu hirach, cynnydd mewn twristiaeth, mentrau bwyd lleol a chryfhau cadwyni cyflenwi lleol. Mae rhai hefyd yn tynnu sylw at sut, yn wyneb adfyd, y gallai ymdrechion ar y cyd arwain at fwy o arloesedd a chydlyniant cymunedol cryfach.

Nodwyd addysg yn gyson fel elfen hanfodol er mwyn adeiladu gwydnwch, law yn llaw â strategaethau cyfathrebu gwell sy'n symud oddi wrth negeseuon sy'n seiliedig ar ofn a thuag at naratifau gobeithiol, sy'n canolbwyntio ar atebion. Yn gysylltiedig â hyn roedd galwad gref am fwy o alluogedd a grymuso, gyda phobl yn mynegi awydd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Er gwaethaf yr heriau a drafodwyd, mae'r canfyddiadau ar y cyfan yn awgrymu awydd cryf i weithredu - yn enwedig ar gyfer mentrau ymarferol, cymunedol sy'n cyfuno diogelu cartrefi a seilwaith gydag ymdrechion i gryfhau clymau cymdeithasol ac adeiladu gwydnwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

# 5. Adborth ar y digwyddiadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella

## 5.1 Adborth ar y digwyddiadau

### 5.1.1 Adborth cadarnhaol

Roedd cyfranogwyr yn canmol y digwyddiadau am ddarparu awyrgylch groesawgar a chynhwysol, lle roedd ieuenctid ac oedolion yn teimlo'n ddiogel i rannu eu barn yn agored, gyda hwyluswyr yn cael eu cydnabod am greu mannau parchus a oedd yn annog deialog a chyd-ddealltwriaeth.

Roedd rhai digwyddiadau yn sefyll allan hefyd am eu fformatau creadigol a rhyngweithiol, gan ddefnyddio gweithgareddau fel teithiau cerdded natur, celf, adrodd straeon, gwneud modelau, a cherddoriaeth i sbarduno ymateb a thrafod. Yn ôl y trefnwyr, roedd y dulliau hyn, yn ogystal â gwneud y sesiynau yn bleserus, yn helpu cyfranogwyr i fyfyrio ynghylch eu hemosiynau a dychmygu dyfodol gobeithiol ond realistig.

*"Mae integreiddio celf, adrodd straeon a chrefftau natur wedi helpu cyfranogwyr i brosesu eu hemosiynau a dychmygu dyfodol gobeithiol ond realistig." (Sefydliad: Outside Lives Ltd; 30)*

Mae’n bwysig nodi bod y gweithdai’n cael eu hystyried fel digwyddiadau a oedd yn grymuso, ac yn arfogi mynychwyr gyda'r hyder a'r dulliau ymarferol i weithredu ar faterion yn ymwneud â’r hinsawdd yn eu cymunedau eu hunain.

*"Gadawodd cyfranogwyr nid yn unig gyda mwy o ymwybyddiaeth, ond syniadau pendant ar gyfer gweithredu cymunedol - o fentrau tyfu bwyd lleol i amddiffyn cymdogion agored i niwed yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol." (Sefydliad: Clwb Rotari Llanelli; 35)*

### 5.1.2 Cyfyngiadau a heriau’r sgyrsiau hinsawdd

Fodd bynnag, roedd nifer o gyfyngiadau a heriau i'r digwyddiadau hefyd. Yn ôl y sôn, roedd presenoldeb isel yn broblem mewn rhai digwyddiadau. Awgrymwyd hefyd bod eu cynnal ar ddechrau'r flwyddyn yn cyfyngu ar y rhai a gymerodd rhan. Roedd rhai gweithgareddau hefyd yn ei chael yn anodd ennyn diddordeb cynulleidfa eang, gyda gwahanol ddigwyddiadau yn y sefydliad (y tu allan i drafodaethau’r Gronfa) yn aml yn denu'r un math o gyfranogwyr (rhai’r oeddent wedi arfer eu gweld mewn digwyddiadau neu sgyrsiau eraill) yn hytrach na grwpiau newydd neu fwy amrywiol.

Pryder arall oedd cymhlethdod a dieithrwch yr iaith a ddefnyddiwyd, gyda rhai cyfranogwyr yn adrodd eu bod yn gweld cwestiynau yn rhy eiriog neu'n anodd eu deall. Yn yr un modd, awgrymwyd bod y cwestiynau a'r pwnc i rai yn eithaf amwys neu haniaethol. Er enghraifft, pa amserlen oedd yn cael ei thrafod, sut i ddiffinio effaith fel un sy'n benodol gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, neu beth allai "manteision" newid yn yr hinsawdd fod.

*"Roedd rhai o'r cwestiynau yn eithaf geiriog a hefyd yn gofyn cwestiynau tebyg gyda gogwydd ychydig yn wahanol." (Sefydliad: Prifysgol Metropolitan Caerdydd; 7)*

*"Roedd nifer o gyfranogwyr yn dweud bod rhai o'r cwestiynau yn teimlo ychydig yn rhyfedd neu'n lletchwith neu'n anghyfforddus." (Sefydliad: Prosiect Gerddi Byd-eang; 19)*

Yn ogystal, roedd pryderon am dryloywder, gyda chyfranogwyr eisiau gwybodaeth gliriach ar sut y byddai eu hadborth yn cael ei ddefnyddio ac a fyddai canlyniadau'n cael eu cyfleu yn ôl iddynt.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol

Ar sail yr uchod, yn ogystal â chynigion ychwanegol a awgrymwyd gan gyfranogwyr a sefydliadau, dyma rai ystyriaethau a awgrymir ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol:

- Defnyddio iaith glir a hawdd ei deall ym mhob cwestiwn, gan osgoi jargon a theilwra ymadroddion i weddu i wahanol grwpiau oedran. Sicrhau bod cwestiynau yn gryno ac yn hawdd eu deall i hwyluso ymateb gan gyfranogwyr.
- Neilltuo digon o amser a hyblygrwydd o fewn sesiynau i alluogi creadigrwydd, trafodaeth fanwl, a, lle bo hynny'n briodol, cyflwyno rhaglenni aml-sesiwn.
- Darparu digon o amser ymlaen llaw rhwng cymeradwyo cyllid a chyflawni digwyddiadau i gefnogi cynllunio effeithiol a chydgyfeirio ag amserlenni cymunedol.
- Ymgorffori opsiynau cyfranogiad hybrid ac ar-lein er mwyn gwella hygyrchedd a chyrraedd cynulleidfa ehangach.
- Cyfleu'n glir sut y bydd safbwyntiau cyfranogwyr yn cael eu defnyddio, a sicrhau bod canlyniadau'n cael eu rhannu â chyfranwyr yn dilyn y digwyddiad.
- Datblygu a gweithredu mecanweithiau dilynol i gynnal momentwm, casglu adborth pellach, ac annog mentrau dan arweiniad y gymuned.

# Atodiad A: Rhestr o adroddiadau digwyddiadau er gwybodaeth

**Tabl 1: Rhestr o ddigwyddiadau, neu lleoliad(au), dyddiad(au) a nifer y cyfranogwyr er gwybodaeth**

| Rhif Cyfeirnod Unigryw | Trefnydd | Lleoliad | Dyddiad | Nifer y Cyfranogwyr |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Hyfforddiant ACT | Cynon Valley Organic Adventures | 05/12/2024, 16/01/2025 | 40 |
| 2 | Ysgol yr Holl Saint | Ysgol yr Holl Saint, Gresffordd, | 09/01/2025 | 265 |
| 3 | Arts Connection - Cyswllt Celf | Mencap; Caffi Celf Ieuenctid Llanfyllin; Marchnad Nadolig Llanfyllin; Grŵp Rhieni, Llanfyllin; Grŵp Cymunedol, Llanfyllin | [Nodyn 1] | 81 |
| 4 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Ystafell Hibbert, Parc Gwledig Craig-y-nos | 09/01/2025 | 11 |
| 5 | Ton Fawr | Coleg Ceredigion; Oriel London Place; Zoom; Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 03/12/2024 , 08/12/2024, 04/01/2025, 05/01/2025 | 49 |
| 6 | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 07/07/2025 - 10/01/2025 | 70 |
| 7 | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Ysgol Rheolaeth Caerdydd, Caerdydd | 27/01/2025 | 70 |
| 8 | CETMA | Caerfyrddin; Llanelli; Cydweli | 11/11/2024, 15/11/2024, 22/11/2024, 23/11/2024, 25/11,2024 | 53 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Fferm Ofal Clynfyw | Tafarn Saith Seren, Llechryd | 01/2025 | 50 |
| 10 | Coleg Cambria | Glanrafon, Hafod, Coleg Cambria Iâl, Wrecsam; Derbynfa, Coleg Cambria Glannau Dyfrdwy, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint; Yr Accre, Canolfan Gymunedol, Coleg Cambria Llysfasi, Rhuthun, Sir Ddinbych; Canolfan Adnoddau Dysgu, Coleg Cambria Llaneurgain, Llaneurgan; Coleg Cambria Wrecsam | 11/11/2024, 12/11/2024, 13/11/2024, 14/11/2024, 15/11/2024 | 28 |
| 11 | 4theRegion a Coleg Sir Gar | Coleg Sir Gâr | [Nodyn 1] | 153 |
| 12 | Coop and HZ Consulting | Anhysbys | 02/01/2025 | 8 |
| 13 | Cow Face Coaching Ltd | Anhysbys | 11/12/2024, 06/1/2025 | 36 |
| 14 | Down to Earth | Canolfan Hyfforddi Bryn Gwyn Bach ar ogledd Penrhyn Gwyr | 17/12/2024, 06/01/2025, 13/01/2025 | 21 |
| 15 | Biosffer Dyfi | Llew Gwyn, Tal-y-bont | 16/12/2024 | 26 |
| 16 | EcoDewi | Ysgol Uwchradd Bro Dewi, Penrhyn Dewi, Tyddewi | 16/01/2025, 19/01/2025 | 34 |
| 17 | Cynghrair Gymunedol F.A.N | Friends And Neighbours Centre, Castell-nedd | 04/01/2025 | 41 |
| 18 | Geospatial Environmental Solutions | Prifysgol De Cymru | [Nodyn 1] | 77 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 19 | Prosiect Gerddi Byd-eang / Prosiect y Drindod | Waterloo Tea | 11/12/2024 | 10 |
| 20 | Grwp Resilience | Ysgubor Cilgwyn, Cilgwyn; The Jolly Sailor, Burton | 05/12/2024, 28/12/2024 | 32 |
| 21 | Menter Gwydnwch Cymunedol y Gelli (Llyfrgell Gyhoeddus y Gelli) | Llyfrgell Gyhoeddus y Gelli, y Gelli Gandryll | 18/01/2025 | 48 |
| 22 | KIDCARE4U | Pill, Newport | 06/12/2024, 14/12/2024 | 230 |
| 23 | Celfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer | Canolfan Celfyddydau Cymunedol Neuadd Llanofer | 17/01/2025 | 21 |
| 24 | Menter Môn | [Nodyn 1] | 09/12/2024 | 55 |
| 25 | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | Clwb Golff Morlais; Kevin Ryan Court, Georgetown; Clwb Bechgyn a Merched Treharris | 06/12/2024, 07/12/2024, 09/12/2024 | 31 |
| 26 | Mind on Music CIC | Gardd Haulfre, Amlwch | 25/11/2025 | 37 |
| 27 | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | Theatr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 09/01/2024 | 170 |
| 28 | Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru | Canolfan Affricanaidd a Charibïaidd Bangor, Bangor | 30/11/2024 | 26 |
| 29 | Omidaze Productions Ltd | Talking Shop, Y Coed Duon, Caerfffili | 09/12/3034 - 14/12/2024; 06/01/2025 - 11/01/2025 | 384 |
| 30 | Outside Lives Ltd | Clwb Rygbi yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug | 27/11/2024, 4/12/2024 | 80 |
| 31 | Play Disrupt (Partneriaeth PMP) | Clwb Pêl-droed Llangefni, Llangefni | 13/11/2024 | 25 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 32 | Gweithredu Powys ar yr Argyfwng Hinsawdd | Ar-lein | 07/12/2024 | 36 |
| 33 | Razbio | Ar-lein | 23/11/2024 | 41 |
| 34 | Adnewyddu Sir Ddinbych CIC | [Nodyn 1] | [Note 1] | 52 |
| 35 | QUEST for Future Solutions (Clwb Rotari Llanelli) | Cymuned Canolfan Gwilli, Hendy, Llanelli; Foothold Cymru ac Ymddiriedolaeth Siec Nwyddau Rheilffordd Llanelli; Rotary Brynmawr; Llama yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli | [Note 1] | 82 |
| 36 | Safe Online Space Cymru | Canolfan Gymunedol Butetown, Caerdydd | 30/11/2024 | 103 |
| 37 | Sazani Associates | O amgylch gorllewin Cymru, gan gynnwys eu swyddfa | 27/11/2024 - 16/12/2024 | 100 |
| 38 | Cymdeithas Ddiwylliannaol Islamaidd Cymru Abertawe (Mosg a Chanolfan Gymdeithasol Sgeti (WICAS)) | Clwb Ieuenctid Sgeti; Lolfa Mosg Sgeti | 20/12/2024, 21/12/2024 | 233 |
| 39 | Sophie Hadaway - Cellan a Llanfair Clydogau | Neuadd y Mileniwm Cellan, Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion | 15/01/2025 | 14 |
| 40 | Sophie Hadaway – Coedwig Gymunedol Longwood | Coedwig Gymunedol Longwood, Ceredigion | 22/01/2025 | 7 |
| 41 | Sophie Hadaway - Ysgol Y Dderi ac Ysgol Bro Pedr | Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion; Ysgol Y Dderi, Llangybi, Ceredigion | 06/11/2024 (Y Dderi) and 04/12/2024 (Bro Pedr) | 129 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 42 | Gwirfoddolwyr Cymuned Sblot | Canolfan STAR, Sblot, Caerdydd | 22/11/2024 | 18 |
| 43 | Stump Up For Trees | [Nodyn 1] | 07/01/2025 | 27 |
| 44 | Sustainability Sphere – Lleiafrifoedd Ethnig | Grangetown, Caerdydd | 09/12/2024, 18/12/2024 | 15 |
| 45 | Sustainability Sphere – Hinsawdd Plant | Tŷ yn yr ardal; Pafiliwn Grangetown | 07/12/2024, 04/01/2025 | 18 |
| 46 | Cymru Gynaliadwy a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) | Cwmni Cydweithredol Cymunedol SUSSED, Porthcawl; Neuadd Bentref Aberogwr | 24/1/2025, 26/1/2025 | 58 |
| 47 | SwanseaCAN (Rhwydwaith Gweithredu ar yr Hinsawdd) | Stadiwm Swansea.com yn Lolfa Cymdeithas Adeiladu Abertawe | [Nodyn 1] | 33 |
| 48 | MAD Abertawe | MAD Abertawe; Canolfan Gymunedol Pennard | 15/11/2024, 19/11/2024 | 33 |
| 49 | BioHYB Cynhyrchion Naturiol – Prifysgol Abertawe | Abaty Singleton, Campws Singleton, Prifysgol Abertawe | 27/11/2024 | 27 |
| 50 | TEEMA | Prifysgol De Cymru, Campws Casnewydd | 09/12/2024, 10/01/2025 | 11 |
| 51 | Cyngor Tref Dinbych-y-Pysgod | Neuadd Gymunedol Augustus Place, Dinbych-y-Pysgod | 15/11/2024, 22/11/2024 | 15 |
| 52 | The Essential Expert | Kyffin Café, Bangor | 17/12/2024 | 37 |
| 53 | Canolfan Gymunedol Twynyrodyn | Canolfan Gymunedol Twynyrodyn, Twynyrodyn, Merthyr Tudful | 08/01/2025 | 19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 54 | Cymdeithas Chwaraeon Cymru | Theatr Glan yr Afon, Casnewydd | 12/11/2024 | 90 |
| 55 | XR Wrecsam | [Nodyn 1] | [Note 1] | 35 |
| 56 | Youth Cymru | Arlein; Vindico Arena | 22/01/2025, 31/01/2025 | 89 |
| 57 | Yr Urdd (Gwersyll Pentre Ifan) | Gwersyll yr Urdd Pentre Ifan, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro | 21/11/2024 | 28 |
| 58 | Caffi Trwsio Llanelli | Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd | 16/11/2024 | 65 |
| 59 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Digwyddiad 1 – Busnesau | Anhysbys | 13/11/2024 | 17 |
| 60 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Digwyddiad 2 | Tŷ Pawb, Wrecsam | 12/11/2025 | 3 |
| 61 | M-SParc | Parc Gwyddoniaeth Menai | 7/1/2025, 14/1/2025 | 35 |
| 62 | WAN Cymru – Rhwydwaith Eirioli Merched | Pafiliwn y Grange yn Grangetown, Caerdydd | 07/12/2024, 12/12/2024, 19/12/2024 | 48 |

[Nodyn 1]: Gwybodaeth anhysbys.

# Atodiad B: Cyfranogwyr fesul prif ardal

**Tabl 2: Nifer o fynychwyr fesul prif ardal**

| Prif Ardal | Nifer y Mynychwyr |
|---|---|
| Ynys Môn | 115 |
| Blaenau Gwent | 16 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 128 |
| Caerffili | 384 |
| Caerdydd | 392 |
| Sir Gaerfyrddin | 386 |
| Ceredigion | 125 |
| Sir Ddinbych | 52 |
| Sir y Fflint | 84 |
| Gwynedd | 107 |
| Castell-nedd Port Talbot | 52 |
| Casnewydd | 331 |
| Sir Benfro | 380 |
| Powys | 129 |
| Rhondda Cynon Taf | 117 |
| Abertawe | 347 |
| Bro Morgannwch | 50 |
| Wrecsam | 344 |
| Digwyddiad Ar-lein | 77 |
| Anhysbys | 171 |

# Atodiad C: Methodoleg Fanwl

Cynlluniwyd methodoleg Eunomia o gwmpas y cwestiynau ymchwil, a oedd yn sicrhau dull cadarn a thryloyw o ymdrin â'r dadansoddiadau meintiol ac ansoddol. Roedd y cwestiynau ymchwil canlynol yn arwain ein dull gweithredu, fodd bynnag, yn ystod y dadansoddiad daeth yn amlwg na ellir ateb pob cwestiwn ar sail yr adroddiadau, oherwydd y cyfyngiadau a drafodwyd yn yr Methodoleg a.

1) Ynglŷn â'r digwyddiadau a'r cyfranogwyr:
   - Beth ellir ei ddweud am ddemograffeg y cyfranogwyr, lleoliadau digwyddiadau, a'r trefnwyr fu wrthi? Beth ellir ei ddweud ynghylch pa mor gynrychioliadol ydyn nhw o boblogaeth Cymru?
2) Pryder ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd:
   - Pa mor bryderus yw cyfranogwyr am newid yn yr hinsawdd, neu eu hardaloedd (yn seiliedig ar ddata meintiol o'r holiadur cyn y digwyddiad)?
   - Sut mae trefnwyr yn asesu ac yn disgrifio graddau gwybodaeth cyfranogwyr ynghylch effeithiau newid yn yr hinsawdd (ar sail data ansoddol)? Beth, os oes rhywbeth, sy'n cael ei adrodd a beth yw canfyddiad cyfranogwyr o amserlen effeithiau hinsawdd yn eu hardal leol?
3) Canfyddiadau ynghylch Addasu i'r Hinsawdd:
   - Sut mae trefnwyr yn asesu ac yn disgrifio dealltwriaeth cyfranogwyr o addasu i'r hinsawdd, a sut mae'n cael ei wahaniaethu (neu ei gyfuno) â lliniaru? Pa fframiau o weithredu newid hinsawdd sy'n amlwg yn y trafodaethau?
   - A allwn ni ddweud unrhyw beth am sut y gallai'r rhain amrywio rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth?
4) Risgiau Hinsawdd a pha mor Barod Amdanynt:
   - Pa risgiau/effeithiau hinsawdd penodol sy'n cael eu nodi a sut mae'r adroddiadau yn disgrifio pa mor barod mae unigolion, aelwydydd a chymunedau yn ei deimlo ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol?
   - Pa gamau, yn ôl adroddiadau, mae cyfranogwyr eisoes yn eu cymryd, neu'n credu y dylent eu cymryd, i addasu?
   - Sut mae cryfderau a gwendidau cymunedau wrth addasu i newid yn yr hinsawdd yn cael eu disgrifio?
   - Pa fath o adnoddau, gwybodaeth neu gymorth mae'r adroddiadau yn awgrymu bod eu hangen i gymunedau addasu, sy'n cael eu crybwyll? A oes enghreifftiau o fentrau lleol neu straeon llwyddiant a allai lywio polisi ehangach?
5) Tegwch a Chyfiawnder Cymdeithasol:
   - Beth ellir ei ddweud ynghylch pa boblogaethau neu gymunedau sy'n cael eu gweld gan gyfranogwyr fel rhai mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf arnynt, a pham?
   - Pa rwystrau y bernir bod y grwpiau hyn yn eu hwynebu wrth addasu i newid yn yr hinsawdd?
   - Pa awgrymiadau y mae cyfranogwyr neu drefnwyr yn eu cynnig ar gyfer sicrhau tegwch mewn polisïau a chymorth addasu? A oes unrhyw gyfleoedd yn sgil newid yn

yr hinsawdd yn cael eu crybwyll, a phwy sy'n cael ei ystyried eu bod yn y sefyllfa orau i elwa?

6) Trafod a Chyfathrebu:
    - Pa adborth a ddarperir yn yr adroddiadau'r Sgyrsiau Hinsawdd am y broses ei hun? e.e. beth oedd yn gweithio'n dda, beth nad oedd yn gweithio cystal?
    - Pa awgrymiadau a wneir ar gyfer gwella ffyrdd o ymgynghori yn y dyfodol (e.e. strwythur digwyddiadau, hwyluso, deunyddiau cyfathrebu) a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi a chyfathrebu â chymunedau yn well ar addasu i'r hinsawdd?
7) Goblygiadau Polisi a Rhaglenni:
    - Pa themâu neu wybodaeth sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau a allai helpu arwain datblygiad polisïau addasu i'r hinsawdd yn y dyfodol? A oes negeseuon neu argymhellion penodol sy'n ymwneud â llunio polisi neu raglenni?
8) Ar sail arbenigedd a phrofiad Eunomia:
    - Sut y gellir defnyddio'r canfyddiadau i lunio cylch nesaf y gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd ac Wythnos Hinsawdd Cymru?
    - Sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi a chyfathrebu â chymunedau yn well ar addasu i'r hinsawdd?

Dechreuodd y broses gydag adolygiad o'r daenlen o ddigwyddiadau ac adroddiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, datblygodd tîm Eunomia gronfa ddata ganolog i gatalogio'r holl adroddiadau. Gwasanaethodd y gronfa ddata hon fel canolbwynt ar gyfer dadansoddi, ac fel adnodd olrhain i fonitro cynnydd y tîm drwy gydol y prosiect.

Roedd dull dadansoddol Eunomia yn gweithredu dadansoddiad diddwythol (o'r brig i lawr) ac anwythol (o'r gwaelod i fyny), gyda chefnogaeth dadansoddiad thematig cadarn i nodi ac archwilio'r naratifau. Dadansoddwyd setiau data creadigol, megis paentiadau a cherddi, ar wahân trwy ddefnyddio elfennau o ddadansoddi disgwrs, gan ein galluogi i ddal rhinweddau mynegiannol unigryw y fformatau hyn. Ar gyfer y dadansoddiad, defnyddiodd Eunomia Dedoose - meddalwedd i ddadansoddi data dulliau cymysg.

Er mwyn sicrhau cysondeb a thrylwyredd yr ymchwil, gwnaethom gynnal prawf peilot gan ddefnyddio codau diddwythol rhagarweiniol sy'n cyd-fynd yn agos â'r cwestiynau ymchwil. Mae ymchwilwyr lluosog wedi codio'r un clwstwr o adroddiadau, gan alluogi'r tîm i asesu cysondeb mewn dehongli. Yn dilyn y peilot, cynhaliodd Eunomia weithdy mewnol i gysoni arddulliau codio a mireinio ein fframwaith. Roedd y strwythur codio terfynol sy'n deillio o hynny yn cynnwys 15 prif god a 72 is-god.

Dadansoddwyd cyfanswm y set o 62 o adroddiadau yn thematig gan ddefnyddio'r fframwaith diwygiedig. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r codau a ddefnyddir, nifer y darnau a gafodd eu codio yn erbyn pob cod, a nifer yr adroddiadau lle ymddangosodd pob cod. Anogwyd y tîm hefyd i ychwanegu codau newydd o themâu newydd sy'n dod i'r amlwg, a drafodwyd mewn cyfarfodydd wythnosol mewnol cyn eu cynnwys. Rhwng popeth, cymhwysodd Eunomia gyfanswm 8,686 o godau ar draws 1,727 o ddetholiadau.

**Tabl 3: Codau a'u hamlder mewn adroddiadau**

| Prif God | Is-God | Nifer y detholiadau a gafodd eu codio | Nifer y dogfennau a gafodd eu codio |
|---:|---:|---:|---:|
| Gweithredu ar Addasu | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 610 | 68 |
| Gweithredu ar Addasu | Cymorth ariannol | 110 | 34 |
| Gweithredu ar Addasu | Arall | 7 | 4 |
| Gweithredu ar Addasu | Cynllunio neu Arwain | 23 | 13 |
| Gweithredu ar Addasu | Diogelu iechyd a llesiant | 89 | 32 |
| Gweithredu ar Addasu | Amddiffyn seilwaith | 111 | 37 |
| Gweithredu ar Addasu | Amddiffyn adnoddau | 189 | 48 |
| Gweithredu ar Addasu | Amddiffyn y cartref | 112 | 45 |
| Gweithredu ar Addasu | Lleihau effaith i wahanol grwpiau | 111 | 43 |
| Gweithredu ar Addasu | Rheoleiddio | 7 | 4 |
| Galluogedd | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 192 | 50 |
| Galluogedd | Grymuso | 84 | 38 |
| Galluogedd | Grym gwleidyddol | 103 | 37 |
| Galluogedd | Cyfrifoldeb / Atebolrwydd | 47 | 24 |
| Rhwystrau | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 146 | 43 |
| Rhwystrau | Ymwybyddiaeth | 6 | 4 |
| Rhwystrau | Gweithredu cydgysylltu | 23 | 11 |
| Rhwystrau | Ariannol | 69 | 36 |
| Rhwystrau | Arall | 13 | 7 |
| Rhwystrau | Cynllunio / Cyfreithiol | 23 | 13 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhwystrau | Cyndynrwydd i Newid | 19 | 12 |
| Rhwystrau | Natur Wledig / Anghysbell | 23 | 13 |
| Rhwystrau | Amser | 2 | 2 |
| Manteision | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 89 | 35 |
| Manteision | Cydlyniant Cymunedol | 14 | 10 |
| Manteision | Economi | 23 | 16 |
| Manteision | Tywydd 'Da' | 7 | 6 |
| Manteision | Arloesi | 14 | 8 |
| Manteision | Cadwyni cyflenwi a thyfu bwyd lleol | 21 | 14 |
| Manteision | Arall | 15 | 10 |
| Manteision | Twristiaeth | 12 | 7 |
| Ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 146 | 54 |
| Ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd | Uchel | 55 | 38 |
| Ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd | Isel | 17 | 13 |
| Ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd | Arall | 79 | 38 |
| Cyfathrebu | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 400 | 65 |
| Cyfathrebu | Beio | 12 | 6 |
| Cyfathrebu | Cysylltu'r Gymuned | 65 | 25 |
| Cyfathrebu | Addysg | 188 | 54 |
| Cyfathrebu | Rhannu gwybodaeth | 107 | 31 |
| Cyfathrebu | Cyfryngau | 45 | 23 |
| Cyfathrebu | Propaganda | 24 | 18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Emosiwn | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 55 | 28 |
| Emosiwn | Dicter | 2 | 2 |
| Emosiwn | Ofn | 31 | 17 |
| Emosiwn | Hapusrwydd | 3 | 3 |
| Emosiwn | Gobaith | 6 | 5 |
| Emosiwn | Anobaith | 3 | 3 |
| Emosiwn | Tristwch | 6 | 6 |
| Emosiwn | Cywilydd | 1 | 1 |
| Pa mor Barod | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 100 | 48 |
| Graddau Pryder | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 31 | 22 |
| Gweithredu ar Liniaru | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 276 | 63 |
| Gweithredu ar Liniaru | Lleihau nwyon tŷ gwydr | 80 | 39 |
| Gweithredu ar Liniaru | Adfer natur | 46 | 21 |
| Gweithredu ar Liniaru | Ailgylchu / Economi Gylchol | 72 | 34 |
| Gweithredu ar Liniaru | Ynni adnewyddadwy | 97 | 34 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Colli bioamrywiaeth | 32 | 15 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 440 | 64 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Sychder | 24 | 20 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Tywydd eithafol | 113 | 41 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Ariannol / Economaidd | 61 | 29 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Llifogydd | 124 | 43 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Diogelwch bwyd | 68 | 32 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Grwpiau'n cael eu taro'n waeth na'i gilydd | 152 | 50 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Iechyd a Llesiant | 86 | 43 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Tywydd poeth | 28 | 20 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Seilwaith / ynysu | 85 | 29 |
| Effeithiau Negyddol a Risgiau | Tanau gwyllt | 9 | 8 |
| Polisi | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 4 | 2 |
| Pwnc | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 731 | 58 |
| Pwnc | Cymuned | 273 | 47 |
| Pwnc | Unigolyn / Teulu | 277 | 43 |
| Pwnc | Llywodraeth Leol | 143 | 38 |
| Pwnc | Llywodraeth Genedaethol | 251 | 46 |
| Amseru Gweithredu | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 257 | 32 |
| Amseru Gweithredu | Dyfodol | 210 | 30 |
| Amseru Gweithredu | Gorffennol / Presennol | 55 | 26 |
| Amseru Risgiau ac Effeithiau | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 170 | 35 |
| Amseru Risgiau ac Effeithiau | Dyfodol | 54 | 21 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amseru Risgiau ac Effeithiau | Gorffennol / Presennol | 137 | 32 |
| Cyfanswm Detholiadau | Amherthnasol [cyfanswm nifer] | 1,727 | 95 |

Unwaith roedd y codio wedi'i gwblhau, cynhaliodd y tîm ddadansoddiad thematig dwfn o bob prif god, gan adolygu'r holl ddarnau cysylltiedig i ganfod naratifau allweddol. Archwiliodd y tîm hefyd y berthynas rhwng codau a'i gilydd, gan archwilio sut roedd prif ac is-godau yn rhyngweithio ar draws y set ddata a rhwng gwahanol godau. Datgelodd y dadansoddiad thematig naratifau pwysig o themâu rhyng-gysylltiedig, y manylir arno yn y prif adroddiad,

Mae'n bwysig ailbwysleisio nad yw dadansoddiad Eunomia yn rhoi pwyslais ar amlder rhifiadol detholiadau a chodau. Oherwydd yr amrywiad a natur y broses casglu data, nid yw Eunomia o'r farn fod cyfrifiadau meintiol yn ddangosydd dibynadwy o arwyddocâd pwyntiau siarad. Yn hytrach, mae dadansoddiad Eunomia uchod yn manylu ar ehangder, dyfnder, natur a rhyng-gysylltiad y themâu a fynegir yn Adroddiadau Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd.

# Atodiad D: Pecyn Trefnwyr



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad**

**2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd**

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

**3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad**

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

**4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd**





Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


# 1. Cyflwyniad

Bwriad y pecyn gwybodaeth hwn yw cefnogi sefydliadau y mae eu ceisiadau i gynnal digwyddiad Sgyrsiau Hinsawdd wedi bod yn llwyddiannus.

- Llongyfarchiadau os ydych yn darllen y pecyn hwn i ddysgu mwy am y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais, a diolch am eich cefnogaeth.
- Os ydych yn darllen y pecyn hwn i ddysgu mwy am y gronfa Sgyrsiau Hinsawdd ac nad ydych wedi cyflwyno cais eto, **ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth** am y broses ymgeisio.

Nod y cynnwys yn y pecyn hwn yw bod yn ganllaw defnyddiol i drefnwyr ac nid yw wedi'i fwriadu i osod cyfyngiadau ar sut yr hoffech chi redeg eich digwyddiad eich hun.

**Ynglŷn â'r Gronfa Sgyrsiau Hinsawdd**

Nod cronfa Sgyrsiau Hinsawdd Wythnos Hinsawdd Cymru yw cefnogi sefydliadau sydd â chysylltiadau sefydledig â grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol i gynnal digwyddiadau lleol i annog pobl i ymuno mewn sgyrsiau am y thema ganolog ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru eleni, "**addasu i'n hinsawdd newidiol**".

Pwrpas y digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd fydd casglu tystiolaeth i ddeall lefel pryder pobl am newid hinsawdd, yr effaith y mae'n ei chael ar grwpiau penodol, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud unrhyw newidiadau yn decach i bawb yn ein cymunedau. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r digwyddiadau hyn yn cael ei defnyddio i ddyfnhau dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r risgiau i wahanol grwpiau, gan gynnwys a oes gan ein cymunedau'r wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i adeiladu ar fentrau llwyddiannus sydd eisoes yn cael eu darparu yn ein cymunedau. Bydd y digwyddiadau hefyd yn archwilio cyfleoedd posibl sy'n deillio o newid hinsawdd.

Mae eich cais wedi'i gymeradwyo ar y sail eich bod wedi cytuno i:

- Cynnal eich digwyddiad ar ddyddiad a drefnwyd rhwng **dydd Llun 04 Tachwedd 2024 - dydd Gwener 10 Ionawr 2025**. Os hoffech newid dyddiad eich digwyddiad, bydd angen cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Freshwater ar ran Llywodraeth Cymru.
- Mynychu gweminar rhad ac am ddim sy'n cael ei threfnu ar gyfer y rhai sy'n cynnal Sgyrsiau Hinsawdd
- Cwmpasu cyfres o gwestiynau agored a chaeedig yn ystod eich digwyddiad **(gweler Adran 2.2)**.
- Nodi canlyniadau'r sgyrsiau a gafwyd gyda'ch cyfranogwyr mewn adroddiad ôl-ddigwyddiad, a ddylai, yn ddelfrydol, gael ei gyflwyno i Freshwater o fewn 7 diwrnod gwaith i'r digwyddiad, neu erbyn y dyddiad cau terfynol, sef **dydd Gwener 31 Ionawr 2025** **(gweler Adran 2.4)**.

Bydd Freshwater, fel y contractwr penodedig sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru, yn rheoli'r holl ymholiadau, gweinyddiaeth, cymorth a thaliadau sy'n gysylltiedig â'r gronfa. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch **walesclimateweek@freshwater.co.uk.**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd




# 2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad Sgyrsiau Hinsawdd

## 2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

### Telerau talu

Fel ymgeisydd llwyddiannus i'r Gronfa Sgyrsiau Hinsawdd, bydd Freshwater yn anfon cyfarwyddiadau clir atoch ar y telerau talu a'r broses ar gyfer cael mynediad i'r gronfa. I grynhoi'r broses: gwneir taliad cychwynnol o 50% cyn y digwyddiad, a 50% mewn ôl-ddyledion. Bydd Freshwater yn anfon cytundeb grant atoch a bydd angen ei lofnodi, ac yn dilyn hynny dylid codi anfoneb (yn cynnwys TAW) i Freshwater am swm llawn y grant. Ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol a chadarnhad gan Freshwater ei fod yn bodloni'r lefel o fanylder y cytunwyd arno a'ch bod wedi cyflwyno tystiolaeth yn erbyn yr holl gwestiynau a ddarparwyd, bydd y taliad terfynol yn cael ei wneud. Bydd Freshwater yn gallu ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych am y telerau ac amodau talu.

### Cymorth rheoli digwyddiadau

Fel y sefydliad cynnal, chi fydd yn gyfrifol am yr holl weithgareddau hyrwyddo, rheoli digwyddiadau, cyfathrebu, a dilyn i fyny gyda chyfranogwyr o'ch digwyddiad. Eich cyfrifoldeb chi fydd ymdrin â gwahoddiadau ac unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd, ac ni ddylid rhannu data personol â Freshwater na Llywodraeth Cymru. Er nad oes gofyniad i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru na Freshwater fod yn bresennol yn eich digwyddiad, mae cyfle i ofyn am hwylusydd hyfforddedig fel rhan o'ch cais.





## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd




Bydd Freshwater yn darparu'r cymorth rheoli digwyddiad canlynol:

- Cynnal gweminar ar gyfer yr holl ymgeiswyr cronfa llwyddiannus i roi awgrymiadau i chi ar sut i drefnu, hyrwyddo a hwyluso eich digwyddiad ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd sefydliadau cynnal blaenorol o ddigwyddiadau 2023 yn cael eu gwahodd i ymuno fel cyfle i fyfyrio ar eu profiadau eu hunain. Bydd Freshwater yn cysylltu â chi yn fuan i gadarnhau dyddiad/amser y cyfarfod rhithwir hwn a sut i ymuno.
- Hyrwyddo rhaglen gyffredinol y digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd, gan gynnwys rhestriad am ddim am eich digwyddiad ar wefan Wythnos Hinsawdd Cymru a dolen o **Gweithredu ar Hinsawdd Cymru** ('cymerwch ran'). I wneud yn siŵr bod eich digwyddiad wedi'i gynnwys, e-bostiwch **walesclimateweek@freshwater.co.uk** gyda'r holl fanylion, gan gynnwys gwybodaeth am sut y gall pobl gofrestru neu fynychu os nad yw presenoldeb yn gyfyngedig. Os ydych yn trefnu digwyddiad caeedig, yna bydd eich rhestriad yn cael ei nodi fel gwahoddiad yn unig, ond bydd yn dal i gael ei gynnwys ar y wefan i gydnabod eich rhan yn y rhaglen.
- Os hoffech i Freshwater ddod o hyd i hwylusydd hyfforddedig i helpu i gyflwyno eich digwyddiad, yna byddwch yn gallu trafod hyn ymhellach gyda nhw. Yn dibynnu ar gost ac argaeledd ar y dyddiad a ddewiswyd, efallai y bydd eich cais yn cael ei fodloni. Os ydych chi'n hwyluso eich digwyddiad eich hun, bydd y weminar sy'n cael ei threfnu gan Freshwater yn cynnwys awgrymiadau a chyngor ar sut i fynd ati i hwyluso'ch digwyddiad, casglu canlyniadau ac adrodd ar y trafodaethau a gynhaliwyd.
- Awgrymiadau ar sut i drefnu digwyddiad llwyddiannus **(gweler adran 3)** ac arweiniad pellach yn ôl yr angen.



# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad 1/3
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


## 2.2 PWYSIG: Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

Wrth gyflwyno eich cais, rydych wedi cytuno i gynnwys a llunio adroddiad adborth ar gyfres o gwestiynau allweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys isod.

**CWESTIYNAU CYN Y DRAFODAETH: Gwybodaeth a safbwyntiau cyfranogwyr (cwestiynau caeedig)**


Ar gyfer yr adran hon sy'n ymdrin â chwestiynau caeedig, mae'n bwysig eich bod yn gofyn y rhain ar ddechrau eich digwyddiad i'ch cyfranogwyr i'ch helpu i ddeall eu gwybodaeth a'u barn ar newid hinsawdd cyn i drafodaethau gael eu cynnal. Awgrymir eich bod yn dosbarthu holiadur byr wrth gyrraedd i gynrychiolwyr ei lenwi, cyn i'r drafodaeth agored gael ei chynnal. Os yw fformat eich digwyddiad yn golygu na ellir darparu ar gyfer y dull hwn, ystyriwch opsiynau eraill ar gyfer cael atebion i'r cwestiynau hyn gan gynrychiolwyr cyn unrhyw weithgaredd grŵp (e.e. creu arolwg ar-lein i'w rannu â'ch cyfranogwyr ymlaen llaw gan ddefnyddio platfform fel survey monkey **https://uk.surveymonkey.com/**)

**Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?** (ticiwch un blwch yn unig)

- ☐ Yn bryderus iawn
- ☐ Gweddol bryderus
- ☐ Ddim yn bryderus iawn
- ☐ Ddim yn bryderus o gwbl
- ☐ Ddim yn siŵr/ddim yn gwybod
- ☐ Dewis peidio â dweud

**Faint ydych chi'n ei wybod am effaith newid hinsawdd?** (ticiwch un blwch yn unig)

- ☐ Yn gwybod dim
- ☐ Rwy'n gwybod ychydig
- ☐ Rwy'n gwybod cryn dipyn
- ☐ Rwy'n gwybod llawer
- ☐ Ddim yn siŵr/ddim yn gwybod
- ☐ Dewis peidio â dweud



6

# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad 2/3
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


**Pryd, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd pobl yn ardal eich cyngor lleol yn dechrau teimlo'r effeithiau newid hinsawdd a restrir isod?**

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn chi ar y tebygolrwydd y gallai'r pethau hyn ddigwydd neu beidio â digwydd yng Nghymru o ganlyniad i newid hinsawdd, ac os felly, pryd. Hyd yn oed os nad ydych yn siŵr, mae gennym ddiddordeb yn eich barn. (Ticiwch un blwch yn unig wrth ateb pob un o'r cwestiynau isod).

| | Rydym eisoes yn teimlo'r effeithiau | Yn y 10 mlynedd nesaf | Yn y 10 mlynedd nesaf | Yn y 50 mlynedd nesaf | Yn y 100 mlynedd nesaf | Byth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tonnau gwres eithafol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sychder/cyfyngiadau i'r cyflenwad dŵr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Stormydd difrifol a llifogydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Amharu ar y cyflenwad bwyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |



7

# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad 3/3
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


### CWESTIYNAU I'W TRAFOD YN Y DRAFODAETH (Cwestiynau penagored)

Archwiliwch yr holl gwestiynau canlynol gyda chyfranogwyr yn ystod eich digwyddiad trwy drafodaeth agored. Er y bydd gofyn i chi grynhoi adborth ar y cwestiynau penodol hyn yn eich adroddiad terfynol, eich dewis chi yw a fyddwch yn ymdrin â phynciau trafod eraill a chynnwys gweithgareddau ychwanegol fel rhan o'ch digwyddiad. Rydym wedi darparu gwybodaeth gefndir ategol yn **adran 2.3** isod a gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol i chi / yr hwylusydd wrth archwilio'r cwestiynau hyn ymhellach gyda chyfranogwyr eich digwyddiad.

### Gweithredu unigol, aelwyd a chymunedol

Pa mor barod ydych chi, eich aelwyd a'ch cymuned ar gyfer effeithiau tywydd eithafol yn eich barn chi (ee llifogydd, tonnau gwres, sychder, tanau gwyllt, tarfu ar wasanaethau cyhoeddus fel toriadau pŵer, trafnidiaeth, cyflenwadau dŵr, cysylltedd telathrebu/ TGCh a chyflenwadau bwyd)?

- Pa risgiau penodol (os o gwbl) ydych chi'n meddwl y bydd y digwyddiadau tywydd eithafol hyn yn eu hachosi i'ch iechyd a'ch llesiant, a pha gamau ydych chi'n meddwl y gallwch chi eu cymryd i amddiffyn eich hun?
- Pa gamau ydych chi'n meddwl y gallwch chi eu cymryd i amddiffyn eich cartref?
- Pa gamau ydych chi'n meddwl y gellir eu cymryd o fewn eich cymuned ehangach?

### Tegwch a chyfiawnder cymdeithasol

Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar wahanol grwpiau neu gymunedau?

- Os ydych chi'n meddwl bod rhai grwpiau neu gymunedau yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill, sut maen nhw'n cael eu heffeithio?
- Beth arall ei wneud i leihau effaith newid hinsawdd ar wahanol grwpiau neu gymunedau?
- A allai rhai grwpiau neu gymunedau elwa o newid hinsawdd?
- Beth arall ei wneud i helpu grwpiau neu gymunedau i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o newid hinsawdd?

### Gweithredu cymunedol

Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd y mae newid hinsawdd yn eu cyflwyno i'ch cymuned chi?

- Ydych chi'n meddwl bod gan eich cymuned yr hyn sydd ei angen arni i addasu i'r newid hinsawdd (meddyliwch am wybodaeth, adnoddau a chymorth)?
- Beth ydych chi'n meddwl sydd ei angen i gefnogi gweithredu i addasu i newid hinsawdd yn eich cymuned?
- Ydych chi'n meddwl bod gan eich cymuned yr hyn sydd ei angen arni i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan newid hinsawdd (meddyliwch am wybodaeth, adnoddau a chymorth)?
- Beth ydych chi'n credu sydd ei angen i gefnogi gweithredu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan newid hinsawdd yn eich cymuned?



# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored 1/5
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


## 2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

### Gweithredu unigol, aelwyd a chymunedol

Mae llawer o bethau y gallwn eu gwneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau'r risg i ni ein hunain, ein cartrefi a'n cymunedau o effeithiau newid hinsawdd. Dyma rai enghreifftiau o wahanol gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â newid hinsawdd a/neu addasu iddo:

### Tonnau gwres a thanau gwyllt

- Diogelwch eich hun ac eraill rhag effeithiau gormod o wres a haul. Gweler Iechyd **Cyhoeddus Cymru** am ragor o wybodaeth ar sut i gadw allan o'r gwres, oeri, a chadw'ch amgylchedd ar dymheredd cyfforddus, a sut i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed fel pobl â chyflyrau iechyd sylfaenol.
- Cadwch anifeiliaid yn ddiogel mewn tywydd poeth. (**Gweler cyngor yr RSPCA ar gyfer cadw anifeiliaid yn ddiogel ac yn gyfforddus yn ystod tywydd poeth**)
- Bydd llai o law a sychder, tymereddau poethach a gwynt i gyd yn creu'r amgylchiadau perffaith ar gyfer tân gwyllt. Mae newid hinsawdd yn arwain at danau gwyllt amlach, eang a dwys yn y DU. Mae haenau o redyn marw ar lethrau bryniau Cymru hefyd yn gweithredu fel tanwydd ar gyfer tanau gwyllt. Darllenwch awgrymiadau ar sut y gallwn helpu i atal tanau gwyllt, a beth i'w wneud yn ystod ac ar ôl tanau gwyllt ar wefan y **Groes Goch Brydeinig. Awgrymiadau i atal tanau coedwig**.

### Cartrefi ac adeiladau

- Cadwch adeiladau mewn cyflwr da fel cam cyntaf pwysig i'w gwneud yn fwy gwydn i newid hinsawdd.
- Yn ystod ton wres, caewch ffenestri a chadwch y llenni ar gau yn ystod rhan boethaf y dydd i helpu i ostwng y tymheredd dan do.
- Lleihewch effaith glaw trwm trwy ddefnyddio gofod awyr agored ar gyfer gerddi gyda phlanhigion sy'n llawer gwell am amsugno dŵr gormodol nag arwynebau caled fel concrit a gosodwch gasgenni dŵr lle bo modd.
- Ar gyfer eiddo sydd mewn perygl o lifogydd, gwnewch gynllun ar gyfer sut i ddelio â digwyddiad llifogydd. Gallai hynny gynnwys drysau atal llifogydd, lloriau teils ar y llawr gwaelod a socedi trydan uwch. Am fwy o wybodaeth gweler **Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd yn ôl cod post**.
- Os ydych yn landlord, ystyriwch effeithiau newid hinsawdd ar eich tenantiaid a gwnewch newidiadau i'ch eiddo os oes angen.
- Cadwch gyflenwadau hanfodol yn y cartref rhag ofn y bydd pŵer yn methu.
- Ystyriwch addasu i newid hinsawdd fel rhan o unrhyw newidiadau/gwelliannau i'ch cartref.
- Rhowch wybod am faterion TGCh/telathrebu i'ch darparwr gwasanaeth.



# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored 2/5
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


## Cyflenwad ac ansawdd dŵr

- Rheolwch ddŵr yn fwy effeithlon ac arbedwch ddŵr pan allwch chi.
- Peidiwch â gwaredu eitemau fel cadachau gwlyb trwy'r system garthffosiaeth.
- Lleihewch daflu sbwriel.
- Mae angen i gwmnïau dŵr fod yn barod i ddelio â phrinder dŵr, ond gallwn ni i gyd feddwl am ein defnydd o ddŵr i wneud yn siŵr bod gan bawb ddigon yn ystod tywydd poeth neu sychder. Mae yna ffyrdd syml y gallwn ni **arbed dŵr yn ein cartrefi**, megis rhoi cynnig ar fesurydd dŵr a chymryd cawodydd byrrach.
- Mae arbed dŵr hefyd yn arbed ynni, gan ei fod yn golygu bod angen llai o buro, pwmpio a phrosesu.

## Llifogydd

- Dewch o hyd i wybodaeth am sut i baratoi eich cartref ar gyfer llifogydd a beth i'w wneud yn ystod ac ar ôl digwyddiad yn **Cyfoeth Naturiol Cymru**. Mae newid hinsawdd (sy'n arwain at lawiad dwysach a chynnydd yn lefel y môr) a newidiadau dynol i'r amgylchedd, e.e. o drefoli sy'n arwain at gynnydd yng nghyfaint a chyfradd y dŵr ffo, yn golygu y bydd nifer y bobl a'r cartrefi sy'n agored i lifogydd yn parhau i godi. Mae angen i bob un ohonom fod yn barod i amddiffyn ein hunain, ein cartrefi a'n cymunedau rhag perygl llifogydd.

## Natur

- Cymerwch ran mewn gweithredu cadwraeth natur ar lawr gwlad fel gerddi cymunedol neu **bartneriaeth natur leol**, ac annog ardaloedd o gynefin naturiol yn eich cymuned leol, gan gynnwys dŵr, glaswelltir, prysgwydd a choed.
- Os oes gennych eich gardd eich hun, dewiswch laswellt yn hytrach na choncrit neu unrhyw beth artiffisial a pheidiwch â defnyddio cemegau fel plaladdwyr a all ladd gloÿnnod byw, gwyfynod a phryfed peillio. Os oes gennych lawnt, gadewch ardaloedd o laswellt hir i gynyddu bioamrywiaeth. **Darllenwch ragor yma**. Darganfyddwch fwy am **ddewisiadau amgen i gemegau gwenwynig** ar gyfer yr ardd. Defnyddiwch bridd heb fawn. Gall pridd iach amsugno dŵr, gan ein hamddiffyn rhag sychder a llifogydd. Gyda'n priddoedd yn erydu ac yn disbyddu, gallwn ni i **gyd helpu i adfer** iechyd y pridd trwy gyfoethogi ein gerddi gyda chompost cartref. **Darganfyddwch fwy o ffyrdd o ddiogelu pridd gartref**.
- Dilynwch arfer da ar gyfer atal lledaeniad plâu a chlefydau planhigion. Gweler "**Don't Risk It**" i ddysgu mwy.
- Dysgwch fwy am arfordiroedd a moroedd Cymru, effaith ein gweithredoedd cyfunol ac unigol ar iechyd y cefnforoedd a sut mae iechyd y cefnforoedd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd.
- Deallwch fwy am gyfleoedd i ffermwyr a thirfeddianwyr gymryd rhan mewn adfer cynefinoedd a mawndiroedd a rheolaeth gynaliadwy.



# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored 3/5
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


## Plannu coed

- Cydnabyddwch werth coed wrth ein helpu i addasu i newid hinsawdd yn ogystal ag amsugno allyriadau carbon.
- Plannwch goed yn eich gardd (os oes gennych chi un) i roi cysgod a helpu i leihau'r tymheredd yn ystod tonnau gwres yn yr haf.
- Cymerwch ran mewn plannu coed yn y gymuned i helpu i roi cysgod i bobl ac adeiladau a helpu i leihau'r pwysau ar systemau draenio drwy amsugno dŵr a fyddai fel arall yn ddŵr ffo oddi ar yr ardaloedd mawr o arwynebau caled sydd gennym yn ein trefi, dinasoedd a phentrefi.
- Rhowch wybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am dorri coed yn anghyfreithlon.
- Rhowch wybod am blâu a chlefydau planhigion a choed gan ddefnyddio Tree Alert.
- Mae coed yn cynnig cysgod, gan weithredu fel 'cyflyrwyr aer naturiol', sy'n lleihau tymheredd uchel a llygredd. Darganfyddwch fwy am fynd i'r afael â **llygredd aer gyda choed**.

## Dewisiadau bwyd

- Bwytewch **ddiet cytbwys** a sicrhewch ein bod yn **bwyta'n iach**, gan fwyta'r math a'r swm cywir o fwyd.
- Lleihewch wastraff bwyd.
- Ystyriwch gynaliadwyedd bwyd wrth i chi siopa'n wythnosol a phrynwch fwyd môr wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy lle mae ar gael.
- Dysgwch blant am bwysigrwydd bwydydd cynaliadwy.

Darllenwch fwy am newid hinsawdd a'r hyn y gallwn ni i gyd ei wneud i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd yn: **www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru**.



## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored 4/5
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd




**Tegwch a chyfiawnder cymdeithasol**

Mae'r term cyfiawnder cymdeithasol yn cyfeirio at ddosbarthiad teg o gyfleoedd, manteision a beichiau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ar draws cymdeithas. Yn 2023 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar **Bontio Teg tuag at Sero Net Cymru** i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag achos newid hinsawdd drwy leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr mewn ffordd deg.

Hyd yn oed wrth inni weithio i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang, mae cryn dipyn o newid hinsawdd eisoes yn anochel. Cydnabyddir y gallai effeithiau andwyol newid hinsawdd gael mwy o effaith ar rai grwpiau neu gymunedau ac y bydd angen gweithredu i leihau'r risg honno. Er enghraifft:

- Gall pobl â chyflyrau iechyd neu alwedigaethau penodol fod yn fwy agored i effeithiau tymheredd uchel
- Mae'n bosibl y bydd person oedrannus nad oes ganddo fynediad at gyfathrebu digidol yn llai tebygol o gael rhybudd ymlaen llaw am don wres neu storm a'i fod heb baratoi'n dda o ganlyniad.
- Efallai y bydd gan y gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma anghenion penodol i sicrhau bod eu cartrefi a'u diwylliant yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd.
- Mae'n bosibl y bydd pobl ar incwm is yn llai tebygol o fod ag yswiriant yn erbyn difrod llifogydd gan ei gwneud hi'n anoddach iddynt brynu nwyddau cartref newydd ar ôl llifogydd.
- Gall fod unigolion neu grwpiau hefyd yn cael eu heffeithio gan sawl ffurf ar anghydraddoldeb, er enghraifft gallai unigolyn fod ar incwm isel a bod ag anabledd. Gallai hyn waethygu'r problemau y maent yn eu hwynebu a gwneud eu hanghenion yn fwy cymhleth.
- Bydd mwy o effeithiau hefyd ar rai cymunedau oherwydd eu lleoliad (ardaloedd arfordirol, gorlifdiroedd ac ati).

Yn ogystal â bygythiadau yn sgil newid hinsawdd, efallai y bydd rhai cyfleoedd hefyd. Er enghraifft, gallai hafau sychach olygu bod mwy o bobl yn fodlon gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored. Mae'n bwysig bod pawb yn gallu manteisio'n gyfartal ar unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o'n hinsawdd newidiol yn ogystal â chael cymorth i'w helpu i ymdopi ag unrhyw faterion.

Ni fydd effeithiau newid hinsawdd yn cael eu teimlo'n gyfartal ar draws y byd nac o fewn Cymru, gyda'r effeithiau gwaethaf yn aml yn disgyn ar y gwledydd, y cymunedau a'r unigolion hynny sydd leiaf abl i ymdopi â'r effeithiau.

Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y newid i ddyfodol gwyrddach yn lleihau neu'n dileu anghydraddoldeb, a thuag at wireddu gweledigaeth o well llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor arweiniol o 'adael neb ar ôl'.



## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored 5/5
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


**Gweithredu cymunedol**

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru rôl allweddol wrth ddatblygu a gweithredu polisïau i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau i ddatblygu mentrau a dulliau sy'n ystyried barn ac anghenion pobl leol a rhanddeiliaid. Rydym yn deall bod cymunedau eu hunain yn aml yn y sefyllfa orau i ddeall eu hanghenion eu hunain a chyd-destun unigryw eu lleoliad penodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau i ddod o hyd i'r hyn sy'n gweithio orau iddyn nhw ac i ddeall yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i helpu i sicrhau bod eu cymunedau wedi'u haddasu'n dda i'r hinsawdd sy'n newid. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu sgyrsiau gyda chymunedau sydd ar y rheng flaen o ran profi effeithiau newid hinsawdd, er mwyn ystyried y ffordd orau o wneud y canlynol:

- Cael y cydbwysedd cywir rhwng polisïau ar lefel genedlaethol a gwneud penderfyniadau a gweithredu cymunedol.
- Annog arweinyddiaeth gan awdurdodau lleol, gan ddefnyddio eu rhwydweithiau hinsawdd lleol i ddeall materion, cyfleoedd ac effeithiau posibl rhanbarthol newid hinsawdd, a chysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac eraill i ddarparu'r cymorth cywir i gymunedau deimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Cynnwys pobl a chymunedau mewn sgyrsiau dwy ffordd am y penderfyniadau polisi a allai effeithio arnynt. Mae cysylltu â phobl, eu gwerthoedd, a'u profiadau bywyd wrth wraidd datblygu strategaethau ymgysylltu ystyrlon
- Sicrhau bod pobl yn cael y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am risgiau ac ymaddasu sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- Sianelu cyllid a chymorth i'r bobl a'r lleoedd sydd angen cymorth ymaddasu fwyaf, gan rymuso cymunedau i nodi a darparu'r atebion sy'n gweithio iddynt.
- Sicrhau tegwch, cyfranogiad gweithredol ac arweinyddiaeth pobl a lleisiau a allai fod wedi cael eu heithrio hyd yma rhag gwneud penderfyniadau oherwydd hil, rhyw, neu ddosbarth. Os nad yw eu lleisiau, eu profiadau bywyd, eu gwerthoedd, a'u hunaniaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn datrysiadau polisi, mae'r mentrau hyn yn annhebygol o lwyddo.
- Rhannu profiad, straeon llwyddiant ymaddasu i'r hinsawdd cadarnhaol ac astudiaethau achos.



## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


### 2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

Gofynnir i chi gyflwyno adroddiad yn crynhoi canlyniadau eich digwyddiad, **yn ddelfrydol o fewn 7 diwrnod gwaith** ond yn sicr erbyn y dyddiad cau sef **dydd Gwener, 31ain Ionawr 2025**. Dylai eich adroddiad fod mewn dogfen Word neu PDF yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Enw'ch sefydliad
2. Pryd a ble y cynhaliwyd y digwyddiad?
3. Faint o bobl ddaeth i'ch digwyddiad?
4. Unrhyw wybodaeth fras y gallwch ei darparu ar ddadansoddiad demograffig cyfranogwyr eich digwyddiad megis ystod oedran amcangyfrifedig, rhaniad rhyw, dadansoddiad ethnig, ble maent yn byw (awdurdod lleol, lleoliad trefol neu wledig), statws gwaith (dysgu/astudio, hunangyflogedig, cyflogedig, wedi ymddeol ac ati), math o alwedigaeth ac ati.
5. Pa mor dda ydych chi'n teimlo bod y gynulleidfa wedi deall y materion a'r cysyniadau oedd yn cael eu trafod?
6. Pa mor gyfforddus oedd y gynulleidfa yn teimlo wrth rannu eu safbwyntiau a'u barn?
7. Cwestiynau cyn y drafodaeth – Dadansoddiad o'r holiadur wedi'i gwblhau gan gynnwys dadansoddiad o nifer y cyfranogwyr a'i cwblhaodd, cadarnhad ei fod wedi'i gwblhau ar ddechrau'r digwyddiad cyn cynnal y trafodaethau agored, a dadansoddiad o'r ymatebion a ddarparwyd ar gyfer pob un o'r cwestiynau.
8. Y drafodaeth – Eich dadansoddiad o'r prif gwestiynau penagored a chwestiynau ategol o dan bob un, gan gynnwys beth fyddech chi'n ei ddweud oedd y prif themâu a chasgliadau a ddeilliodd o'r drafodaeth? (ychwanegwch bopeth rydych chi'n teimlo sy'n berthnasol).
9. A oedd unrhyw negeseuon penodol y mae cyfranogwyr am eu rhannu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r trafodaethau a gynhaliwyd?
10. Ychwanegwch unrhyw adborth, syniadau neu awgrymiadau ychwanegol a allai fod o fudd i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynnal sesiynau neu drafodaethau tebyg yn y dyfodol.
11. Cadarnhewch unrhyw gost neu ffi, gan gynnwys unrhyw gostau teithio, ar gyfer hwyluso'r drafodaeth a chwblhau'r adroddiad.

Sylwch nad oes angen adroddiadau hir a chymhleth cyn belled â bod y wybodaeth allweddol y gofynnir amdani uchod yn cael ei chasglu a'i chynnwys.

Chi fydd perchennog y data a phrosesydd data eich digwyddiad ac ni ddylech gynnwys yn eich adroddiad terfynol unrhyw wybodaeth bersonol y gellir ei chysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a fynychodd eich digwyddiad. Fel y trefnydd, chi fydd yn gyfrifol am gadw a phrosesu'r holl ddata personol ar fynychwyr eich digwyddiad ac ni ddylid rhannu hwn â Llywodraeth Cymru na Freshwater fel trefnydd rhaglen gyffredinol y digwyddiad.

14

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd
2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais
2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad
2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored
2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad
2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio
3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad
3.1 Fformat, arddull ac amseriadau
3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad
4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


### 2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o nodweddion gwahanol grwpiau a chymunedau a allai gael eu heffeithio'n fwy gan effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r **digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd** sydd i'w cynnal fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru 2024 yn un o nifer o ddulliau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth a gwrando ar farn a safbwyntiau ystod amrywiol o gymunedau, grwpiau ac unigolion. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r digwyddiadau hyn yn cael ei defnyddio i helpu i lywio polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ble i flaenoriaethu cymorth lle mae ei angen fwyaf. Bydd y dystiolaeth hefyd yn cael ei defnyddio i lywio gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu hinsawdd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn coladu adborth o'r holl ddigwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd ac yn ymgorffori'r canfyddiadau mewn adroddiad ehangach yn crynhoi'r canlyniadau. Bydd crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd yn cael ei ddosbarthu i holl drefnwyr y digwyddiadau, a byddwch yn cael eich gwahodd i'w rannu â'r rhai wnaeth gymryd rhan yn eich digwyddiad




15

Cynnwys


1. Cyflwyniad

2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


# 3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

## 3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

Mae eich cais ar gyfer y digwyddiad wedi'i gymeradwyo oherwydd ei fod yn cefnogi nodau ac amcanion Wythnos Hinsawdd Cymru 2024 a'r gronfa Sgyrsiau Hinsawdd. Chi sydd i benderfynu ar yr arddull a'r fformat a ddewiswch ar gyfer eich digwyddiad ond dylid ei drefnu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb eich cynulleidfa ac yn eu hannog i rannu eu syniadau a'u barn. Dylai'r awyrgylch fod yn gynhwysol a chroesawgar, gyda phawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Mae Wythnos Hinsawdd Cymru yn hyrwyddo rhannu barn, cynhyrchu syniadau a thrafodaeth ar fanteision ac anfanteision gwahanol atebion ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd ac ymaddasu iddo. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n bwysig rhannu gwybodaeth am y wyddor hinsawdd ddiweddaraf a'r gwahanol ffyrdd y mae ymddygiad dynol yn cael effaith ar ein hinsawdd a'n hamgylchedd naturiol.

Dylai'r wybodaeth sydd yn y Pecyn hwn gael ei defnyddio gan drefnwyr i ymgysylltu â chyfranogwyr ac annog trafodaethau. Mae fformat y trafodaethau hyn yn hyblyg a gellir eu cynnal trwy weithdai, mewn grwpiau bach neu ar ffurf theatr fwy. Gwahoddir trefnwyr i recordio eu digwyddiadau (fideo neu sain) ond dim ond gyda chaniatâd pawb sy'n bresennol.

Wrth drefnu eich digwyddiad, meddyliwch am yr ôl troed carbon. Lle bo modd, dylid cynnal digwyddiadau ffisegol yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus (ee gorsafoedd rheilffordd a/neu lwybrau bysiau) a dylech ystyried yr opsiwn o wahodd rhai mynychwyr i ymuno'n rhithiol os ydynt yn dymuno lleihau'r angen i deithio. Dylid creu unrhyw ddeunyddiau arddangos gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a dylai arlwyo ddefnyddio cynnyrch o ffynonellau lleol, heb unrhyw blastigau untro.

Nid oes unrhyw amseriadau penodol ar gyfer pa mor hir y dylai eich digwyddiad bara ond anogir trefnwyr i gynnal digwyddiadau ar adeg sy'n debygol o fod yn fwyaf cyfleus i'w cynulleidfaoedd. Dylai trefnwyr gynnal eu digwyddiadau ar ddyddiad a drefnwyd rhwng **dydd Llun 04 Tachwedd 2024 - dydd Gwener 10 Ionawr 2025**. Os hoffech newid dyddiad eich digwyddiad, bydd angen cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Freshwater ar ran Llywodraeth Cymru.

Unwaith y byddwch wedi dewis lleoliad addas, dyddiad ac ystyried eich cynulleidfa, bydd angen i chi ddechrau hyrwyddo eich digwyddiad. Bydd rhai trefnwyr eisiau gwybod faint o bobl fydd yn bresennol, felly byddant yn dewis digwyddiadau gwahoddiad yn unig, tra bydd eraill yn ffafrio digwyddiadau cyhoeddus agored lle gall pobl alw heibio ar wahanol adegau yn ystod y dydd. Fel y trefnydd, chi fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylai pobl gofrestru i fynychu'r digwyddiad, sut mae rhestrau gwesteion yn cael eu creu a'u cadw a sut mae cyfranogwyr yn cael eu rheoli ar y diwrnod.

16

Cynnwys


1. Cyflwyniad

2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd


## 3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

Mae yna lawer o ffyrdd y gallech ddymuno hyrwyddo eich digwyddiad ond dyma rai awgrymiadau i chi i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Rhowch enw bachog i'ch digwyddiad sy'n disgrifio'r hyn sy'n mynd i fod yn digwydd – rhowch bwyslais ar allu pobl i ddweud eu dweud ar flaenoriaethau a pholisïau newid hinsawdd yn y dyfodol a beth maen nhw'n meddwl sy'n deg
- Postiwch am eich digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol (dyma'r ffordd rataf a mwyaf ecogyfeillgar i hyrwyddo'ch digwyddiad, felly rhowch flaenoriaeth iddo).
- Mae postiadau gyda delweddau neu gynnwys fideo yn dueddol o gael eu rhannu'n amlach, felly byddwch yn greadigol.
- Crëwch 'Ddigwyddiad' ar Facebook a sefydlu tudalen Eventbrite - gallwch sefydlu tudalen a mynd ati i'w hyrwyddo am ddim.
- Crëwch bosteri neu daflenni syml (gan ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu) i'w harddangos o amgylch y gymuned leol.
- Ysgrifennwch ddatganiad syml i'r wasg neu ddisgrifiad o'ch digwyddiad a'i anfon i'ch papur newydd lleol/gorsaf radio.
- Cysylltwch â busnesau a sefydliadau lleol amlwg (ee cyflogwyr mawr) a'u hannog i hyrwyddo'r digwyddiad trwy eu rhwydweithiau.
- Lawrlwythwch y '**Pecyn Cymorth Hyrwyddo**' oddi ar wefan Wythnos Hinsawdd Cymru. Yma gallwch gael mynediad at ystod o ddeunyddiau hyrwyddo o logos swyddogol a graffeg hyrwyddo i eiriad a awgrymir i hyrwyddo eich digwyddiad fel rhan o raglen Wythnos Hinsawdd Cymru.



17

## Cynnwys


1. Cyflwyniad

2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad

4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd 1/2


# 4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd a'r pwnc ymaddasu i'r hinsawdd

### Pam mae'r tymheredd yn codi?

- Hinsawdd yw'r tywydd cyfartalog mewn lle dros nifer o flynyddoedd. Newid hinsawdd yw newid yn yr amodau cyfartalog hynny.
- Mae rhai newidiadau yn yr hinsawdd yn naturiol ac yn digwydd dros gyfnodau hir iawn o amser. Fodd bynnag, mae gweithgaredd dynol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig yn achosi lefelau o gynhesu byd-eang na fyddai i'w gweld yn naturiol.
- Mae tymheredd y byd yn codi ac mae newid hinsawdd bellach yn bygwth pob agwedd ar fywyd dynol. Mae'r newid cyflym yn yr hinsawdd yr ydym yn ei weld yn awr yn cael ei achosi gan fodau dynol yn defnyddio olew, nwy a glo ar gyfer eu cartrefi, ffatrïoedd a thrafnidiaeth.
- Pan fydd y tanwyddau ffosil hyn yn llosgi, maent yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr - carbon deuocsid ($CO_2$) yn bennaf. Mae'r nwyon hyn yn dal gwres yr haul ac yn achosi i dymheredd y blaned godi.
- Mae'r byd eisoes tua 1.2C yn gynhesach nag yr oedd yn y 19eg Ganrif - ac mae swm y $CO_2$ yn yr atmosffer wedi codi 50%. Rhaid cyfyngu codiadau yn y tymheredd i 1.5C os ydym am osgoi canlyniadau gwaethaf newid hinsawdd.

### Effeithiau Newid Hinsawdd

- Mae tymereddau uwch nag erioed yn achosi effeithiau ar iechyd, cynhyrchiant a seilwaith. Mae perygl cynyddol y bydd tanau gwyllt yn effeithio ar goedwigoedd, eiddo a bywyd gwyllt. Mae sychder yn bygwth ein cyflenwadau dŵr, bywyd gwyllt a hyfywedd amaethyddiaeth i gynhyrchu'r bwyd rydym yn ei fwyta.
- Gall risgiau cynyddol stormydd difrifol effeithio ar eiddo, cyflenwadau pŵer, rhwydweithiau trafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae llifogydd yn difrodi cartrefi, bywoliaethau a chynefinoedd. Mae lefel y môr yn codi. Gallai tua 400 miliwn o bobl ledled y byd fod yn byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl parhaus o lifogydd.
- Mae gwyddonwyr bellach yn cytuno mai bodau dynol sy'n gyfrifol am y newidiadau hyn. Er bod newid hinsawdd yn fater byd-eang, mae hefyd yn fygythiad i Gymru, gyda'r patrymau tywydd sy'n newid yn gyflym eisoes yn cael effaith ar ein cartrefi, ein cymunedau a'n hamgylchedd.
- Yn ogystal â newid hinsawdd, mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar y byd naturiol, gan arwain at ddifodiant rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion ar raddfa frawychus. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, yn yr 20 mlynedd nesaf, bydd miliwn o'r wyth miliwn o rywogaethau ar y blaned yn diflannu.




## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Canllawiau ar y broses ar gyfer cynnal digwyddiad sgyrsiau hinsawdd

2.1 Y camau nesaf yn dilyn cymeradwyo eich cais

2.2 Cwestiynau allweddol i'w harchwilio gyda chyfranogwyr eich digwyddiad

2.3 Gwybodaeth gefndir i gefnogi cwestiynau penagored

2.4 Cwblhau a chyflwyno eich adroddiad ôl-ddigwyddiad

2.5 Sut bydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

3. Syniadau ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich digwyddiad

3.1 Fformat, arddull ac amseriadau

3.2 Hyrwyddo eich digwyddiad



4. Gwybodaeth gefndir am newid hinsawdd 2/2


- Mae newid hinsawdd yn gyrru dirywiad byd natur ymhellach, ac mae colli bywyd gwyllt a mannau gwyllt yn ein gadael ni mewn sefyllfa wael o ran lleihau allyriadau carbon ac ymaddasu i newid. Ni ellir datrys y naill heb y llall.
- Pan fo'n iach, gall ein cynefinoedd naturiol leihau'r perygl o lifogydd, helpu i atal erydiad arfordirol, gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â chynnal priddoedd iach, dŵr glân a'r peillwyr sydd eu hangen ar gyfer ein cnydau – ac felly ein cynnal.
- Mae angen i lywodraeth, diwydiant a busnes weithredu ar newid hinsawdd ond mae angen i ni wneud yn siŵr bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ffordd deg.
- Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd (sy'n grŵp DU gyfan o arbenigwyr annibynnol sydd â rôl statudol yn cynghori'r pedair llywodraeth ar draws y DU ar newid hinsawdd) yn datgan y bydd angen rhyw elfen o newid ymddygiad gan y cyhoedd ar gyfer dros 60% o'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

### Beth yw Ymaddasu i'r Hinsawdd?

- Mae 'ymaddasu' i newid hinsawdd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio camau a gymerir i fynd i'r afael â risgiau hinsawdd a pharatoi ein hunain ar gyfer y newidiadau sydd o'n blaenau, tra bod 'lliniaru' newid hinsawdd yn cyfeirio at gamau a gymerir i gyfyngu ar gynhesu byd-eang pellach trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r ddau yn elfennau hanfodol o ymateb cynhwysfawr i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur.

### Pam mae cynnwys y cyhoedd yn bwysig?

- Mae angen mwy o ymwybyddiaeth a gweithredu gan y cyhoedd i addasu i effeithiau anochel newid hinsawdd yr ydym eisoes yn eu gweld. Mae angen gweithredu ar frys hefyd ar draws pob rhan o gymdeithas i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a lleihau lefelau pellach o newid hinsawdd.
- Nid yw llawer o bobl yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd i'w hiechyd, eu llesiant a'u cynhyrchiant o ddod i gysylltiad fwyfwy â gwres.
- Mae angen i bobl hefyd fod yn ymwybodol o gyfleoedd i amddiffyn eu cartrefi a'u cymunedau rhag effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys gwres eithafol, sychder, stormydd a llifogydd.

